# RHYBUDD O GYFARFOD

***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 19 Mawrth 2025 |
| **Amser:** | 10:00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru***
*Brian Angell, Rhys Evans, Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd, Wyn Thomas.*

# R H A G L E N


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd** | |
| 2. | **Datgan Diddordeb**<br>Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod neu swyddog. | |
| 3. | **Cofnodion**<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 27 o Dachwedd 2024 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth.  (Copi yma). | 3 – 6 |
| 4. | **Taflen Weithredu**<br>Cyflwyno'r Daflen Weithredu er gwybodaeth a phenderfyniad.  (Copi yma) | 7 – 8 |
| 5. | **Adroddiad Cwblhau Prosiect Treftadaeth Treflun Dolgellau**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol (Copi yma) | 9 – 14 |
| 6. | **Adroddiad blynyddol ar Geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma) | 15 – 16 |
| 7. | **Proffil Risg yr Awdurdod**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro. (Copi yma) | 17 – 31 |
| 8. | **Diweddariad o'r Gyllideb 2024/25**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cyllid.  (Copi yma) | 32 – 40 |
| 9. | **Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Lles 2024**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Gwirfoddoli a Lles.  (Copi yma) | 41 – 63 |
| 10. | **Rhaglen Waith Corfforaethol 2024-25**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro ar y cynnydd a wnaed yn y 3ydd a'r 4ydd chwarter yn 2024-25 i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod. | 64–108 |
| 11. | **Rhaglen Waith Corfforaethol 2025-26**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr ar y gwaith/prosiectau fydd yn cael eu cwblhau yn ystod 2025-26 mewn ymateb i Amcanion Llesiant yr Awdurdod. | 109-133 |

**COFNODION**
**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
DYDD MERCHER 27ain o DACHWEDD 2024
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elfed Powell Roberts (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson;

**Swyddogion**
G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Bethan Hughes, Nia Murray, Awel Gruffydd, Gareth Hughes, Sian Owen, Eifion Jones.

**Hefyd yn bresennol**
Rachel Freitag, Rheolwr Archwilio (eitem 10 yn unig)

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Louise Hughes, June Jones, John Pughe Roberts, Ifor Glyn Lloyd, a gan Brian Angell a Delyth Lloyd.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Nia Owen i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

2. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod na swyddog.

3. **Cofnodion**

*Mabwysiadwyd* cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar y 10fed o Orffennaf 2024 ac ar yr 11eg o Fedi 2024, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Taflen Weithredu**

*Cyflwynwyd* y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Dywedodd y dylid dileu eitem 9, sef *Panel Craffu – Cyfrif Carbon Eryri*, o'r daflen gan fod *Strategaeth Carbon Isel Drafft* wedi ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ar 12 Mehefin 2024.

***Argymhellwyd*****:** – tynnu eitem 9 a chadw'r ddwy eitem arall fel ag yr oeddynt.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

5. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

*Cyflwynwyd* adroddiad ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a oedd yn datgan:

- y camau yr oedd yr Awdurdod wedi'u cymryd i bennu a chasglu'r wybodaeth berthnasol;
- sut roedd yr Awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth honno wrth ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol;
- y cynnydd a wnaethpwyd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr Awdurdod.

***Argymhellwyd*****:** – cymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24 ar wefan yr Awdurdod.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

6. **Canolfannau Croeso – Adroddiad Blynyddol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy ar Ganolfannau Croeso'r Parc yn Aberdyfi, Beddgelert a Betws y Coed.

*Adroddwyd*:

- bod trosiant y tair canolfan wedi cynyddu dros y flwyddyn
- bod nifer yr ymwelwyr wedi aros yn sefydlog yn Aberdyfi a Betws y Coed, ond wedi gostwng ychydig ym Meddgelert
- canolfan Aberdyfi wedi llwyddo cael cyflenwad llawn o staff ar gyfer y tymor llawn.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gwaith eithaf pellgyrhaeddol wedi ei fwriadu ar gyfer canolfyn Betws y Coed

***Argymhellwyd*****:** – trafod cynnwys yr adroddiad ac unrhyw gamau a ddylid eu cymryd wrth edrych ymlaen at 2024-2025.

***Derbyniwyd*** yr adroddiad**.**

7. **Rhaglen Waith Corfforaethol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar y Rhaglen Waith Corfforaethol a oedd yn cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y chwarter cyntaf a'r ail o 2024 (Ebrill - Medi) i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod.

***Argymhellwyd:*** – archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol

***Penderfynwyd*** derbyn y Rhaglen Waith Corfforaethol.

8. **Diweddariad Grantiau Ariannu Allanol**

*Cyflwynwyd* diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod a chadarnhad blaenoriaethau ar gyfer cymorth grant allanol yn y dyfodol gan y Prif Weithredwr.

***Argymhellwyd:*** –

(i) Nodi'r prosiectau arian cyfalaf 2022-2025;
(ii) Nodi'r ymrwymiad i brosiectau Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy;
(iii) Cadarnhau meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol;
(iv) Nodi'r Siart Llif;
(v) Nodi cynnydd ar brosiectau byw.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad.

9. **Adroddiad Iechyd a Diogelwch**

*Cyflwynwyd* adroddiad ar reolaeth iechyd a diogelwch o fewn yr Awdurdod gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch.

*Adroddwyd* bod:

- Swyddog Iechyd a Diogelwch wedi ei benodi ym mis Ionawr 2024;
- systemau digidol wedi eu cyflwyno i gofnodi salwch a bod hyn yn:
    - galluogi nodi'r rheswm am y salwch yn ogystal â'r ffaith,
    - esbonio, o bosib, y cynnydd yn nifer yr adroddiadau damweiniau ayyb;
- cynnydd sylweddol wedi ei weld yn absenoldebau oherwydd straen, pryder ac iselder ysbryd (roedd cyfradd yr absenoldebau yn debyg i sefydliadau tebyg eraill);
- lles yn ffocws allweddol, gyda phwyslais ar iechyd meddwl; bod mynediad i gwnsela ar yr ap Wellness 360 ar gael i bob aelod o staff, a bod dau aelod o staff wedi eu hyfforddi'n Gymhorthydd Cyntaf Iechyd Meddwl (*Mental Health First-Aider*) ac yn Bencampwr Llesiant (*Wellness Champion*).

***Argymhellwyd:*** – nodi'r adroddiad.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

10. **Cynllun Archwilio Ariannol 2022.23**

*Cyflwynwyd* cynllun ar gyfer archwiliad cyfrifon 2022-23 a rhaglen waith archwilio perfformiad 2023 a 2024 gan y Rheolwr Archwilio Allanol.

*Adroddwyd*

- bod y cynllun hwn ar gyfer archwiliad cyfrifon 2022-23 am fod archwiliad cyfrifon 2021-22 wedi ei oedi'n sylweddol oherwydd materion yn ymwneud â phrisio eiddo, peiriannau ac offer;
- mai dyna'r rheswm hefyd fod y cynllun yn nodi rhaglen waith archwilio perfformiad 2023 a 2024;
- y risgiau datganiad ariannol a'r meysydd ffocws eraill;
- mai'r bwriad oedd cwblhau'r archwiliad cyn y Nadolig a chyflwyno'r adroddiad yn Chwefror 2025

***Argymhellwyd:*** – derbyn y cynllun.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

11. **Cyflwyno cofnodion y Pwyllgor Safonau er gwybodaeth**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fedi 2024.

***Nodwyd*** y cofnodion.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10:55**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 12.07.2023

| EITEM RHIF. A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 7. Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru | **PENDERFYNWYD aros am adroddiad ar ddull strategol o arallgyfeirio i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol tua diwedd 2023 / dechrau 2024.** | Y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli i baratoi adroddiad. | PW | Adroddiad cynnydd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Tachwedd '23. Aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar arallgyfeirio incwm yn dilyn adroddiad 3 APC ar Arallgyfeirio Incwm gan Archwilio Cymru. Cyflwynwyd adroddiad penodol ar reolaeth Plas Tan y Bwlch i Weithgor yr Aelodau ym mis Ionawr 2024 ac fe'i hystyriwyd yn ffurfiol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 7 Chwefror 2024. **Parhau i aros am arweiniad LlC.** | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 29.11.2023

| EITEM RHIF. A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 8. Arallgyfeirio Incwm | **PENDERFYNWYD gohirio rhagor o waith ar A1 nes bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac wedi mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ar eu cyfer yn Adroddiad Archwilio Cymru.** | Y Prif Weithredwr i aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru a chyflwyno adroddiad maes o law. | PW | Mae swyddogion wedi cwblhau rhestr wirio hunanasesu.<br><br>**Parhau i aros am ymateb LlC** | |

**EITEM 5**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 19 Mawrth 2025 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD CWBLHAU PROSIECT TREFTADAETH TREFLUN DOLGELLAU** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol |
| **PWRPAS** | Diweddaru Aelodau ar gynnydd y prosiect |

## 1. CEFNDIR

1.1. Yn 2016, cyflwynodd APCE gais grant llwyddiannus i gronfa Treftadaeth Treflun Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Derbyniwyd cefnogaeth ariannol gyfatebol gan APCE, Cadw a Chyngor Gwynedd.

1.2. Roedd y cais hwn yn adeiladu ar brosiect llwyddiannus blaenorol yn Nolgellau, a gwblhawyd yn 2010-15, sef Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau, dan arweiniad APCE a gyda chefnogaeth gan gronfa Treftadaeth Treflun Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cadw a Chyngor Gwynedd.

1.3. Nod y gronfa Treftadaeth Treflun yw galluogi cymunedau i wella cyflwr amgylchedd hanesyddol adeiledig ardaloedd cadwraeth, sydd angen buddsoddiad, gyda’r bwriad o adfywio ardaloedd er budd trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr.

1.4. Nid yw’r gronfa Treftadaeth Treflun yn bodoli fel cronfa unigol o fewn Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol erbyn hyn, ond mae modd cyflwyno ceisiadau ar gyfer prosiectau o’r fath i’r brif gronfa.

## 2. PROSIECT DOLGELLAU, 2017-24

2.1. Gweler rhestr lawn o’r prosiectau a gyflawnwyd, isod.

2.2. Prif elfen y prosiect oedd dyfarnu grantiau i berchnogion a leswyr adeiladau (gydag o leiaf 10 mlynedd ar ôl ar eu les) o fewn ffin y prosiect, sef Ardal Gadwraeth Dolgellau, er mwyn cefnogi perchnogion a leswyr i wella’u heiddo ac annog dod a gofodau gwag yn ôl i ddefnydd preswyl a masnachol.

2.3. Nod y gwaith oedd dod a budd economaidd i'r ardal drwy hybu busnesau ac adfywio'r dref, yn ogystal ag adfer a chynnal rhinweddau pensaernïol a hanesyddol arbennig adeiladau'r Ardal Gadwraeth.

2.4. Ynghyd a'r gwaith cyfalaf yma, cyflawnwyd rhaglen o waith ymgysylltu cymunedol. Arweiniwyd y gwaith hwn gan ddau grŵp lleol, sef Partneriaeth Dolgellau a Grŵp yr Aran.

2.5. Dyddiad cwblhau gwreiddiol y cynllun oedd 2021, ond oherwydd y pandemig Covid 19 a chymhlethdodau gydag un prosiect penodol yn sgil marwolaeth ddisymwth y perchennog, rhoddwyd estyniad amser i'r prosiect, tan fis Medi 2024.

2.6. Mae'r elfennau o waith cyfalaf a chymunedol wedi'u cwblhau ers 2024 ac mae Rheolwr y Cynllun yn cwblhau taliadau'r dargadwadau a'r hawliad terfynol i'r Gronfa dreftadaeth ar hyn o bryd. Bydd yr hawliad yn cael ei gyflwyno yn ystod Chwefror 2025.

2.7. Mae cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau wedi gwneud cyfraniad sylweddol i wella cyflwr y treflun drwy sicrhau bod adeiladau hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth yn cael eu hatgyweirio yn unol ag arfer cadwraethol gorau a bod nodweddion pensaernïol sydd wedi'u colli yn cael eu hadfer yn gywir i warchod a gwella eu cyflwr.

2.8. Mae prosiectau ymgysylltu cymunedol wedi meithrin gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o dreftadaeth yr Ardal Gadwraeth ymysg nifer o grwpiau lleol.

2.9. Wynebodd y cynllun nifer o heriau, gan gynnwys y pandemig Covid 19, marwolaeth ddisymwth perchennog un o adeiladau blaenoriaeth uchel y Cynllun a nifer cyfyngedig o gontractwyr lleol o faint digonol i ymgymryd â rhai o'r prosiectau, gan olygu nad oedd bob amser yn bosib derbyn digon o ddyfynbrisiau i symud ymlaen gyda'r gwaith. Dan yr amgylchiadau hyn, bu'n rhaid penodi syrfëwr meintiau ar gyfer rhai prosiectau, er mwyn sicrhau gwerth da am arian.

## 3. GWAITH CYFALAF

| Pwrpasau Cymeradwy | Trosolwg o Gynnydd |
|---|---|
| Prosiect Blaenoriaeth Uchel:<br>Tŷ Newyddion, Adeiladau Glyndŵr, Heol y Bont | Cwblhawyd gwaith adfer ac atgyweirio i ffabrig allanol yr adeilad a chwblhawyd gwaith trosi'r llawr gwaelod.<br>Oherwydd cyflwr gwael ffabrig yr adeilad, hwn oedd y cyfle olaf i warchod yr adeilad amlwg hwn yng nghanol y dref. Mae'r adeilad bellach wedi'i adfer ac mae cyflwr y treflun wedi'i gwella. Hwn oedd adeilad mwyaf heriol y cynllun am resymau a ddisgrifiwyd uchod. |
| Prosiect Blaenoriaeth Uchel:<br>Y Sosban, Llys Owain | Cwblhawyd gwaith adfer yr adeilad a gwaith sffêr cyhoeddus o'i amgylch. Ystyrir y gwaith hwn yn llwyddiant da iawn o fewn y gymuned leol. Enillodd y contractwyr, Greenough Roofing wobr yn y Pitched |

| | |
|---|---|
| | Roofing Awards 2020' yng nghategori 'Defnydd Gorau o Deil Adeiladu ar Do Treftadaeth;. Cawsant eu gosod yn un o bedwar cwmni ar restr fer gwobrau'r National Federation of Roofing Contractors (NFRC) yn 2021 yn y categori Toi Traddodiadol. |
| Madryn, Stryd Fawr | Roedd y gwaith i'r adeilad gwag hwn yn cynnwys dod ag uned fasnach a *maisonette* ar y lloriau uchaf yn ôl i ddefnydd. Roedd y gwaith yn cynnwys gwaith blaen siop, pwyntio gyda chalch, gosod ffenestri *sash* pren a gwaith ail-balmentu ar gefn yr adeilad. |
| Liverpool House, Porth Marchnad | Cwblhawyd gwaith adfer a gwaith strwythurol i gefn adeilad Liverpool House. Roedd y tu blaen wedi'i atgyweirio dan y Cynllun Menter Treflun Treftadaeth flaenorol. |
| Beechwood House, Heol y Bont | Mae atgyweirio'r adeilad blaenllaw hwn a fu'n wag am gyfnod hir, wedi cynnwys trosi'r lloriau uchaf yn fflatiau ac adfer y llawr gwaelod yn uned fasnachol. Bu cydweithio gydag Ecolegydd APCE ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i greu cyfleoedd nythu o fewn cwrtil yr adeilad. |
| Victoria Buildings, Porth Marchnad | Mae'r prosiect hwn wedi bod yn drawsnewidiol yn yr ardal hon o'r dref. Roedd y gwaith yn cynnwys cydweithio gydag Ecolegydd APCE ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i greu nifer o gyfleoedd nythu i wenoliaid ym mondo'r adeilad. |
| Y Ddarllenfa Rydd, Wtra'r Felin | Cwblhawyd gwedd gyntaf y prosiect hwn fel rhan o'r cynllun Menter Treflun Treftadaeth Dolgellau. Fel rhan o'r ail wedd, cwblhawyd gwaith i wneud lloriau uchaf yr adeilad yn hygyrch i'r cyhoedd drwy osod lifft newydd. Cafodd cyfleusterau eraill eu diweddaru, gan gynnwys diweddaru'r gegin a'r tai bach. |
| Bod Aran, Felin Isaf | Roedd gwaith yr adeilad yma yn cynnwys atgyweirio'r siop, *maisonette* ac adfer canopi to llechen ar y blaen siop oedd wedi'i hen golli. |
| 4 Eldon Row, Stryd Fawr | Roedd gwaith to 4 Eldon Row yn cynnwys ail-osod blaen siop draddodiadol ac atgyweirio ffenestri ac addurniadau. |

## 4. YMGYSYLLTU CYMUNEDOL

| | |
|---|---|
| Prosiect Hanes Llafar a Gweledol | Cynhyrchwyd pum ffilm o hanesion llafar gan Bartneriaeth Dolgellau. |
| Prosiect Model Rheilffordd Dolgellau | Cynhaliwyd 9 diwrnod agored a fynychwyd gan rai cannoedd o bobl. |

| | |
|---|---|
| Ap Dolgellau | Cwblhawyd yr ap gan Bartneriaeth Dolgellau, mewn partneriaeth â nifer o grwpiau. Mae'n cael ei ddiweddaru yn rheolaidd. |
| Taflenni Teithiau Tref | Gwaith ar y cyd gyda Choleg Meirion-Dwyfor a myfyrwyr Adran Gelf y Coleg. Cynhyrchwyd gwaith proffesiynol, safonol iawn gan fyfyrwyr a derbyniwyd ymateb arbennig o dda gan y cyhoedd. |
| Llyfrau Dolgellau 3 a 4 a hanes y diwydiant gwlân | Defnyddiwyd incwm llyfr 3 i ariannu llyfr 4 ac mae'r tri llyfr ar gael i'w prynu yn lleol. |
| Arddangosfeydd Gwibdaith Dolgellau | Cynhaliwyd pedwar digwyddiad arddangosfa ac un diwrnod sganion, pan wahoddwyd y cyhoedd i ddod â lluniau a dogfennau hanesyddol i'w sganio. Sganiwyd dros 200 o luniau ar y diwrnod. |
| Prosiectau celfyddydol | Cynhaliwyd gweithdai gan yr artist tecstiliau, Josie Russell yn Ysgol Bro Idris ac fe'i chomisiyniwyd i greu gwaith celf wedi'i ysbrydoli gan adeiladau'r dref. Maent yn cael eu harddangos yn Y Ddarllenfa Rydd.<br>Bu'r artist Nicole Le Maire hefyd yn hwyluso gweithdai ffeltio gwlân gyda grwpiau cymunedol a chynhyrchwyd darn o gelf i'w arddangos yn Y Ddarllenfa Rydd. |
| Bwrdd Dehongli Dolgellau | Gwaith gyda Grŵp yr Aran a arweiniodd at osod panel dehongli ar safle'r Marian, yn olrhain stori diwydiant gwlân a phandai'r dref. |
| Adroddiadau a Hyfforddiant Archaeolegol | Cwblhawyd arolygon archaeolegol ac adroddiadau arnynt ar gyfer safleoedd Siop Newydd, Y Sosban, Ffatri Wenallt and Pandy Aberneint. Rhoddwyd hyfforddiant i aelodau Grŵp yr Arran ar sut i ddefnyddio offer arolygu, er mwyn eu cynorthwyo i gynnal arolygon yn y dyfodol. |
| Wythnos Wlân | Wythnos codi ymwybyddiaeth am ddiwydiant gwlân Meirionnydd, gan gynnwys:<br>- Gweithdai celf gan Nicole Le Maire<br>- Cyflwyniad gan Dr Charlotte Hammond (Prifysgol Caerdydd) am gysylltiadau'r ardal gyda'r diwydiant caethwasiaeth<br>- Taith dywys gan Grŵp yr Arran |
| Taflenni dehongli a gwybodaeth ddigidol am gyfleoedd nythu gwenoliaid duon | Cwblhawyd y gwaith dehongli yma gan gangen gwirfoddolwyr Meirionnydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. |
| Hyfforddiant Calch Poeth | Cynhaliwyd hyfforddiant calch poeth ar gyfer contractwyr, arbenigwyr a phenseiri o ledled y Deyrnas Gyfunol. Cafwyd ymateb syfrdanol, gyda thros 100 o bobl yn mynychu. |

## 5. STRWYTHUR ARIANNU

| Ffynhonnell | Cyfraniad Gwreiddiol | Cyfraniad Ychwanegol | Cyfanswm Cyfraniad |
|---|---|---|---|
| **Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol** | £ 995,000.00 | £ 75,200.00 | **£1,070,200.00** |
| **APCE** | £ 417,018.00 | £145,000.00 | **£ 562,018.00** |
| **Cadw** | £ 60,000.00 | £ 20,000.00 | **£ 80,000.00** |
| **Cyngor Gwynedd** | £ 26,700.00 | £ 33,300.00 | **£ 60,000.00** |
| **Cyfraniadau preifat** | £ 564,912.00 | £126,910.33 | **£ 691,822.33** |
| **Llywodraeth Cymru** | - | £ 80,000.00 | **£ 80,000.00** |
| **Cyfanswm** | **£2,063,630.00** | **£480,410.33** | **£2,544,040.33** |

## 6. TUA'R DYFODOL

6.1. Mae'r Cynllun presennol wedi'i gwblhau yn llwyddiannus a chyfleoedd newydd i gyflawni gwaith pellach ar dreflun Dolgellau wedi'u hamlygu.

6.2. Er enghraifft, gyda chymorth grant Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy, cafodd cynlluniau rheoli eu creu a'u mabwysiadu ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Parc Cenedlaethol Eryri, gan gynnwys Dolgellau, gan adnabod nifer o gyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwella cyflwr y treflun, ôl-ffitio adeiladau traddodiadol a lliniaru effeithiau newid hinsawdd.

6.3. Yn seiliedig ar y cyfleoedd hyn a gwerthusiad y cynllun presennol, penderfynwyd cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiect newydd yn Nolgellau. Cymeradwywyd y Datganiad o Ddiddordeb ac mae'r Awdurdod wedi'i wahodd i gyflwyno cais.

6.4. Bydd y prosiect arfaethedig yn cwmpasu rhychwant ehangach o weithgaredd, gan gynnwys ffocws manylach ar ymgysylltu cymunedol, adfer natur a gwelliannau amgylcheddol. Bydd prosiectau cyfalaf ar adeiladau traddodiadol / rhestredig ardal gadwraeth Dolgellau yn angor i'r cyfan, ond bydd y prosiect yn cynnwys cyfuniad o brosiectau mawr a bach, e.e. newid drysau a ffenestri, gwaith ôl-ffitio sensitif, gwella arwyddion, ac ati.

6.5. Dros y misoedd nesaf, bydd swyddogion yn ymgysylltu gyda phartneriaid a'r gymuned leol er mwyn datblygu'r cais a'r strwythur ariannu.

**ARGYMHELLIAD:**

1. **I Aelodau dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**
2. **I Aelodau gefnogi'r bwriad i ddatblygu prosiect cadwraethol newydd yn ardal gadwraeth Dolgellau.**

**EITEM RHIF 6**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 19 Mawrth 2025 |
| **TEITL** | **CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH – ADRODDIAD BLYNYDDOL** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | Adrodd ar y ceisiadau am wybodaeth a ddaeth i law o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Daeth rhwymedigaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i rym yn llawn ar 1 Ionawr 2005. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ceisiadau am wybodaeth a gafodd yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a sut yr ymdriniwyd â hwy.

1.2 Daeth 42 o geisiadau i law yn ystod y flwyddyn 2024.

1.3 O'r 42 cais, ymdriniwyd â 16 o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ac ymdriniwyd ag 26 o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Am ddadansoddiad cyffredinol o'r modd yr ymdriniwyd â'r ceisiadau, cyfeiriwch at y tabl ar ddiwedd yr adroddiad.

1.4 O’r ceisiadau hyn, roedd 11 cais yn ymwneud ag amrywiol fathau o wybodaeth sy’n berthnasol i reolaeth datblygu a/neu bolisi cynllunio a materion cysylltiedig â hynny.

1.5 Roedd saith cais yn ymwneud â gwybodaeth am amrywiol gontractau'r Awdurdod ar gyfer offer a meddalwedd yn bennaf, chwe chais yn ymwneud â gwybodaeth niferus ac amrywiol am Blas Tan y Bwlch, a phum cais yn ymwneud â gwybodaeth am bolisïau Adnoddau Dynol, hyfforddiant a gwybodaeth Undebau Llafur.

1.6 Roedd y 13 cais arall yn ymwneud â gwahanol faterion eraill, fel:

- Perchnogaeth tir o fewn Eryri,
- Gohebu ag OS ynglŷn ag enwau Cymraeg ar fapiau,
- Data llifogydd,
- Ffeiliau Gorchymyn Cadw Coed,
- Cofrestr Asedau Hawliau Tramwy Cyhoeddus,
- Costau ‘ailenwi’ Yr Wyddfa ac Eryri,
- Cytundebau Mastiau'r Gwasanaethau Brys,
- Gohebu â'r Crwner,
- Tacsis cofrestredig yn Eryri, ag
- Data trafnidiaeth gyhoeddus a pharcio a theithio o fewn Eryri.

1.7 Yn ystod y flwyddyn ni chyflwynwyd unrhyw gwynion i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch gwrthod rhyddhau gwybodaeth.

1.8 Derbyniodd bob un cais ymateb o fewn y terfyn amser statudol o 20 diwrnod.

1.9

| **Ceisiadau yr ymdriniwyd â hwy o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** |
|---|
| 18 cais wedi'u caniatáu / datgeliad llawn. |
| Gwrthodwyd 4 cais yn llawn neu'n rhannol gan nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn bodoli neu nid oedd yr awdurdod yn dal y wybodaeth. |
| Cafodd 3 chais eu gwrthod neu eu gwrthod yn rhannol oherwydd bod y wybodaeth wedi'i dosbarthu fel gwybodaeth fasnachol sensitif ac felly wedi'i heithrio o dan Adran 43(2) o'r Ddeddf. |
| Gwrthodwyd 1 cais gan ei fod yn cael ei ddosbarthu fel gwybodaeth eithriedig o dan Adran 40(2) – data personol, ac Adran 41(1) – gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol. |

| **Ceisiadau yr ymdriniwyd â hwy o dan y Rheoliad Gwybodaeth Amgylcheddol 2004** |
|---|
| 5 cais wedi'u caniatáu / datgeliad llawn. |
| Cafodd 6 chais eu gwrthod neu wrthod yn rhannol gan nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn bodoli neu nad oedd yr awdurdod yn dal y wybodaeth. |
| Gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod yn cynnwys data personol trydydd parti a ddosbarthwyd yn eithriedig o dan Reoliad 13. |
| Gwrthodwyd 1 cais gan fod y wybodaeth wedi'i dosbarthu fel Braint Broffesiynol Gyfreithiol ac felly'n cael ei dosbarthu fel gwybodaeth eithriedig o dan Reoliad 12(5)(b) o'r RhGA. |
| Gwrthodwyd 1 cais gan fod y wybodaeth wedi'i dosbarthu fel data anghyflawn, a phe bai'n cael ei ryddhau, gallai hynny arwain at gamarwain y cyhoedd. Felly dosbarthwyd y wybodaeth fel un eithriedig o dan Reoliad 12(4)(d) o'r RhGA. |
| Gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan fod y wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i dosbarthu fel gwybodaeth eithriedig o dan Reoliad 12(5)(f) - gwybodaeth a fyddai'n datgelu pwy yw aelodau o'r cyhoedd sy'n adrodd am achosion posibl o dor-rheolaeth cynllunio. |
| Gwrthodwyd 1 cais gan ei fod yn gais am chwiliad cynllunio sydd eisoes yn wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, ac felly nid oes angen eu hystyried naill ai gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 na Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae'r wybodaeth ar gael drwy ddefnyddio Gwasanaeth Chwiliad Personol yr Awdurdod y mae ffi yn daladwy amdano. |

**2. GOBLYGIADAU ADNODDAU**

Dim goblygiadau uniongyrchol.

**3. ARGYMHELLIAD**

**Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad**

**EITEM RHIF 7**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 19 Mawrth 2025 |
| **TEITL** | **PROFFIL RISG YR AWDURDOD** |
| **ADRODDIAD GAN** | Dirprwy Prif Weithredwr (Dros Dro) |
| **PWRPAS** | Rhoi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Proffil Risg yr Awdurdod |

**CEFNDIR**

1.1 Mae gan yr Awdurdod Broffil Risg ac ynddo mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu yn dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel.

1.2 Caiff y risgiau eu pennu'n bennaf drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Tîm Rheoli. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli yn chwarterol ar y cyd gyda'r swyddogion perthnasol. Mae'r risgiau sydd wedi'u pennu yn y Gofrestr Risg yn cael eu neilltuo i'r swyddogion cyfrifol sy'n gyfrifol am weithredu mesurau lliniaru risg.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad mewn perthynas â'r Proffil Risg dywededig a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Awdurdod ar y 13eg o Dachwedd 2024.

1.4 Ar hyn o bryd, mae 20 risg wedi eu hadnabod ar y Proffil, gydag un o'r rhain yn newydd. O'r rhain mae 3 wedi cael eu nodi fel risgiau Uchel, mae 14 wedi cael eu nodi fel risgiau canolig ac 3 wedi cael eu nodi yn risg Isel.

1.5 Oherwydd y sefyllfa gymhleth a deinamig ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch, mae risg newydd ychwanegol wedi ei adnabod, sydd wedi ei ychwanegu at y Gofrestr Risg (Risg 20). Mae'r risg hon yn mynd i'r afael â'r effeithiau posibl ar enw da'r Awdurdod o ran ei benderfyniadau ar y mater hwn a'r risgiau ariannol hirdymor cyfatebol sy'n gysylltiedig â hynny.

1.6 Mae Risg 18, sef risg o Adolygiad Barnwrol ar gyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi'i gynyddu o risg Isel i risg Ganolig ar y Gofrestr Risg. Mae hyn oherwydd bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn cais llwyddiannus am Adolygiad Barnwrol yn ddiweddar gan drydydd parti ar ôl iddynt gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Bydd yr Awdurdod yn adolygu union natur yr her gyfreithiol unwaith y bydd y broses wedi cychwyn, ac yn ystyried yn ofalus a oes gan hyn unrhyw oblygiadau i'r Awdurdod.

1.7 Mae tri risg arall wedi eu lleihau ar y Gofrestr Risg:

i) Risg 4: Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o’r Ysgwrn. Wedi gostwng o Ganolig i Isel.

ii) Risg 5: Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri. Gostyngodd sgôr y risg ond mae'n parhau i fod yn risg Ganolig.

iii) Risg 17: Gwydnwch y Tîm Rheoli. Wedi'i leihau o risg canolig i isel. Oherwydd y penderfyniad diweddar i gynyddu nifer y swyddogion ar y Tîm Rheoli, ystyrir bod y risg hwn bellach wedi cael sylw llawn ac felly gellir ei dynnu oddi ar y Gofrestr Risg.

1.8 Dyma grynodeb o’r risgiau:

| **Rhif y Risg** | **Risg Uchel** | **Newid** |
|---|---|---|
| 1 | Diffyg arian cyllido digonol. | Dim |
| 2 | Plas Tan y Bwlch – pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol tymor hir. | Dim |
| 20 | Risg ariannol ac i enw da ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch | Newydd |

| **Rhif y Risg** | **Risg Canolig** | **Newid** |
|---|---|---|
| 5 | Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i’r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri. | Lleihau |
| 6 | Methu a chyflawni gofynion y ddeddf “Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol”. | Dim |
| 7 | Risgiau i’r prosiect CTL Partneriaeth Tirwedd ar gyfer y Carneddau trwy fethu a sicrhau cyllid “heb ei gadarnhau” (un ai cyfraniadau cyfalaf neu “heb fod yn arian”) yng nghyfnod oes y prosiect. | Dim |
| 8 | Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018. | Dim |
| 9 | Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE gan gynnwys diffyg cydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys sy'n arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / punt. | Dim |
| 10 | Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfoddhaol. | Dim |
| 11 | Yr Awdurdod yn rheoli prosiectau yn wael ac aneffeithiol. | Dim |
| 12 | Cadernid staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol. | Dim |

| Rhif y Risg | Risg Canolig | Newid |
|---|---|---|
| 13 | Yr Ysgwrn methu cynhyrchu incwm digonol. | Dim |
| 14 | Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Croeso). | Dim |
| 15 | Cynhyrchu Incwm (Cynllunio). | Dim |
| 16 | Risg o ymosodiad Seibr | Dim |
| 18 | Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Risg o adolygiad barnwrol. | Cynyddu |
| 19 | Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Capasiti annigonol i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y llwyth Gwaith | Dim |

| Rhif y Risg | Risg Isel | Newid |
|---|---|---|
| 3 | Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio). | Dim |
| 4 | Risg i enw da parthed Rheolaeth yr Awdurdod o’r Ysgwrn | Lleihau |
| 17 | Gwydnwch y Tîm Rheoli | Lleihau a Dileu |

**GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**
Dim yn codi o’r Adroddiad hwn.

**ARGYMHELLIAD**


1. **Trafod cynnwys yr adroddiad hwn ac adolygu'r newidiadau i rai o'r graddfeydd risg.**
2. **Cytuno i ddileu Risg 4 o'r Gofrestr Risg fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.**


**PAPURAU CEFNDIR**
Cofrestr Risg: Diweddariad Mawrth 2025.

# COFRESTR RISG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI — Mawrth 2025


| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canl yniad | | Effaith | Tebyg | Canly niad | | | |
| 1 | Diffyg arian cyllido craidd digonol. | Torri Gwasanaethau. | 5 | 5 | **25**<br><br>**Coch** | Cafodd y Gyllideb ar gyfer 2025/26 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 5ed o Chwefror 2025, ac fe'i sefydlwyd ar gynnydd o 5% yn Grant Llywodraeth Cymru, ac fel canlyniad cynnydd o 5% yn yr ardoll ar yr awdurdodau lleol hefyd. Er hyn, mae cynnydd yma yn dilyn sawl blwyddyn o ddim cynnydd, felly nid yw'r grant wedi dal i fyny â chwyddiant dros y cyfnod hwn.<br><br>Ar adeg pennu'r gyllideb, rhagwelir y bydd cyllideb 2025/26 yn cynnwys diffyg o £635,850 bydd rhaid ei ariannu o gronfeydd, a bydd angen i'r Awdurdod barhau i sicrhau fod camau pendant yn cael eu cymryd i gau'r bwlch yma neu bydd balansau cyffredinol yr Awdurdod wedi eu defnyddio i gyd. Felly, er gwaethaf y cynnydd yn Grant y Llywodraeth bydd rhaid parhau i ystyried arbedion a/neu gynyddu incwm ar gyfer y blynyddoedd i ddod. | 4 | 4 | **16**<br><br>**Coch** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Prif Swyddog Cyllid |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Risg Cynhenid | Gweddill Risg | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lyniad | | Effaith | Teby g. | Can-lyniad | | | |
| 2 | Plas Tan y Bwlch - pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol hirdymor. | Methiant i gadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.<br>Niwed sylweddol i enw da'r Awdurdod.<br>Effaith andwyol ar yr economi leol.<br>Colli bywoliaeth i staff a gyflogir ym Mhlas Tan y Bwlch.<br>Methiant i gynnal adeilad rhestredig Gradd II*. | 4 | 5 | **20**<br><br>**Coch** | Mae Plas yn parhau i weithredu busnes llawer llai ar adeg ysgrifennu hwn, ond mae wedi llwyddo i ddenu busnes dros dro, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol.<br><br>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 13eg o Dachwedd 2024 penderfynodd yr Awdurdod:<br>(i) dirymu'n ffurfiol y penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch Plas Tan y Bwlch dyddiedig 11eg o Fedi 2024.<br>(ii) gohirio penderfyniad ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch tan gyfarfod yr Awdurdod ar y 30ain o Ebrill 2025.<br>(iii) parhau i gyfathrebu a thrafod gyda'r partïon hynny sydd wedi dangos diddordeb hyd yn hyn gyda'r bwriad o gael gwell dealltwriaeth o'u diddordeb a'r gallu i brynu.<br>(iv) defnyddio'r amser hwn i gynnal asesiad o allu unrhyw brynwr posibl i ariannu atgyweiriadau a gwelliannau sy'n angenrheidiol i Blas Tan y Bwlch a pha gynlluniau sydd ganddynt ar gyfer yr eiddo. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys asesiad o allu unrhyw Gwmni Cymunedol i fwrw ymlaen â'u cynlluniau a'r amserlen debygol dan sylw.<br>(v) yn y cyfamser, tynnu Plas Tan y Bwlch oddi ar y farchnad yn ffurfiol.<br>(vi) ystyried a phenderfynu ar yr opsiwn a ffafrir er mwyn sicrhau mynediad cyhoeddus i'r coetir a Llyn Mair trwy benderfyniad ffurfiol gan yr Awdurdod cyn gynted â phosibl.<br>(vii) os na fydd y trafodaethau y cyfeirir atynt yn (iii) yn llwyddo a/neu os bydd pob darpar brynwr yn methu'r asesiad y cyfeirir ato yn (iv), bydd yr holl opsiynau gan gynnwys gosod Plas Tan y Bwlch yn ôl ar y farchnad agored yn cael eu hystyried.<br>(viii) cynnal sesiwn galw heibio pellach ar ddyddiad i'w drefnu ond cyn cyfarfod yr Awdurdod ar y 30ain o Ebrill 2025 er mwyn cyfathrebu penderfyniad yr Awdurdod a gwrando ar unrhyw bryderon sydd gan gymunedau lleol a thu hwnt sydd yn parhau heb eu datrys.<br><br>Mae trafodaethau wedi parhau gyda phartïon â diddordeb ers y 13eg o Dachwedd ac nid yw'r sefyllfa wedi newid gan mai dim ond un cynnig cadarn a dderbyniwyd hyd yma. Bydd adroddiad yn cael ei ystyried gan Weithgor yr Awdurdod ar y 5ed o Fawrth 2024 pan fydd y sefyllfa'n cael ei thrafod yn fanylach. | 4 | 5 | **20**<br><br>**Coch** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Cyf. Gwas. Corfforae-thol |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Risg Cynhenid | Gweddill Risg | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lyniad | | Effaith | Teby g. | Can-lyniad | | | |
| 3 | Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio). | Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. | 4 | 5 | **20**<br>**Coch** | Mae’r targed incwm ar gyfer y flwyddyn wedi ei wireddu yn unol â’r disgwyl a bellach yn cynhyrchu gwarged. Fel y nodwyd yn y diweddariad diwethaf, mae angen cynhyrchu gwarged sylweddol yn flynyddol i dalu am ddiogelwch system rhag archebu Pen y Pass, costau casglu sbwriel cynyddol uchel a chostau glanhau toiledau sydd wedi cynyddu yn sylweddol yn dilyn ail dendro'r gwasanaeth. Mae’r targed incwm yn cael ei gynyddu yng nghyllideb 2025/26 i wella darpariaeth gyllidol ar gyfer y costau ychwanegol yma. | 4 | 1 | **4**<br>**Gwyrdd** |  | A<br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Pennaeth Eiddo |
| 4 | Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o’r Ysgwrn. | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yng ngallu’r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau. | 5 | 2 | **10**<br>**Ambr** | Mae’r Ysgwrn wedi ennill enw da iawn fel amgueddfa achrededig a chanolfan ddiwylliannol gyda rhaglen o weithgareddau treftadaeth ddiwylliannol o ansawdd rhagorol. Mae’r statws achrededig yn dangos bod trefniant llywodraethu cadarn ac effeithiol mewn lle. Bydd swyddogion yn cyflwyno cais i adnewyddu’r statws yma erbyn Gorffennaf 2025.<br><br>Mae’r Yr Ysgwrn yn dangos patrwm llwyddiannus o ymgeisio am gyllid allanol i ariannu gweithgareddau a phrosiectau, ac mae swyddogion yn gweithio’n rhagweithiol ar geisiadau hyn, gan chwilio am gyfleoedd nawdd yn rheolaidd.<br><br>Bydd adnodd addysg ffilm Hedd Wyn (prosiect ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor) yn cael ei lansio erbyn Medi 2025. Derbyniwyd grant allanol i greu arddangosfa dros dro newydd ar gyfer 2026, yn seiliedig ar gadeiriau barddol Eugene Vanfleteren.<br><br>Credaf fod hanes, profiad a strwythur staff presennol yr Awdurdod yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i leihau effaith neu debygolrwydd y risg i enw da yn hyn o beth. | 4 | 1 | **4**<br>**Gwyrdd** |  | A<br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Prif Weithredwr |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 5 | Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri. | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid. | 4 | 2 | **8**<br>**Ambr** | Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa.<br><br>Mae is-grŵp i Gynllun yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafnidiaeth / parcio yn yr ardal. Yn ystod 2023 darparwyd gwasanaeth bws Sherpa gwell, a chyflwynwyd rheolaeth traffig priffyrdd (llinellau melyn dwbl) mewn lleoliadau penodol.<br><br>Cytunwyd ar Grŵp Trafnidiaeth Eryri ac mae'n cyfarfod yn aml. Mae cytundeb y Gwasanaeth Sherpa am y 5 mlynedd nesaf wedi ei gytuno. Gall Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol am drafnidiaeth ddarparu cyfleoedd pellach. Mae'r Grŵp Trafnidiaeth Eryri yn parhau i gyfarfod i ddatblygu'r materion trafnidiaeth hyn. | 3 | 2 | **6**<br>**Ambr** |  | A<br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Prif Weithredwr |
| 6 | Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. | Adroddiad archwilio beirniadol / cyhoeddusrwydd negyddol. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio ag Archwilio Cymru i weithredu gofynion y Ddeddf Llesiant.<br><br>Mae astudiaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 (incwm masnachol ac arallgyfeirio incwm) wedi'i chyhoeddi ac mae adroddiad atodol ar y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'i gynhyrchu. Mae'r Awdurdod yn aros am arweiniad gan LlC cyn gallu symud ymlaen gyda'r argymhellion.<br><br>Mae adroddiad drafft ar Hyrwyddo Mynediad mewn perthynas â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i dderbyn yn ddiweddar. Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r archwilwyr ar y 10fed o Fawrth 2025 i drafod ei gynnwys.<br><br>Cynhaliwyd archwiliad ar osod Amcanion Llesiant. Disgwylir yr adroddiad drafft.<br><br>Cwblhawyd cyfweliadau yn ddiweddar ar yr archwiliad perfformiad diweddaraf, sef Sicrwydd ac Asesu Risg, ac mae'r holl dystiolaeth ddogfennol y gofynnwyd amdano wedi'u gyflwyno. Disgwylir adroddiad drafft maes o law. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** |  | C<br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Cyf. Gwas. Corfforae-thol |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 7 | Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau trwy fethu a chyflawni'r prosiect. Gall hyn ddigwydd trwy fethu a chadw at y pwrpasau a gymeradwywyd ar gyfer y grant Cronfa Dreftadaeth Lotri Genedlaethol, oediad gyda phenodi staff i'r cynllun ac felly oediad gyda chychwyn y cynllun, oediad gyda thalu hawliadau grant, y bartneriaeth yn chwalu, methu â derbyn yr arian "heb ei sicrhau" a ddisgwylir trwy geisiadau grant pellach a chyfraniadau "mewn nwyddau" yn ystod oes y prosiect. | Bydd y canlyniadau'n amrywio'n helaeth yn dibynnu ar raddfa'r cyllid na ellir ei sicrhau. Gallai fod rhai elfennau o'r prosiect yn methu, hyd at risgiau sylweddol i'r prosiect cyfan, sy'n amlwg yn dod â chyhoeddusrwydd andwyol a niwed i enw da. | 3 | 4 | **12**<br><br>**Ambr** | **Amserlen:** Estyniad digost wedi ei gymeradwyo i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Estyniad yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026.<br><br>**Pwrpasau Cymeradwy:** Bydd y prosiect yn dirwyn i ben ym mis Mawrth 2026 ac mae'r gwariant wedi'i raglennu gyda phartneriaid. Cwblhau gwariant erbyn Rhagfyr 2025 a chynllunio prosiectau gwaddol ydi'r flaenoriaeth erbyn hyn. Mae'r gwaith yma yn cael ei gwblhau law yn llaw gyda phartneriaid ac mewn ymgynghoriad gyda'r Gronfa Dreftadaeth. Mae partneriaid wedi amlygu eu cefnogaeth i barhau gyda gwaith y Bartneriaeth wedi diwedd y cynllun presennol ac mae swyddogion yn ystyried dulliau ariannu ar gyfer y prosiectau gwaddol a pharhad y Bartneriaeth. | 3 | 2 | **6**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Pen. Gwas. Treft. Ddiwyllia-nnol |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 8 | Diffyg cydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR). | Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | <u>Hyfforddiant</u><br>Mae cyrsiau gorfodol newydd wedi'u hychwanegu at ELMS yn ystod y 6 mis diwethaf. Disgwylir i bawb eistedd y rhain mewn modd amserol neu bydd mynediad i'r rhwydwaith a / neu e-bost yn cael ei ddileu.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r staff bellach yn cwblhau cyrsiau untro a chyrsiau blynyddol yn gyson heb unrhyw drafferthion, ond mae'r nifer sy'n cael eu cwblhau gan yr Aelodau yn parhau i fod yn isel. Mae'r sefyllfa'n cael ei fonitro'n barhaus.<br><br><u>Diogelu Data</u><br>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cael mwy o fân ddigwyddiadau rhyddhau data nag yn y gorffennol. Felly, mae mwy o debygolrwydd ac effaith risg cyfatebol nag yn y gorffennol, sydd wedi golygu bod y sgôr risg wedi cynyddu. Fodd bynnag, mae'r risg yn parhau i fod ar ambr.<br><br>Mae angen i staff ac Aelodau newydd sicrhau bod y modiwlau hyfforddi yn cael eu cwblhau fel blaenoriaeth. Awgrymir bod y staff sydd wedi bod yn rhan o'r digwyddiadau bychain yn ailsefyll yr hyfforddiant neu'n cymryd rhan mewn hyfforddiant pellach er mwyn lleihau'r risg. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** |  | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Cyf. Gwas. Corfforae-thol |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lynia** | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lynia** | | | |
| 9 | Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt. | Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn. | 5 | 4 | **20**<br><br>**Coch** | Derbyniwyd a chymeradwywyd ail adroddiad canol tymor i'r CE (a hawliad grant cysylltiedig), gan arwain at dynnu i lawr y 3ydd taliad LIFE gan y CE ym mis Rhagfyr 2022. Mae cais am estyniad prosiect 2 flynedd wedi'i gymeradwyo'n swyddogol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan roi dyddiad gorffen prosiect newydd o 31ain o Orffennaf 2027. Ni fydd hyn yn effeithio ar gost gyffredinol y prosiect.<br><br>Mae adborth swyddogol gan y Comisiwn hyd yn hyn yn gadarnhaol, gyda dim ond mân bryderon a diwygiadau sydd angen sylw. Ymgymerwyd â'r Genhadaeth Fonitro ddiweddaraf ym mis Tachwedd 2024, gydag adroddiad cynnydd i'w gyflwyno ddiwedd mis Mawrth 2025.<br><br>Pob taliad cyd-ariannwr arall yn gyfredol, gan gynnwys y cyfraniad o £2m gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian sydd dros ben yn y prosiect hyd yn hyn oherwydd cyfradd gyfnewid ffafriol (o'i gymharu â'r hyn a ddefnyddiwyd yn y cais), yn golygu bod yn rhaid i'r prosiect wario mwy mewn £ i gyrraedd targed €. Mae hefyd yn golygu bod cyfraniadau partneriaid yn werth llai na'r disgwyl, sy'n gofyn am fwy o arian cyfatebol i hawlio'r €9.5m llawn. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Pennaeth CC&A |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfeiriad risg | Agosrwydd (A,C,P) | Perchennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Canlynia** | | **Effaith** | **Tebyg** | **Canlynia** | | | |
| 10 | Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfoddhaol. | Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymhlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifat, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | Mae'r cynllun wedi profi rhai problemau cadw staff, nad yw'n anghyffredin ar unrhyw brosiect sy'n cael ei ariannu gan grant ac sydd â chyfyngiad amser. Mae'r tebygolrwydd o golledion staff pellach yn cynyddu' dros y 2 flynedd nesaf wrth i gontractau ddod i ben, gan greu risg i'r prosiect ar adeg dyngedfennol wrth i'r prosiect ddod i ben (a'r holl adrodd ac archwilio cysylltiedig yn digwydd).<br><br>Y tarfu a achoswyd gan drosiant staff (colli momentwm, peidio â gweithredu hyd eithaf ei allu am gyfnodau sylweddol), ochr yn ochr ag effeithiau pandemig Covid-19, oedd y prif yrrwr y tu ôl i ofyn am estyniad o 2 flynedd.<br><br>Archwiliad interim wedi'i gwblhau yn hydref 2023 a 2024 gan Gyngor Gwynedd, gyda'r prosiect yn sgorio 6 ar y matrics risg (allan o 25 posib) Mân addasiadau / diwygiadau angen, ond dim byd arwyddocaol, gyda chynllun gweithredu mewn lle ar gyfer hyn.<br><br>Mae'n bosibl y bydd staff eraill o'r adran yn gallu camu i mewn ar sail tymor byr, ac mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda sefydliadau allanol ynghylch cymorth rheoli prosiect strategol posibl – er nad yw hyn wedi'i gadarnhau a'i ddatrys yn llawn eto. Mae'r mater hwn yn parhau i fod yn bryder. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | | C<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir |
| 11 | Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod. | Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod. Risg i enw da'r Awdurdod. Cyfleoedd ariannol yn cael eu colli. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | Mae swyddogion yn dilyn canllawiau safonol a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli prosiectau - gan gynnwys creu "Dogfen Ysgogi Prosiect" a chael cymeradwyaeth y tîm rheoli ar gyfer y ddogfen hon. Mae hyn yn creu sail ar gyfer rheoli ac ar gyfer cyfathrebu (mewnol ac allanol) ar brosiectau yn gyson ar draws yr Awdurdod.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i baratoi cefnogaeth fwy canolog i brosiectau i sicrhau bod cysondeb a chydymffurfiaeth yn cael eu rheoli. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ymagwedd aml-flwyddyn at brosiectau/rhaglenni. Ym mis Mawrth 2022, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau y protocolau ar ddatblygu a derbyn cynigion grant. | 2 | 4 | **8**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Prif Weithredwr |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 12 | Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i gyllidebau fflat ac effaith chwyddiant. | Effaith ar gadw staff a recriwtio a hefyd perfformiad yr Awdurdod. | 3 | 3 | **9** **Ambr** | Cymeradwywyd adolygiad cyflog yn 2022 a chymhwyswyd dau godiad cyflog pellach yn 2023 a 2024.<br><br>Mae'r Awdurdod yn darparu mynediad am ddim i Raglen Cymorth i Weithwyr a ariennir yn llawn, sy'n cynnig buddion sylweddol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, gan gynnwys:<br>• Mynediad at Feddygon Teulu, Cwnsela Dwyieithog, Ffisiotherapi, Profion llygaid ar-lein ac arferion ffitrwydd.<br><br>Yn ogystal, mae'r polisi gweithio hybrid yn gweithredu'n effeithlon, gan ddarparu hyblygrwydd i staff swyddfa. Mae adolygiad o'r treial Fflecsi Hynod Hyblyg wedi'i drefnu ar gyfer Ebrill 2025 i asesu ei ddichonoldeb hirdymor. Os caiff ei fabwysiadu'n barhaol, bydd yn gwella hyblygrwydd y gweithle ymhellach. Mae'r ddau bolisi yn cyfrannu at well cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar gyfer mwyafrif y staff. | 3 | 3 | **9** **Ambr** | | A<br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Pennaeth AD |
| 13 | Yr Ysgwrn yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb. | Yr Ysgwrn yn dibynnu ar fudd- dal uwch gan yr Awdurdod a/neu yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo yn dilyn blynyddoedd blaenorol llewyrchus. Yn y pendraw, bydd hyn yn golygu nad ydi'r Ysgwrn yn gynaliadwy. | 4 | 4 | **16** **Coch** | Mae cynnal Yr Ysgwrn o fewn y gyllideb yn her barhaus yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n amharu ar wariant ymwelwyr a chostau rhedeg cynyddol.<br><br>Mae costau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o gostau, megis gwres, ffôn a thrydan yn sefydlog ac yn angenrheidiol ar gyfer safonau achredu.<br><br>Mae'r Ysgwrn yn llwyddo yn rheolaidd i sicrhau cyllid ar gyfer costau gweithgaredd a dehongli. Mae grantiau wedi'u derbyn i fuddsoddi mewn marchnata ar gyfer 2025 ac i greu arddangosfa dros dro newydd ar gyfer 2026. | 3 | 3 | **9** **Ambr** | | A<br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Pen. Gwas. Treft. Ddiwyllia-nnol |
| 14 | Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth). | Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.<br><br>Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu â chyrraedd nodau cynhyrchu incwm oherwydd prinder staff sy'n arwain at gau. | 4 | 4 | **16** **Coch** | Bydd blwyddyn ariannol 2024/25 yn cael ei gwblhau o fewn y gyllideb.<br><br>Mae newidiadau staff wedi bod dros y gaeaf, gyda staff newydd yn cael eu penodi ar gyfer Canolfannau Beddgelert ac Aberdyfi, a byddent mewn lle erbyn Pasg 2025.<br><br>Mae incwm y tair Canolfan yn gryf ac mae'r Rheolwr Masnachol yn cadw llygad cyson ar gostau.<br>Fel arfer, mae amseru Pasg yn y flwyddyn yn cael effaith ar incwm ac eleni, mae'r Pasg yn hwyr sy'n golygu na fydd Pasg ym mlwyddyn ariannol 2024/25.<br>Serch hynny, mae'r sefyllfa ariannol yn galonogol. | 4 | 2 | **8** **Ambr** | | A<br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Pen. Gwas. Treft. Ddiwyllia-nnol |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lynia** | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lynia** | | | |
| 15 | Cynhyrchu Incwm (Cynllunio). | Y brif risg fyddai incwm annigonol ar gyfer rhedeg y gwasanaeth cynllunio yn effeithiol. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | Ar gyfer 2023-24 roedd cyllideb incwm ffioedd cynllunio (ffioedd cynllunio a chyngor cyn cais) yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb a osodwyd. Mae hyn yn codi tua 28% o gostau'r gwasanaeth Rheolaeth Datblygu.<br><br>Bu ymgynghoriad yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar adennill costau llawn ar ffioedd cynllunio – a fyddai'n cael ei groesawu gan y Gwasanaeth Cynllunio. Ymatebodd yr Awdurdod i gefnogi'r ddogfen ymgynghori hon ond nid oes unrhyw gynigion wedi'u cyflwyno eto gan Lywodraeth Cymru. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir |
| 16 | Risg o gael ymosodiad Seibr | Colli data a mynediad i'r rhwydwaith | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | Mae system fonitro rhwydwaith newydd yn cael ei gosod ym mis Hydref / Tachwedd 2024 a fydd yn helpu i adrodd am unrhyw weithgaredd dan amheuaeth. Yn ogystal, bydd y system WiFi yn HQ a'r Ysgwrn yn cael ei hadolygu a bydd gosodiadau mwy diogel yn cael eu cymhwyso.<br><br>Mae risgiau seiberddiogelwch yn cael eu monitro'n gyson gyda mesurau lliniaru risg cyfatebol yn cael eu gweithredu yn ôl yr angen gan y gwasanaeth TG.<br><br>Pennaeth TG wedi mynychu gweminarau oedd yn cael eu cynnal gan Yr Is-adran Cadernid a Diogelwch Gwladol, Llywodraeth Cymru. Amlinellodd y gweminarau camau pellach sydd angen eu datblygu i sicrhau ein bod yn fwy parod i fygythiad. Mi fydd yr adran yn datblygu rhaglen waith ar gyfer hyn maes o law. | 3 | 2 | **6**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Pennaeth TG |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfeiriad risg | Agosrwydd (A,C,P) | Perchennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 17 | Gwydnwch y Tîm Rheoli | Mae recriwtio Prif Weithredwr newydd wedi adnabod risgiau i wydnwch y Tîm Rheoli. Dim digon o adnoddau i alluogi'r Tîm Rheoli i weithredu'n effeithiol, yn enwedig yn y sefyllfa lle mae newid mewn personél a/neu absenoldeb tymor hir heb ei ragweld. | 4 | 4 | **16**<br><br>**Coch** | Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn bellach drwy gynyddu'r niferoedd yn y Tîm Rheoli, ac ystyrir y gellir dileu'r risg hwn yn awr. | 3 | 1 | **3**<br><br>**Gwyrdd** | ↓ | N<br><br>**DILEU** | Prif Weithredwr |
| 18 | Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o gartrefi gwyliau ac 2il gartrefi (a drefnwyd ar gyfer Mehefin 2025): Risg o adolygiad barnwrol. | Gallai Adolygiad Barnwrol wedi'i gadarnhau cael yr effeithiau canlynol:<br>A) Gall effeithio ar allu'r Awdurdod i ddilyn y polisi.<br>B) Gall oedi gweithrediad y polisi.<br>C) Gall fod goblygiadau cost, yn enwedig os yw'r hawlydd yn ceisio dyfarniad costau cyfreithiol os yw'n llwyddo yn yr her. | 4 | 2 | **8**<br><br>**Ambr** | O ran risg yr Adolygiad Barnwrol, cymerir y camau lliniaru canlynol:<br><br>1) Cymerir cyngor cyfreithiol drwy gydol y broses a chyn cyhoeddi unrhyw ddogfen; a<br>2) Mae cydweithio agos gyda Chyngor Gwynedd sydd yn cymryd camau tebyg.<br><br>Rydym wedi cael ein hysbysu yn ddiweddar bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn cais llwyddiannus gan 3ydd parti i ddilyn proses Adolygiad Barnwrol. Er nad yw'r broses lawn o fynd ar drywydd hyn yn y llysoedd wedi dechrau eto, byddwn yn asesu'n ofalus natur y cais i adolygu eu proses yn farnwrol i ganfod a oes gan hyn unrhyw oblygiadau i'r Awdurdod hwn. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | ↑ | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir |
| 19 | Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o gartrefi gwyliau ac 2il gartrefi (a drefnwyd ar gyfer Mehefin 2025): Capasiti annigonol i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y llwyth gwaith - sy'n effeithio ar Bolisi Cynllunio, Rheolaeth Datblygu ac yn arbennig llwythi gwaith Cydymffurfio. | Mae'r capasiti annigonol yn achosi'r problemau canlynol:<br>i) Gall targedau perfformiad cynllunio Llywodraeth Cymru gael eu methu; ac<br>ii) Gall materion iechyd a lles staff godi oherwydd llwythi gwaith gormodol. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | O ran y risg o fynd y tu hwnt i gapasiti, cymerir y camau canlynol:<br>1) Bydd yr Awdurdod yn ceisio cymorth ariannol gan Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru - gyda golwg ar sicrhau cefnogaeth swyddogion ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at unrhyw lwyddiant hyd yma; a<br>2) Bydd cydweithio gyda Chyngor Gwynedd ar y gwersi a ddysgwyd hefyd yn digwydd – mae swyddogion Gwynedd wedi bod yn barod iawn i roi cyngor hyd yma.<br><br>Bydd hyfforddiant a chyngor yn cael eu darparu i Swyddogion Cynllunio cyn gweithredu'r cynllun ym mis Mehefin 2025, a fydd yn cynnwys sicrhau bod Canllawiau Cynllunio Atodol cadarn i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | → | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan yr Awdurdod 13.11.24 | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lyniad | | Effaith | Tebyg | Can-lyniad | | | |
| 20 | Risg ariannol ac i enw da ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch | Gallai dyfodol Plas Tan y Bwlch (boed hynny ar gyfer gwerthu neu gadw) greu risg ariannol sylweddol uwch a niwed i enw da. | 5 | 4 | **20**<br>**Coch** | Mae'r sefyllfa gymhleth a deinamig hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan y Prif Weithredwr. Cymerir gofal mawr i sicrhau y caiff yr effeithiau ariannol eu lliniaru cyn belled ag y bo modd, er na ellir dileu'r risgiau hyn. Mae amryw o risgiau i enw da yn deillio o amrywiaeth o senarios hefyd, ac mae'r rhain yn cael eu hystyried yn ofalus yn fewnol gyda swyddogion. Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad yn amlinellu'r risgiau hyn a sut yr eir i'r afael â hwy i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Ebrill. | 5 | 3 | **15**<br>**Coch** | | C<br>**NEWYDD** | Prif Weithredwr |

| **Sgorio'r Risg** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tebygolrwydd** | **Isel Iawn = 1** | **Isel = 2** | **Canolig = 3** | **Uchel = 4** | **Uchel Iawn = 5** |
| **Effaith** | **Isel Iawn = 1** | **Isel = 2** | **Canolig = 3** | **Uchel = 4** | **Uchel Iawn = 5** |
| **Sgôr Cyfunol** | | | **Risg Cyffredinol** | | |
| **1 – 4** | | | **Isel** | | **Gwyrdd** |
| **6 – 14** | | | **Canolig** | | **Ambr** |
| **15 – 25** | | | **Uchel** | | **Coch** |

**EITEM RHIF 8**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 19 Mawrth 2025 |
| **TEITL** | **DIWEDDARIAD AR Y GYLLIDEB 2024/25** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Cyllid |
| **PWRPAS** | I hysbysu'r Aelodau:<br>- am drosglwyddiadau sylweddol.<br>- am y gwariant hyd yma yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf a chyflwyno unrhyw flaen/ragamcanion ar gyfer y flwyddyn ariannol. |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o gyllideb 2024/25 gan gynnwys crynodeb o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig o ddechrae'r flwyddyn ariannol h.y., 1 Ebrill 2024 i 31 Ionawr 2025.

1.2 Mae Rhan 4 o'r adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb refeniw net yn ogystal â chymhariaeth gyda'r sefyllfa o'r un cyfnod yn 2023/24.

1.3 Mae cytundeb ar raddfeydd cyflog wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 1af, 2024 bellach wedi'i dderbyn ac mae'r newidiadau hyn wedi'u hychwanegu at y gyllideb.

1.4 Mae'r prosiectau grant Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (TCLlC) 2022/23 – 2024/25 yn parhau. Cyfanswm gwerth y prosiectau hyn yw £2.5 miliwn gyda'r gwariant arfaethedig wedi'i broffilio dros dair blynedd gydag £850,000 ar gyfer 2024/25.

1.5 Mae cynllun grant cyfalaf Lleoedd Lleol i Natur yn parhau yn 2024/25 gyda'r gwariant yn cael ei hawlio'n ôl oddi wrth Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Mae cynlluniau Treftadaeth y Loteri fel y Carneddau hefyd yn parhau, yn ogystal â phrosiect Coedwig Law Geltaidd LIFE sef y prosiect grant mwyaf sy'n rhedeg ar hyn o bryd.

1.6 Nid oes unrhyw grantiau ychwanegol wedi'u derbyn na'u disgwyl ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol hon.

## 2. CYLLIDEB REFENIW DIWYGIEDIG 2024/25

2.1 Cymeradwywyd y Gyllideb Net Wreiddiol gan yr Awdurdod ar 7 Chwefror 2024.

| Gwasanaethau | Cyllideb Sylfaenol | Trosgl. cynt £ | Trosglwyddiadau | Cyllideb Net Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|
| | £ | | £ | £ |
| | | | | |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 1,655,650 | 322,008 | - 0 | 1,977,658 |
| Corfforaethol | 5,325,509 | 211,659 | - | 5,537,168 |
| Balansau | 379,000 | - 208,853 | - | 170,147 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau** | **7,360,159** | **324,814** | **- 0** | **7,684,973** |
| | | | | |
| Llog a ennilwyd ar falansau | - 100,000 | - | - | - 100,000 |
| Refeniw yn ariannu gwariant Cyfalaf | 526,262 | 306,505 | 84,585 | 917,352 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | - 591,050 | - | - | - 591,050 |
| **Cyllideb net** | **7,195,371** | **631,319** | **84,585** | **7,911,275** |
| | - | - | - | - |
| **Arianwyd o** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Grant Parciau Cenedlaethol | 4,119,789 | - | - | 4,119,789 |
| Grant Parciau Cenedlaethol Ychwanegol | - | - | - | - |
| Ardoll Awdurdodau Cyfansoddol | 1,373,262 | - | - | 1,373,262 |
| | **5,493,051** | **-** | **-** | **5,493,051** |
| Trosglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn | 1,061,757 | 1,271,882 | 84,585 | 2,418,224 |
| **Cyllideb Net ddiwygiedig** | **6,554,808** | **-** | **-** | **7,911,275** |

2.2 Mae dadansoddiad manwl yn dangos y gyllideb net ddiwygiedig fesul gwasanaeth ar 31ain Ionawr 2025 i'w weld yn Atodiad 1. Mae'r atodiad hwn hefyd yn manylu ar drosglwyddiadau i/o'r cronfeydd wrth gefn a wnaed yn ystod y flwyddyn.

2.3 Mae'r gyllideb wedi'i haddasu o £7,195,371 (fel y'i cymeradwywyd ym mis Chwefror 2024) i £7,911,275. Mae'r trosglwyddiadau ychwanegol i'w nodi ers yr adroddiad diwethaf fel a ganlyn

- £68,000 – gwaith atgyweirio ychwanegol yn Hafod Eryri. Mae'r swm wedi ei glustnodi eisioes yn y gronfa rheoli asedau ar gyfer gwaith penodol yn Hafod Eryri, heb ddim effaith ar waelodin yr Awdurdod.

- £16,500 – Amnewid sgrin yn Nant Peris oedd wedi ei ddifrodi. Cafodd y swm yma ei gyllido o arian yswiriant. Doedd dim effaith ar waelodlin yr Awdurdod o ganlyniad y gwariant ychwanegol hwn.

2.4 Mae'r diffyg disgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn amcan oddeutu £500,000. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, bydd y swm hwn yn cael ei ariannu o'r gronfa wrth gefn.

## 3. CYLLIDEB GYFALAF DDIWYGIEDIG

3.1 Mae crynodeb o’r gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf ar gyfer 2024/25 i’w weld yn y tabl canlynol, gyda manylion ychwanegol yn atodiad 2.

**Capital Budget 2024/25**

| Service Areas | | Grant Incwm | Net Original Budget | Virements | Virement s (new) | Revised Net Budget |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) |
| Planning and Land Management | 369,320 | - | 369,320 | - | - | 369,320 |
| Corporate | 156,940 | - | 156,940 | 306,507 | 84,585 | 548,032 |
| **Total** | **526,260** | **-** | **526,260** | **306,507** | **84,585** | **917,352** |

3.2 Mae'r addasiad o £84,585 wedi ei amlinnellu uchod yn pwynt 2.3

## 4. Y SEFYLLFA A RAGWELIR AR GYFER 2024/25

4.1 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cynnydd yn erbyn y gyllideb hyd at 31 Ionawr 2025, a chymhariaeth gyda'r un cyfnod yn 2023/24.

| Gwasanaethau | Cyllideb Net Ddiwygiedig | Gwariant Net hyd yma | Cymhariaeth 2023/24 | Gwahaniaet h |
|---|---|---|---|---|
| | (£) | (£) | (£) | (£) |
| | | | | |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 1,977,658 | 2,403,744 | 2,254,509 | 149,235 |
| Corfforaethol | 5,537,168 | 4,634,534 | 4,074,855 | 559,679 |
| Balansau, cronfeydd wrth gefn a darpariaethau | 170,147 | - | - | - |
| **Cyfanswm Gwariant i wasanaethau** | **7,684,973** | **7,038,278** | **6,329,364** | **708,914** |
| | | | | - |
| Llog â enillwyd ar gronfeydd dros ben | - 100,000 | - 300,083 | - 129,762 | - 170,321 |
| Cyfraniad Refeniw ar wariant Cyfalaf | 917,352 | 1,044,212 | 703,218 | 340,994 |
| Addasiadau Taliadau Cyfalaf | - 591,050 | - | - 344,960 | 344,960 |
| **Cyllideb Refeniw Net** | **7,911,275** | **7,782,408** | **6,557,860** | **1,224,548** |
| | | | | |
| **Arianwyd o:** | | | | |
| Grant Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | | |
| Lefi Awdurdod Cyfansoddol | 1,373,262 | | | |
| Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn | 1,061,757 | | | |
| **Cyllideb Net Wreiddiol** | **6,554,808** | | | |
| | | | | |
| Grant Ychwanegol Llywodraeth Cymru | - | | | |
| Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn | 1,356,467 | | | |
| **Cyllideb Net Ddiwygiedig** | **7,911,275** | | | |

4.2 I grynhoi, mae gwasanaethau ar darged i gadw o fewn eu cyllideb am y flwyddyn. Yn ôl y disgwyl, mae gwariant wedi cynyddu ar elfennau yr effeithir arnynt gan chwyddiant, yn benodol ar ynni. Mae'r gyllideb wedi'i haddasu i fynd i'r afael â hi a hyd yn hyn, mae'r gyllideb ar gyfer 2024/25 yn ymddangos yn ddigonol.

Mae cyfraddau llog banc yn parhau'n uchel oherwydd gostyngiad arafach mewn chwyddiant na'r disgwyl, sydd wedi arwain at incwm sylweddol o log banc i'r Awdurdod, gyda £300k wedi'i dderbyn i ddiwedd Ionawr yn erbyn targed cyllideb o £100k.

Bydd trafodaethau pellach rhwng y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn gweithredu ar unrhyw addasiadau pellach i'r gyllideb neu gwrdd ag unrhyw wariant annisgwyl.

Mae esboniad manwl o rai o'r addasiadau i'r gyllideb wreiddiol a'r amrywiadau blaen/rhagamcanol presennol fel a ganlyn.

4.3 **Corfforaethol** :

Plas Tan y Bwlch – Mae'r gyllideb ar gyfer Plas Tan y Bwlch wedi ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2024/25 oherwydd y posibilrwydd o waredu, ac felly nid yw'r gwariant presennol o fewn y gwasanaeth yn effeithio ar y gyllideb waelodlin. Mae disgwyl bydd y swm sydd wedi ei neilltuo yn y gronfa yn ddigonol.

Meysydd Parcio - Mae incwm o ffioedd meysydd parcio yn parhau i fod yn uchel gyda £1.2m wedi'i dderbyn hyd at ddiwedd Ionawr yn erbyn targed y gyllideb o £820k am y flwyddyn. Mae maes parcio Llyn Tegid unwaith eto wedi bod yn arbennig o brysur gyda'r incwm yn uwch na'r targed o £123k yn barod. Mae'n debygol y bydd angen unrhyw incwm dros ben posibl o ffioedd meysydd parcio i fynd i'r afael â'r her ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod ar hyn o bryd.

Canolfannau Croeso – Mae'r canolfannau'n perfformio'n dda eleni gydag incwm yn barod yn uwch na'r targed o £87k. Mae hyn wedi arwain at orwariant ar nwyddau i'w hail werthu sy'n dod o dan yr incwm ychwanegol, a disgwyliwn i'r canolfannau orffen y flwyddyn ymhell o fewn y targed a osodwyd.

Cyfieithu – Rhagwelir tanwariant o £13,000 eleni, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio yn 2025/26 gan fod disgwyl i'r llwyth gwaith cyfieithu gynyddu oherwydd adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2025.

Adnoddau Dynol – Rhagwelir gorwariant o tua £33k erbyn diwedd Mawrth. Y rhesymau pennaf am hyn yw recriwtio'r swyddog iechyd a diogelwch a'r costau'r prosiectau ynghlwm a hyn, yn ogystal a costau penodi y prif weithredwr.

Wardeiniaid - bu peth ail strwythuro o fewn y gwasanaeth Wardeiniaid gan arwain at arbediad yn erbyn y gyllideb o £70k. Bydd £35k yn mynd tuag at

gostau contractwyr sy'n debygol o gynyddu oherwydd ail strwythuro, a'r gweddill yn creu arbediad yn erbyn y gwaelodlin. Bydd yr arbediad yma yn cael ei ddefnyddio i gyllido costau ymadael staff o fewn y flwyddyn.

4.4 **Cynllunio a Rheoli Tir** : Yn gyffredinol, mae'r gwariant net cyfredol yn parhau o fewn y gyllideb. Mae yna amrywiadau o fewn y gwasanaethau fel y manylir isod.

Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth – Fel ag adroddwyd eisioes ac oherwydd anawsterau parhaus recriwtio ar gyfer rhai swyddi arbenigol o fewn y gwasanaeth, ynghŷd ac absenoldebau staff, mae gwariant uwch na'r disgwyl ar ffioedd ymgynghoriaeth allanol sydd yn llenwi'r bwlch ar hyn o bryd. Disgwylir i'r gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn fod tua £100k ond mae posibilrwydd y bydd y ffioedd cynllunio yn codi yn 25-26.

Polisi a Chynllunio – Disgwylir tanwariant o tua £43k ebyn diwedd Mawrth ar y cyflogau oherwydd fod swydd wedi bod yn wâg am gyfnod yn ogystal a mamolaeth. Bydd yr arian yma yn cael ei ddefnyddio yn 25-26 i gyllido cwrs grâdd meistri a'r arolygon swmpus fydd yn ofynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

Cadwraeth, Coed, ac Amaethyddiaeth - Mae nifer o brosiectau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn yn derbyn cyllid grant gan gynnwys Mind the Gap, Prosiectau Ymylon Eryri a Mawndiroedd. Mae'n debygol y bydd y gwariant yn cael ei hawlio'n ôl trwy grantiau o fewn y flwyddyn. Wrth osod y gyllideb wreiddiol nid oedd sicrwydd o'r grantiau hyn a gosodwyd y gyllideb ar gyfer cyflogau rhai o'r cynlluniau hyn yn erbyn y gwaelodlin fel mesur rhagofalus. Nid yw'r blaen/rhagamcanion presennol yn awgrymu sefyllfa lle na fydd y grantiau ar gael ac oni bai bod y senario hwn yn newid yn ystod y flwyddyn disgwylir tanwariant ar gyflogau o fewn y gwasanaeth hwn. Disgwylir tanwariant o tua £72k ar y cyflogau yn rhannol oherwydd fod aelod o staff ar secondiad. Bydd y swm yma yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect Ffermio Bro a fydd yn cychwyn ar yr 1af o Ebrill 2025.

Partneriaethau – Disgwylir y bydd tanwariant o tua £100k ar linell y Gronfa Gomisiynu yng nghyllideb y Partneriaethau. Bydd rhan o'r arian hwn yn mynd tuag at swydd y swyddog pobol ifanc a'r dyletswyddau perthnasol i hynny yn ogystal a gwaith Awyr Dywyll.

4.5 **Balansau, Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau** - Mae'r balans gwaelodlin gwreiddiol o £30,000 ar gyfer chwyddiant bellach wedi'i ddyrannu i linellau cyllideb yr effeithir arnynt yn arbennig gan bwysau chwyddiant, a chyfanswm o £178,853 o'r ddarpariaeth codiad cyflog o £349,000. Bydd y gweddill yn mynd tuag at bontio'r diffyg yn y gyllideb.

4.6 **Llog -** Cynyddwyd y targed ar gyfer incwm llog o £28,000 i £100,000 ar gyfer cyllideb 2024/25 oherwydd bod cyfraddau llog yn parhau'n uchel a chwyddiant yn gostwng ar gyfradd arafach na'r disgwyl. Yn y deg mis i ddiwedd Ionawr, mae cyfanswm o £300k o incwm llog eisoes wedi'i dderbyn.

4.7 **Cyfalaf** : Mae'r prif wariant net hyd at ddiwedd mis Medi ar -

| | |
|---|---|
| Cerbydau Wardeniaid | £67,631 |
| Prosiect Cronfa Treftadaeth Treflun Dolgellau | £139,645 |
| Llwybr Troed y Carneddau (Grant Llywodraeth Cymru) | £21,700 |
| Ffiniau Traddodiadol (Cydweithredol TCLIC). | £54,010 |
| Cerbydau Amaeth | £30,500 |
| Betws y Coed (Grant Llywodraeth Cymru) | £31,659 |
| Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | £47,848 |
| Atgyweiriadau Cyfalaf Hafod Eryri | £287,632 |

## 5. TROSGLWYDDIADAU RHWNG Y CYLLIDEBAU GWERTH DROS £30,000 I SYLW'R AWDURDOD .

5.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth rhwng £30,000 a £100,000 rhwng cyllidebau, lle nad ydynt wedi'u cymeradwyo'n flaenorol gan yr Awdurdod. Yn ogystal, mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer unrhyw drosglwyddiad gwerth £100,000 neu fwy.

5.2 Nid oes unrhyw drosglwyddiadau o'r fath wedi'u cymeradwyo yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon.

## 6 . ARGYMHELLIAD

- **Cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer 2024/25**

## 7. PAPURAU CEFNDIR

**DIM**

**Atodiad 1**

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
## Cyllideb Ddiwygiedig 2024/25 ar 31 o Ionawr 2025

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau | Trosgl. Newydd | Cyllideb Net Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **CYNLLUNIO A RHEOLI TIR** | | | | |
| Coedwigwyr (T.C.Ll.C.) | | | | |
| Cadwraeth, Coed ac Amaeth | 533,200 | 19,450 | - | 552,650 |
| Ymylon Eryri | | 20,622 | - | 20,622 |
| Awyr Dywyll | 58,180 | 1,698 | - | 59,878 |
| Mawndir Cymru (grant Ll. Cymru) | | - | | - |
| Grid Cenedl. - Maentwrog (Dwyrain) | | - | | - |
| LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd | 74,800 | 9,521 | - | 84,321 |
| Partneriaeth Tirwedd y Carneddau | 25,000 | 13,207 | - | 38,207 |
| Archeoleg | 67,540 | 25,250 | - | 92,790 |
| Treftadaeth Diwylliannol | 80,780 | 1,698 | - | 82,478 |
| Prosiect Mawndiroedd | | 136,206 | - | 136,206 |
| Ysgwrn | 118,820 | 10,117 | - | 128,937 |
| Rheolaeth Datblygu | 452,960 | 52,851 | - | 505,811 |
| Polisi a Chynllunio | 244,370 | 31,388 | - | 275,758 |
| **Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen** | **1,655,650** | **322,008** | **-** | **1,977,658** |
| | | | | |
| **CORFFORAETHOL** | | | | |
| Costau Aelodau | 112,510 | - | - | 112,510 |
| Cefnogaeth yr Awdurdod | 94,380 | 2,221 | - | 96,601 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 664,176 | 185,462 | - 170,147 | 679,491 |
| Eiddo | 247,490 | 4,468 | - | 251,958 |
| Cyfreithiol | 58,380 | 1,376 | - | 59,756 |
| Gweinyddol a Gofal Cwsmer | 223,423 | - 22,569 | - | 200,854 |
| Cyfieithu | 108,530 | 1,698 | - | 110,228 |
| Personel a Hyfforddiant | 208,160 | 38,939 | - | 247,099 |
| Pencadlys | 261,750 | 918 | - | 262,668 |
| Systemau Gwybodaeth | 368,010 | 14,488 | - | 382,498 |
| Cyllid | 230,630 | 7,809 | - | 238,439 |
| Plas Tan y Bwlch | 486,490 | 14,411 | - | 500,901 |
| Ymgysylltu | 368,110 | 20,948 | - | 389,058 |
| Safle Gwe Newydd | - | - | | - |
| **Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen** | **3,432,039** | **270,169** | **- 170,147** | **3,532,061** |

**Atodiad 1 parh.**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Cyllideb Ddiwygiedig 2024/25 ar 31 o Ionawr 2025**

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau | Trosgl . newydd £ | Cyllideb Net Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen** | | | | |
| **CYNLLUNIO A RHEOLI TIR** | **1,655,650** | **322,008** | **-** | **1,977,658** |
| | | | | |
| **CORFFORAETHOL** | **3,432,039** | **270,169** | **- 170,147** | **3,532,061** |
| Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (Grant Ll.C.) | 39,310 | - | - | 39,310 |
| Llwybrau Llesiant (Grant Ll.C.) | 40,000 | - | - | 40,000 |
| Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau | 468,810 | 12,255 | - | 481,065 |
| Wyddfa Di-Blastig | 43,420 | 26,594 | - | 70,014 |
| Canolfannau Gwybodaeth | 186,580 | 11,657 | - | 198,237 |
| Llyn Tegid | - 20,180 | - | - | - 20,180 |
| Meysydd Parcio | - 483,210 | 17,267 | - | - 465,943 |
| Clirio Ysbwriel | 19,510 | - | - | 19,510 |
| Traffig a Chludiant | 5,000 | - | - | 5,000 |
| Cyfleusterau Ymwelwyr | 263,450 | - | - | 263,450 |
| Mynediad Cyhoeddus | 123,550 | - 680 | - | 122,870 |
| Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwyr | 1,207,230 | 44,544 | - | 1,251,774 |
| | **5,325,509** | **381,806** | **- 170,147** | **5,537,168** |
| | | | | |
| **BALANSAU** | | | | |
| Darpariaeth chwyddiant cyffredinnol | 30,000 | - 30,000 | - | - |
| Darpariaeth chwyddiant cyflogau | 349,000 | - 178,853 | - | 170,147 |
| | **379,000** | **- 208,853** | **-** | **170,147** |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | **7,360,159** | **494,961** | **- 170,147** | **7,684,973** |
| | | | | |
| Llog a Enillwyd | - 100,000 | - | - | - 100,000 |
| Refeniw yn Ariannnu Gwariant Cyfalaf | 526,262 | 306,505 | 84,585 | 917,352 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | - 591,050 | | - | - 591,050 |
| | **7,195,371** | **801,466** | **- 85,562** | **7,911,275** |
| **ARIANWYD O** | | | | |
| Grant Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | | 4,119,789 |
| Lefi Awdurdodau Cyfansoddol | 1,373,262 | | | 1,373,262 |
| Grant Parc Cenedlaethol Ychwanegol | | | | - |
| Tros. o'r cronfeydd wrth gefn | 1,061,757 | 1,271,882 | 84,585 | 2,418,224 |
| **Cyllideb Net** | **6,554,808** | | | **7,911,275** |

**Atodiad 2**

## Cyllideb Cyfalaf 2024/25

| Meysydd Gwasanaeth | Cyllideb Gros Wreiddiol | Incwm Grant | Cyllideb Net Wreiddiol | Trosgl. | Trosgl. Newydd | Cyllideb Net Ddiwyg. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) |
| **Cynllunio a Rheoli Tir** | | | | | | |
| Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol | 149,490 | - | 149,490 | - | - | 149,490 |
| Gorseddau | 148,220 | | 148,220 | - | | 148,220 |
| Carneddau - Data LiDAR (Grant Ll. C.) | 3,000 | - | 3,000 | - | - | 3,000 |
| Carneddau - Llwybrau (Grant Ll. C.) | 35,000 | - | 35,000 | - | - | 35,000 |
| Mobile Observatory | 23,600 | | 23,600 | - | | 23,600 |
| Sky Paths | 10,010 | | 10,010 | - | | 10,010 |
| **Is-gyfanswm** | **369,320** | **-** | **369,320** | **-** | **-** | **369,320** |
| | | | | | | |
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| Systemau gwybodaeth - Rhaglen Amnewid. | 22,340 | - | 22,340 | - | - | 22,340 |
| Cynllun Partneriaeth y Wyddfa (Grant Ll. C.) | 15,000 | - | 15,000 | - | - | 15,000 |
| Cynllun Dehongli'r Wyddfa (Grant Ll. C.) | 23,000 | - | 23,000 | - | - | 23,000 |
| Prosiectau Mynediad | 10,000 | - | 10,000 | 10,660 | | 20,660 |
| Wardeniaid - Cerbydau | 14,000 | - | 14,000 | 90,847 | | 104,847 |
| Llyn Llywelyn / Drws y Coed, Rh | 23,750 | - | 23,750 | - | | 23,750 |
| Lon Gwyrfai | 23,850 | - | 23,850 | - | | 23,850 |
| Penmaen Brith (Grant Ll. C.) | 25,000 | - | 25,000 | - 25,000 | | - |
| Wyddfa Di-blastig | - | - | - | 10,000 | - | 10,000 |
| Nant Peris | | | | | 16,585 | 16,585 |
| Hafod Eryri | - | - | - | 220,000 | 68,000 | 288,000 |
| **Is-gyfanswm** | **156,940** | **-** | **156,940** | **306,507** | **84,585** | **548,032** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **526,260** | **-** | **526,260** | **306,507** | **84,585** | **917,352** |

**EITEM RHIF 9**

| | |
|---|---|
| **MEETING** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 19 Mawrth 2025 |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Lles 2024** |
| **ADRODDIAD GAN** | Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r adroddiad i ddiweddaru'r Awdurdod ar gynnydd y Strategaeth Gwirfoddoli 2021-2026 |

## 1. CEFNDIR

Ym mis Ionawr 2020 cymeradwyodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol y Strategaeth Datblygu Gwirfoddolwyr 21-2026 a mabwysiadu'r Strategaeth gwirfoddoli newydd ar gyfer y Parc Cenedlaethol gyda ffocws newydd ar lesiant. Mae hyn yn cyd-fynd gyda dyhead Llywodraeth Cymru i bobl fanteisio a chael budd o agweddau iechyd a lles cadarnhaol y gall Parciau Cenedlaethol eu darparu.

Felly, mae swyddogion wedi cynhyrchu adroddiad blynyddol i ddiweddaru'r Awdurdod ar y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran yr amcanion a amlinellir yn y strategaeth. (Atodiad 1)

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â chanlyniadau A5 a B1 o Gynllun Eryri, gan adrodd yn ôl i'r Pennaeth Partneriaethau drwy'r cynllun gweithredu bob chwarter, sydd yn berthnasol i bwrpasau a dyletswyddau statudol Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

## 2. ADRODDIAD CYNNYDD

Dechreuodd gwaith ar yr adroddiad atodol ym mis Ionawr 2025. Mae'r adroddiad blynyddol wedi ei rannu yn 5 rhan, gan roi trosolwg o'r datblygiadau mewn cyfleoedd gwirfoddoli a lles sydd yn cynnwys;

- Cynllun gwirfoddoli
- Digwyddiadau lles
- Llogi tramper
- Diweddariadau manwl ar ddangosyddion perfformiad allweddol
- Targedau 2025

## 3. CAMAU NESAF

Mae’r adroddiad bellach mewn cyfnod lle gofynnir am farn yr aelodau a chroesawir adborth ar yr adroddiad i’w trafod yn y pwyllgor. Bydd unrhyw argymhellion pellach gan y grŵp yn cael eu gweithredu yn yr adroddiad fel bo’r angen.

**ARGYMHELLION**
**I archwilio a thrafod yr adroddiad blynyddol.**

I’r aelodau:

1. Gymeradwyo cynnwys adroddiad blynyddol 2024 a chynghori ar unrhyw nodau neu amcanion o’r Strategaeth datblygu gwirfoddolwyr 2021-2026.

**Atodiad 1: Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Lles 2024**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL GWIRFODDOLI A LLES 2024




PARC CENEDLAETHOL ERYRI NATIONAL PARK

eryri.llyw.cymru

# Cynnwys:


## 1. GWIRFODDOLI

1.1 Ystadegau Allweddol
1.2 Wardeiniaid Gwirfoddol
1.3 Caru Eryri
1.4 Gwirfoddoli Corfforaethol
1.5 Cynllun Talu'n Ôl i'r Gymuned
1.6 Pobl Ifanc

## 2. LLES

2.1 Teithiau Cerdded Ymwybyddiaeth Ofalgar
2.2 Ysgol Goedwig
2.3 Ioga Awyr Agored

## 3. TRAMPYR

## 4. Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau)

## 5. Targedau 2025




# 1. GWIRFODDOLI

## Ystadegau allweddol 2024

**211**

**diwrnod yn gofalu am Eryri**

**7093**

**awr yn gwirfoddoli**

**177**

**Gwirfoddolwyr**

**Hyd y llwybrau troed a gafodd eu cynnal a'u cadw =**

**36km**

**Cyfanswm y bagiau sbwriel a gasglwyd =**

**1302.5**

**Cyfanswm pwysau'r sbwriel a gasglwyd =**

**2612kg**

*Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys cynllun Caru Eryri a'r cynllun Wardeiniaid Gwirfoddol ar gyfer Yr Wyddfa a De Eryri

# Canlyniadau ymarfer adborth staff ynghylch gwirfoddoli:

## WEDI HOFFI

- Adborth cadarnhaol gan wirfoddolwyr am fwynhau eu gwaith
- Niferoedd da o bobl yn cofrestru ar gyfer shifftiau
- Sesiynau gyda'r nos/ hanner diwrnod wedi gweihtio'n dda gyda posiblrwydd o gynnydd
- Arweinwyr gwirfoddol wedi gweithio sifftiau, gan gyfrannu at gynaliadwyedd y cynllun
- Roedd defnyddio bysiau'r Sherpa wedi ei dderbyn yn dda gan wirfoddolwyr
- Roedd tren Yr Wyddfa yn brofiad unigryw i'r gwirfoddolwyr ac yn creu argraff gadarnhaol.
- Wedi derbyn enwebiad ar gyfer Gwobr Dewi Sant ac wedi cymryd rhan mewn dathliad gwirfoddolwyr ym Mhortmeirion.
- Mae ymroddiad wardeniaid gwirfoddol yn sicrhau presenoldeb ar wahanol lwybrau yn ystod adegau prysur
- Mae Wardeniaid Gwirfoddol yn ymgysylltu ac yn addysgu ymwelwyr ym mhob tywydd ar barchu Eryri







## WEDI DYSGU

- Cynyddu sesiynau bysiau/trafnidiaeth gyhoeddus
- Cynnig mwy o sesiynau byr (hanner diwrnod/ gyda'r nos)
- Cyflwyno sesiynau mwy amrywiol
- Ystyried cynnal shifftiau canol wythnos y flwyddyn nesaf ar gyfer Wardeiniaid Gwirfoddol sydd â chyfrifoldebau ar y penwythnos.

## DIFFYGION

- Angen mwy o hyrwyddo trwy wahanol gyfryngau
- Cynnydd mewn llwyth gwaith oherwydd staff yn gadael tua diwedd y tymor
- Rota cyswllt mwy trylwyr ar y penwythnos
- Gwella presenoldeb gwirfoddolwyr yn Ne Eryri
- Cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol mewn safleoedd prysur
- Mynd i'r afael â chyfranogiad is rhai wardeiniaid gwirfoddol drwy drafod eu hargaeledd a'u heriau.
- Cynyddu rhestr stoc cit a monitro eu dosbarthiad yn well.





## DYHEUADAU

- Adeiladu ar lwyddiant arweinwyr gwirfoddol.
- Trefnu noson o ddiolch neu gyfarfod cymdeithasol i'r gwirfoddolwyr feithrin ymdeimlad o gymuned.
- Ychwanegu shiffitiau canol wythnos y flwyddyn nesaf.
- Cyflwyno shiffitiau codi sbwriel mewn ardaloedd newydd.
- Recriwtio Wardeiniaid Gwirfoddol penodol drwy dargedu pobl leol drwy gydweithio â chynghorau tref.
- Ymgysylltu ag ysgolion lleol i hyrwyddo gwrth-daflu sbwriel o oedran ifanc a gwella cynnwys addysgol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
- Ystyried llogi fideograffwyr proffesiynol i greu cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a YouTube.

PARC CENEDLAETHOL ERYRI NATIONAL PARK

# 1.2 Wardeiniaid Gwirfoddol

## Yr Wyddfa

| Gweithgaredd | Oriau |
|---|---|
| Codi waliau / Dry stone walling | 18 |
| Diwrod Croeso | 81 |
| Extended patrol Supervisor | 27 |
| Llwybr Cwellyn / Snowdon Ranger Path | 448 |
| Llwybr Llanberis Path | 1071 |
| Llwybr llanberis path - Extended patrol | 26 |
| Llwybr PyG a Mwynwyr / Miners & PyG Track - Extended Patrols | 72 |
| Llwybr PyG a Mwynwyr / Miners and PyG Track | 1428 |
| Llwybr Rhyd Ddu Path | 567 |
| Llwybr Watkin Path | 308 |
| Ras Yr Wyddfa Race - Half way Cafe Marshalls | 9 |
| Y Fan Ddehongli/Information Van | 294 |
| **Cyfanswm Oriau** | **4349** |



**Mae gwaith caled yn talu ar ei ganfed**

"Bob blwyddyn ar Yr Wyddfa, o fis Ebrill tan fis Tachwedd, mae tîm ymroddedig o wardeiniaid gwirfoddol sy'n gweithio'n ddiflino bob penwythnos yn y tymor prysur hwn. Maen nhw'n mynd allan o'u ffordd i roi gwybodaeth hanfodol i'r cyhoedd / cerddwyr am ddiogelwch mynydd, a hefyd yn codi sbwriel ar bob un o'r 6 prif lwybr i fyny'r Wyddfa. Mae eu gwaith yn rhan annatod o greu amgylchedd mwy diogel ar y mynydd. Mae'r cynllun wardeniaid gwirfoddol wedi bod yn rhedeg ers 2013, gan ddechrau fel llond llaw bach o bobl, i fod bellach yn dîm o dros 60 o unigolion arbenigol. Mae'n mynd i ddangos bod eu gwaith caled yn talu ar ei ganfed, gan mai tymor 2024 oedd eu mwyaf llwyddiannus hyd yma. Yn nhymor 2024, bu 45 o wardeniaid gwirfoddol unigol yn gweithio ar batrôl dros 103 o ddiwrnodau. Cerddodd y wardeiniaid gwirfoddol y mynydd 611 o weithiau i gyd sy'n gweithio tua 3600 o oriau, gydag amcangyfrif o 4000 o bobl yn cael eu cynghori yn ystod eu hamser ar y llwybrau. Defnyddiwyd y fan wybodaeth 36 o weithiau yn ystod y tymor, a chynghori tua 1000 o gerddwyr ychwanegol yn fras. Yn ystod tymor 2024 hefyd torrwyd record o ran faint o sbwriel a gasglwyd. Casglwyd ymhell dros dunnell o sbwriel gan y wardeniaid gwirfoddol."

**Alun Jones, Warden Ardal Yr Wyddfa**

# De Eryri

| Gweithgaredd | Oriau |
|---|---|
| Llwybr Cynwch / Precipice Walk | 39 |
| Llwybr Mawddach Trail (Pont Y Wern Ddu i Abergwynant) | 21 |
| Llwybr Minffordd, Cader Idris, Minffordd Path | 72 |
| Llwybr Panorama / Panorama Walk | 50 |
| Llwybr Ty Nant, Cader Idris / Ty Nant Path, Cader Idris | 114 |
| **Cyfanswm Oriau** | **296** |

**Adborth Gwirfoddolwyr**

Teimlai 100% o ymatebwyr fod ganddynt ddigon o wybodaeth a hyfforddiant i gyflawni eu rôl fel gwirfoddolwr.

Dywedodd 20% o ymatebwyr yr hoffent gael mwy o gyfleoedd gwirfoddoli ganol wythnos.

**Gwirfoddolwr 1 :** "Cynllun da a chriw hwylus"

**Gwirfoddolwr 2 :** "Rwy'n mwynhau bod yn rhan o'r tîm"

**Gwirfoddolwr 3 :** "Efo pob llwybr ar gael bob tro, mae na lot o gyfle. Mae'r system wedi gweithio yn gret!"

**Gwirfoddolwr 4 :** "Mae'n rhoi ymdeimlad o gyfrifoldeb a gwarchodaeth i mi ac yn fy helpu i deimlo ymdeimlad o le 'cynefin', ac rwy'n hoffi rhannu hwn. Nid yw'r teimlad hwn yn dod i ben pan fyddaf yn gadael y shifft chwaith..."

**Gwirfoddolwr 5 :** "Rwy'n meddwl bod y shifft hwyr yn syniad da iawn – hoffwn wneud mwy. Fel arall i gyd yn wych!"



**Rhan hanfodol o'r Gwasanaeth Wardeniaid**

"Mae wardeniaid gwirfoddol De Eryri yn chwarae rhan allweddol yn patrolio ystod eang o lwybrau poblogaidd yn yr ardal, megis llwybrau mynyddig Minffordd a Thŷ Nant ar Gader Idris, yn ogystal â llwybrau mwy hamddenol fel Cynwch, Panorama, a'r Fawddach. Mae'r rhain yn llwybrau prysur iawn, ac mae'n hanfodol bod wardeniaid yn bresennol yn ystod y tymor brig. O fis Ebrill i fis Hydref, mae'r wardeiniaid allan yn cynghori cerddwyr ac ymwelwyr, gan eu hannog i ddilyn y cod cefn gwlad. Mae wardeniaid gwirfoddol yn cefnogi wardeniaid llawn amser a thymhorol ar benwythnosau ac ar wyliau banc. Mae wardeniaid gwirfoddol yn sicrhau bod presenoldeb warden ar y mwyafrif o lwybrau De Eryri. Elfen bwysig o'r rôl yw cynnal presenoldeb cadarnhaol ar y llwybrau a chynnig gwybodaeth a chyngor i ddefnyddwyr os oes angen. Mae'r wardeniaid yn gwneud gwaith amhrisiadwy yn casglu sbwriel sy'n cael ei adael ar y llwybrau ym mhob tywydd!"

**David P. Jones, Uwch Warden y De**

# 1.3 Caru Eryri









Mae Caru Eryri yn brosiect partneriaeth a luniwyd i gyflwyno cynllun gwirfoddoli cynhwysfawr gyda’r nod o reoli pwysau ymwelwyr ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae’r fenter yn canolbwyntio ar weithgareddau cadwraeth amrywiol, gan gynnwys codi sbwriel, cynnal a chadw llwybrau troed, a glanhau traethau, er mwyn sicrhau cadwraeth a chynaliadwyedd y parc. Eleni, cyflwynodd y prosiect sawl elfen newydd megis sifftiau gyda’r nos, sesiwn codi sbwriel ar y llwybr Sherpa o Nant Peris i Feddgelert, mwy o lanhau traethau ar hyd arfordir y Cambrian, mwy o ddiwrnodau cynnal a chadw llwybrau troed, arweinwyr gwirfoddol, diwrnodau copa ychwanegol, gwell presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, a stondin bwydo yn ystod Marathon Eryri. Casglodd tîm Caru Eryri gyfanswm o 1426kg o sbwriel ar eu patrolau.

Facebook:




Instagram:





















**Llwyddiannau Caru Eryri 2024**

**Arweinwyr Gwirfoddoli :** Mae gwirfoddolwyr profiadol wedi cael eu hyfforddi fel arweinwyr, gan eu galluogi i arwain sesiynau a mentora gwirfoddolwyr newydd, gan gryfhau cynaliadwyedd y cynllun hwn ymhellach.

**Pencampwr yr Amgylchedd Gwobr Dewi Sant Yn Rownd Derfynol :** Cafodd cynllun Caru Eryri ei gydnabod yn rownd derfynol Gwobr fawreddog Dewi Sant yn y categori Pencampwr Amgylchedd. Mynychodd gwirfoddolwyr y seremoni yng Nghaerdydd a gyflwynwyd gan Mark Drakeford, y Prif Weinidog ar y pryd.


**Gwobrau Gwirfoddolwyr Gwynedd :** Derbyniodd y prosiect gydnabyddiaeth am ei gyfraniad sylweddol yn ystod Wythnos Genedlaethol Gwirfoddolwyr, gyda rhai o aelodau'r tîm yn derbyn tystysgrifau rhagoriaeth.


**Partneriaeth Well gyda Rheilffordd yr Wyddfa :** Mae'r bartneriaeth hon bellach yn galluogi gwirfoddolwyr i ddefnyddio'r trên i gario offer ar ddiwrnodau cynnal a chadw llwybrau troed, gan wella effeithlonrwydd ar ddiwrnodau gwirfoddolwyr.

**Casglu Sbwriel Eithafol:** O dan arweiniad Arweinwyr Mynydd lleol, mae'r shifftiau hyn wedi cael effaith sylweddol ar gynnal lleoedd y tu allan i'n lleoliadau patrolio arferol fel Llyn Glaslyn a Chwm Clogwyn.

**Pobl i Bobl:** Mae grŵp cymorth wedi'i leoli ym Mangor ar gyfer ffoaduriaid yn bennaf o Syria, Afghanistan, a'r Wcráin yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn cyfleoedd gwirfoddoli. Mae'r fenter hon yn darparu ffordd i ffoaduriaid gysylltu â'u hamgylchedd newydd a dod o hyd i ymdeimlad o berthyn trwy weithgareddau ystyrlon.

**Adrodd am Gasglu Sbwriel:** Ffurflen ar-lein a grëwyd yn benodol ar gyfer gwirfoddolwyr (gan gynnwys Caru Eryri, Wardeiniaid Gwirfoddol ac Unigolion) ar Yr Wyddfa i fewnbynnu data ar nifer y bagiau sbwriel a gasglwyd, cyfanswm y kgs a nodi ble ar y mynydd mae crynodiad uchel o sbwriel. Gyda'r nod o sicrhau adroddiadau cyson, manwl gywir ac effeithiol, er mwyn llywio polisi yn y dyfodol.



**Adborth Gwirfoddolwyr**

**Gwirfoddolwr 1 :** "Rydym yn cael effaith mor gadarnhaol ar yr amgylchedd (rydym yn casglu cymaint o sbwriel). Rydym yn hyrwyddo heicio cynaliadwy ac yn annog eraill i godi sbwriel neu beidio â'i ollwng. Rwy'n teimlo'n dda fy mod wedi cyfrannu at fy ardal leol a'r amgylchedd. Mae'n ymarfer corff gwych ac rwy'n archwilio ardaloedd ar wahanol adegau o'r flwyddyn nag y byddwn yn mynd fel arfer. Rwy'n mwynhau cyfarfod â phobl o'r un anian. Mae'r cydlynwyr / arweinwyr wedi bod yn wych yn edrych ar ein holau ni ac maen nhw wedi bod yn hollol glir ynghylch be' rydy ni'n ei wneud. Rwyf wedi dysgu bod pethau bach yn helpu a hefyd os ydw i'n gallu gwneud amser i wneud rhywfaint o wirfoddoli pan fyddaf yn gweithio'n llawn amser, 45 awr yr wythnos, gallai llawer o rai eraill wneud yr un fath."

**Gwirfoddolwr 2 :** "Mi neshi dysgu lot drwy'r diwrnodau efo Chelsea, Peri a dwi'n cofio Mary yn y ganolfan amser i ddangor planhigion carnifferaidd i ddy fi, rhiwbeth do ni erod wedi gwbod am oblaen."

**Gwirfoddolwr 3 :** "Cefais daith gerdded hanesyddol i fyny'r Wyddfa yn yr haf gyda Caru Eryri a Keith Hulse. Roedd y diwrnod a'r profiad yn wych, a'r pwynt ydi fe es i ati i wneud cais i fod yn warden (gwirfoddol) ar Yr Wyddfa a chefais fy nerbyn. Ymhellach ymlaen, rwyf wedi prynu tŷ yng Ngogledd Cymru ac rwy'n adleoli. Yn y pen draw, fe wnaeth hyn i gyd ddechrau trwy gyfrwng Caru Eryri a Jen Willis ac roeddwn i'n wirioneddol ddiolchgar i gael mynediad at yr holl weithgareddau ac mae Caru Eryri wedi gwella fy mywyd."

**Gwirfoddolwr 4 :** "Teithiau cerdded a golygfeydd da. Ond yn anad dim, pwysau enfawr y sbwriel a gasglwyd. Mae gwir angen cynnal a chadw mwy rheolaidd ar y llwybrau troed os ydyn nhw am fod yn ddiogel. Fy syndod mwyaf oedd fy ŵyr, sydd ag ychydig o acronymau tair llythyren. Agorodd a siaradodd â'i gyd-wirfoddolwyr yn ystod ein tasgau. Mae bellach yn deall y grefft o sgwrsio. Hefyd, cefais fy synnu i ba raddau y mae aelodau'r cyhoedd yn mynd i guddio eu sbwriel."

**Gwirfoddolwr 5 :** "Cyfle i ddysgu sgiliau newydd. Hefyd i gwrdd â phobl newydd a rhoi cynnig ar y Gymraeg yr ydw i wedi ei dysgu. Ac i ddarganfod lleoedd newydd yn Eryri."

**Gwirfoddolwr 6 :** "Rwyf wedi dysgu bod gwirfoddoli yn brofiad gwerthfawr i mi ac i aelodau'r cyhoedd. Hyd yn oed wrth drosglwyddo gwybodaeth i'r cyhoedd, nid ydynt yn ymwybodol o'r effaith y maent yn ei gael ar gefn gwlad ac maent yn ddiolchgar iawn am y wybodaeth yr ydym yn ei throsglwyddo iddynt."

**Gwirfoddolwr 7 :** "Mae aelodau'r tîm yn dod â phob gallu a gwybodaeth. Mae'n dîm gwych o wirfoddolwyr sy'n barod i helpu'r amgylchedd, ei gilydd, a'r cyhoedd yn gyffredinol. Rwyf wrth fy modd yn mynd allan gyda nhw ac mae'n gwneud i mi fynd allan i wneud rhywbeth gwerthfawr."

**Gwirfoddolwr 8 :** "Rwy'n gwerthfawrogi fy mhrofiad o wirfoddoli gyda Caru Eryri oherwydd mae'n rhoi cyfle uniongyrchol i mi gefnogi gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol wrth gynnal Nodweddion Arbennig y lle arbennig iawn hwn yng Nghymru."

**Gwirfoddolwr 9 :** "Mae gwirfoddoli gyda Caru Eryri yn un o'r pethau gorau y gallwch chi ei wneud ar gyfer eich iechyd meddwl a chorfforol, tra'n cadw ein hamgylchedd yn hyfryd ar gyfer y cenedlaethau i ddod."

**Gwirfoddolwr 10 :** "Ffordd wych o wneud gwahaniaeth, cyfrannu at Barc Cenedlaethol Eryri hyfryd, cwrdd â phobl o'r un anian, cael ychydig o ymarfer corff, a chael diwrnod allan gwych. Ymunwch â ni."



# 1.3 Gwirfoddoli Corfforaethol



Ar ddechrau 2024 crëwyd polisi gwirfoddoli newydd i sefydlu canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer gwirfoddoli corfforaethol, gyda'r nod o feithrin cydweithio cymunedol, cefnogi cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, a chynnal ein mentrau cadwraeth. Mae ffi bellach o £500 y diwrnod ar grŵp corfforaethol o uchafswm o 15 o bobl. Mae'r ffi hon yn cynnwys paratoi a chydlynu gyda grwpiau, amser staff ar ddiwrnod y digwyddiad, ac 20% ychwanegol ar gyfer milltiroedd, offer, ac Offer Diogelu Personol. Mae'r arian a gynhyrchir yn cefnogi ein mentrau cadwraeth parhaus yn uniongyrchol ac yn sicrhau cynaliadwyedd ein rhaglenni gwirfoddolwyr.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan bartneriaid corfforaethol, yn amlygu'r gwerth a'r gwerthfawrogiad o'r diwrnodau gwirfoddoli sydd wedi'u trefnu'n dda.

**Sykes Holiday Cottages :** "Rydym yn fwy na pharod i dalu ffi, mae'n gwneud synnwyr llwyr, a dydyn ni byth yn cymryd yn ganiataol faint o waith sy'n mynd i mewn i gynllunio a hwyluso'r dyddiau hyn."

**NRS (Magnox) :** "Dim ond eisiau anfon nodyn atoch i ddweud diolch gan bob un ohonom yn NRS am drefnu plannu'r coed. Cafodd y tîm amser gwych. Braf oedd edrych yn ôl ar yr ail safle plannu ar ddiwedd y dydd a gweld ochr y bryn i gyd wedi'i blannu!"

# 1.4 Cynllun Talu'n Ôl i'r Gymuned

Sefydlwyd y bartneriaeth rhwng APCE a Chyfiawnder ar y Cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned i fynd i'r afael ag ôl-groniad sylweddol o unigolion sydd angen cwblhau oriau ad-dalu cymunedol ar ôl COVID. Mae'r bartneriaeth newydd hon yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli wythnosol, wedi'i gydlynu gyda chyfranogwyr o Dde Gwynedd, lle mae grŵp yn helpu i gynnal a chadw gerddi Plas Tan y Bwlch. Mae'r prosiect o fudd i'r ddwy ochr, gan ddarparu cymorth gwerthfawr ar gyfer cynnal seilwaith y parc tra'n cynnig ffordd adeiladol i gyfranogwyr gyflawni eu gofynion gwasanaeth cymunedol. Mae llwyddiant y cynllun ym Mannau Brycheiniog ac Eryri wedi arwain at ymdrechion i gynnwys Sir Benfro, gan ei wneud yn fenter gadarnhaol sy'n ehangu ar draws holl Barciau Cenedlaethol Cymru, a thrwy hynny gryfhau'r bartneriaeth. Mae diddordeb cynyddol yn y prosiect o fewn y strategaethau sydd ar y gweill ar gyfer y DU a Chymru Wledig, yn ogystal ag yng Nghynhadledd Bywyd Gwyllt a Gwledig Cymru.

Mae'r cynllun wedi hwyluso nifer sylweddol o oriau gwirfoddol yn llwyddiannus, gan gyfrannu'n sylweddol at gynnal a chadw gerddi Plas Tan y Bwlch ac arbed costau talu contractwyr i'r Awdurdod.



# 1.5 Pobl Ifanc



Mae cynnwys pobl ifanc yng ngwaith cadwraeth yr Awdurdod yn anelu at ysbrydoli, addysgu a meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb yn y genhedlaeth iau, gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan weithredol wrth warchod yr amgylchedd naturiol tra'n datblygu sgiliau gwerthfawr. Mae'r mentrau canlynol yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau ymarferol, fel gwaith tîm, datrys problemau ac arweinyddiaeth; profiad gwerthfawr ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

**Prosiect Symud Mynyddoedd :** Cynlluniwyd y fenter hon i gysylltu, cefnogi ac ysbrydoli ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn y DU trwy weithgareddau ym Mharciau Cenedlaethol y DU. Trefnodd y prosiect ymweliadau misol ag Eryri ar gyfer grwpiau o bobl ifanc sydd wedi'u lleoli yng nghanol dinas Manceinion a Birmingham i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cadwraeth.

**Ceidwaid Ifanc :** Mae ein rhaglen Ceidwaid Ifanc wedi rhoi cyfleoedd i bobl ifanc leol gymryd rhan mewn amrywiol dasgau cadwraeth a gweithgareddau awyr agored, gan ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth am eu Parc Cenedlaethol a chael dealltwriaeth ddyfnach o'r mathau o rolau yn yr awyr agored y gallent eu dilyn fel gyrfa.

**Cydweithrediadau gyda Phrifysgolion :** Rydym wedi ffurfio partneriaeth â Phrifysgol Bangor, Prifysgol Efrog Newydd, a Phrifysgol Aberystwyth i ymgysylltu myfyrwyr â'n prosiectau cadwraeth, gan gynnig profiad ymarferol iddynt a gwella eu dysgu academaidd.

**Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd** : Mae cydweithio gyda Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd wedi ein galluogi i gyrraedd cynulleidfa ehangach o bobl ifanc lleol, gan eu cynnwys mewn gweithgareddau dysgu ystyrlon y tu allan i'r dosbarth.

**Dug Caeredin :** Mae cyfranogwyr rhaglen Dug Caeredin wedi cyfrannu at ein hymdrechion cadwraeth, gan ennill sgiliau a phrofiad gwerthfawr i gyflawni eu hachrediad safon Aur.

**Prosiect Partneriaeth Tirwedd y Carneddau** : Mae gweithio gydag ysgolion lleol trwy Brosiect y Carneddau wedi ein galluogi i addysgu pobl ifanc am gadwraeth a'u cynnwys mewn gweithgareddau ymarferol ar garreg eu drws.

# 2. Lles

## 2.1 Teithiau Cerdded Ymwybyddiaeth Ofalgar



Yn 2024, cynhaliwyd taith gerdded ymwybyddiaeth ofalgar bob mis, gan eu cynnal bob yn ail mewn lleoliad tawel yng Ngogledd a De Eryri. Roedd y dull hwn yn cynnig amrywiaeth o brofiadau golygfaol i gyfranogwyr ac yn eu cyflwyno i lwybrau cerdded llai poblogaidd yn y parc. Gwelwyd nifer dda ar bob taith gerdded, gyda hyd at 10 o bobl yn ymuno â ni bob mis. Mae llawer o gyfranogwyr wedi gwneud y teithiau cerdded hyn yn rhan reolaidd o'u trefn les, gan ddychwelyd fis ar ôl mis. Yn ogystal, cyflwynwyd rhodd o £5 wrth y ddesg wrth archebu'r teithiau cerdded ar ein gwefan, sy'n helpu i greu incwm bach i'r Awdurdod.

Mae adborth gan gyfranogwyr wedi dangos manteision sylweddol y teithiau cerdded hyn ar gyfer eu hiechyd a'u lles:

**Cyfranogwr 1 :** "Cymorth gyda fy iechyd meddwl, mynd allan i'r awyr iach, cwrdd â phobl, a helpu gyda fy ffitrwydd."

**Cyfranogwr 2 :** "Teimlo fy mod wedi adfywio i gyd ac yn teimlo'n heddychlon."

**Cyfranogwr 3 :** "Fe wnaeth i mi deimlo fy mod wedi ymlacio ac o dan llai o straen."

**Cyfranogwr 4** : "Roeddwn i'n teimlo'n hamddenol a digynnwrf, gyda chwmni croesawgar braf."

**Cyfranogwr 5** : "Roeddwn i'n teimlo'n fel tasa fy nhraed fwyfwy ar y ddaear ac yn teimlo yn ysgafnach ynof fi fy hun."

**Cyfranogwr 6** : "Rwy'n gweld gweithgareddau grŵp yn llawer mwy buddiol na fy arferion unigol."

**Cyfranogwr 7** : "Rwy'n hoffi'r strwythur -- mae ychydig bach o gymdeithasu ond cerdded yn dawel ar y cyfan, yn helpu i gynnal ffocws ymwybyddiaeth ofalgar. Am resymau iechyd, ni allaf gerdded mewn mannau anghysbell ar fy mhen fy hun, ac mae mathau eraill o gerdded grŵp yn rhy 'gymdeithasol'. Rwyf am ymgysylltu'n dawel â natur, tra'n teimlo'n ddiogel mewn grŵp ac rydym i gyd gyda'r un nod. Rwy'n gwerthfawrogi'r defnydd o farddoniaeth, a charedigrwydd a'r strwythur heddychlon, y meddylfryd, a'r agwedd hynod o ofalgar ac mae'r teithiau cerdded wedi fy helpu i ddatblygu fy sgiliau o dawelwch, ffocws, ac ymwybyddiaeth o fod yn y funud bresennol, rwyf hefyd wedi gwerthfawrogi ac elwa'n fawr o fewnbwn addysgiadol cyfoethog warden Cwm Idwal a swyddog Eryri y mae ei wybodaeth a'i werthoedd wedi dyfnhau fy ngwerthfawrogiad o arwyddocâd hanesyddol a chadwraethol Cwm Idwal, a mannau eraill yr ydym wedi cerdded arnynt, a'm synnwyr ei bod yn fraint aruthrol gallu mwynhau'r tirweddau hyn."

**Cyfranogwr 8** : "Rwy'n teimlo'n ddiogel ac yn derbyn gofal gan Etta a Davy. Mae'r ddau ohonynt yn hynod broffesiynol".

## 2.2 Ysgol Goedwig



Nod ein sesiynau Ysgol Goedwig yw rhoi cyfleoedd i blant gysylltu â natur trwy weithgareddau difyr a chwarae. Y nod yw meithrin gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol wrth eu haddysgu am goed, glöynnod byw, pryfed a blodau. Mae'r sesiynau hyn wedi'u cynllunio i fod yn addysgol ac yn bleserus, gan sicrhau bod plant ifanc yn datblygu cysylltiad parhaol â byd natur. Fe wnaethom gynnal cyfanswm o bedair sesiwn yn 2024 yn ystod gwyliau'r ysgol yng Nghoed Bryn Berthynnau, Llyn Mair, Farchynys, a'r Ysgwrn. Roedd pob sesiwn yn llawn, gyda 10 o blant 2-12 oed yn cymryd rhan. Roedd yr athrawes ysgol goedwig yn hynod ddiddorol, gan sicrhau bod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn cymryd rhan weithredol yn y sesiynau.


## 2.3 Ioga Awyr Agored



Mae ein sesiynau Ioga Awyr Agored a gynhelir gan Tracey Joscelyne yn cynnig nifer o fanteision iechyd a lles i gyfranogwyr. Mae ymarfer ioga yn yr awyr agored yn gwella'r profiad cyffredinol ac yn caniatáu i gyfranogwyr ymgysylltu â'u hamgylchedd. Fodd bynnag, oherwydd y tywydd gwlyb iawn ym mis Awst a mis Medi, bu'n rhaid canslo rhai o'r digwyddiadau ar fyr rybudd neu eu hail drefnu, gan arwain at ostyngiad mewn cyfranogiad o gymharu â'r llynedd. Er gwaethaf heriau'r tywydd, llwyddwyd i gynnal tair sesiwn ym mis Gorffennaf yn Llyn Mair ac ar Draeth Harlech. Mae'r lleoliadau hyn yn dal i fod yn lleoedd delfrydol i gynnal y sesiynau hyn, gyda'r golygfeydd o'u cwmpas yn atyniad mawr i gyfranogwyr. Dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn teimlo'n fwy cysylltiedig â natur, yn teimlo bod eu traed ar y ddaear, ac wedi'u hadfywio ar ôl y sesiynau.

# 3. Trampyr

Mae'r graff yn dangos cynnydd yn y defnydd o'n gwasanaeth Llogi Trampyr yn cynyddu'n raddol o 2021 i 2024, sy'n dangos bod ei boblogrwydd yn cynyddu




Mae'r bartneriaeth rhwng APCE a Forest Holidays yn parhau, gan arwain at gydweithrediad sydd o fudd i'r ddwy ochr. Prif amcan y bartneriaeth hon yw gwella gwasanaeth llogi Trampyr, gan ei wneud yn fwy hygyrch ac effeithlon i ddefnyddwyr. Mae system archebu ar-lein newydd wedi'i datblygu, sy'n darparu mynediad a rennir i APCE a Forest Holidays i weld archebion sydd ar ddod. Mae'r system hon wedi gwella gwasanaeth cwsmeriaid yn sylweddol trwy awtomeiddio e-byst cadarnhau, e-byst atgoffa, ac e-byst adborth dilynol, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei darparu i ddefnyddwyr cyn iddynt archebu. Mae'r awtomeiddio hwn yn lleihau'r ddibyniaeth ar amser staff ac argaeledd. Mae'r system archebu yn gorfodi cyfnod rhybudd o bedair wythnos ar gyfer archebion, gan ganiatáu i'r gwasanaeth warden drefnu eu rhaglen waith yn effeithiol. Mae'r gwelliannau wedi arwain at adborth cadarnhaol a defnyddiol iawn gan y rhai sy'n llogi'r Trampyr.



## Adborth Cwsmeriaid

Mae'r adborth hwn yn amlygu profiadau ac awgrymiadau cadarnhaol gan ddefnyddwyr sydd wedi llogi'r Trampyr, gan arddangos gwerth ac effaith y gwasanaeth.

**Cyfranogwr 1 :** "Ar wahân i law erchyll na ellid beio neb amdano, roedd yr holl brofiad gefais o'r trampyr yn wych a byddwn yn hapus i gael tro arall y tro nesaf pan fyddaf yng Ngogledd Cymru."

**Cyfranogwr 2 :** "Rwyf wedi bod wrth fy modd yn mynd allan gyda'r teulu, dydw i ddim eisiau i ormod o bobl ddod i wybod amdano a finnau yn methu â chael un"

**Cyfranogwr 3 :** "Byddai'n dda cael opsiwn ar gyfer mwy o lwybrau 5-10k. Nid wyf yn siŵr a oes un yn Ogwen ond mae llwybr beicio a allai gychwyn o Gapel Curig ac yn gorffen ym Mhorth Dinorwig a fyddai'n werth ei wneud neu ddefnyddio'r llwybrau beicio ar yr arfordir rhwng Conwy a Chaernarfon."

**Cyfranogwr 4 :** "Rwyf wrth fy modd â'r gwasanaeth rydw i eisiau dweud wrth y byd amdano ond rwyf hefyd am ei gadw'n gyfrinach a'i gadw i mi fy hun"

**Cyfranogwr 5 :** "Roedd yr alwad ffôn y diwrnod cynt yn ddefnyddiol iawn. Roedd y Ceidwad yn dda iawn pan wnaethon ni ei godi - yn dweud wrthon ar ba lwybrau i fynd ac ati. Roedd hefyd yn gyfeillgar ac yn gwrtais iawn."

**Cyfranogwr 6 :** "Hoffwn ddweud bod hwn yn wasanaeth gwych y mae'r parc yn ei ddarparu, byddwn yn dod yn ôl dro ar ôl tro, ac roedd David yn Nolgellau mor gymwynasgar diolch i bawb."

**Cyfranogwr 7 :** "Roedd y wardeniaid yn wych. Yn empathetig, yn cymryd diddordeb ac addysgiadol. Rydw i'n edrych ymlaen at daith yfory i'r Bala."

**Cyfranogwr 8 :** "Cymorth rhagorol i gwsmeriaid."

Cyfranogwr 9 : " Roedd Simon wedi gollwng y Trampyr hefo ni roedd o'n hynod o gymwynasgar ac yn ddigon caredig i gynnig casglu'r trampyr o ble bynnag yr oeddem yn Y Bala (fe gwrddon ni ag ef fel y cynlluniwyd yn wreiddiol). Mae o'n ddyn annwyl ac roeddem yn gwerthfawrogi ei amser. Roedd archebu'r trampyr yn dipyn o hunllef gan fy mod yn cael fy nhrosglwyddo yn ôl ac ymlaen i Forest Holidays am wythnos cyn cysylltu â rhywun a allai helpu. Unwaith roeddwn i wedi siarad â'r aelod cywir o'r tîm a'i archebodd i mi roedd popeth mor hawdd o hynny ymlaen. Roedd hithau hefyd yn hyfryd ac yn gymwynasgar."

**Cyfranogwr 10 :** "Yn gyntaf oll, roedd Robat y gwnes i ymdrin ag ef y tro hwn mor gwrtais a chymwynasgar a rhoddodd gyngor a syniadau da i mi ar gyfer llwybrau eraill y gallwn fynd arnynt. Soniais wrth Robat fy mod wedi defnyddio'r trampyr ym Meddgelert ychydig o weithiau a bod yr un hwnnw yn teimlo fel petai ychydig yn gyflymach ac rwy'n meddwl y byddai un ychydig yn gyflymach yn dda o beth ar Lwybr Mawddach am ei fod yn llawer mwy gwastad yno ac mae Beddgelert yn ychydig fwy creigiog ac anwastad. Ond mae hwn yn wasanaeth gwych y mae'r parc yn ei ddarparu a gobeithio y bydd yn parhau yn hir. Rwy'n gwybod bod pobl yn gyflym i feirniadu'r parc ond mae angen i rai gwasanaethau rydych chi'n eu darparu lle mae'n rhaid i bobl chwilio amdanynt, ond ni fyddwn am i hwn fod yn rhy boblogaidd gan fy mod wedi llwyddo i gael un hyd yn hyn bob tro yr wyf wedi ei archebu.

**Cyfranogwr 11 :** "Roedd Robat yn garedig iawn ac yn gefnogol. Profiad gwych iawn."

**Cyfranogwr 12 :** "Roedd y Ceidwad a gyflwynodd y Trampyr i mi yn garedig a chymwynasgar iawn. Diolch."

**Cyfranogwr 13 :** "Mae'r Trampyr yn defnyddio offeryn 'gollwng' i stopio ac nid dyna mae modurwyr neu feicwyr yn ei wneud. Hefyd mae'n flinedig dal y cyflymydd yn barhaus. Byddai system fel bygi golff wedi'i bweru yn haws - math o reolaeth mordaith ac yna taro botwm canolog i stopio."

**Cyfranogwr 14 :** "Bu'n rhaid i mi lywio fy ffordd o gwmpas coeden oedd wedi disgyn ar draws y llwybr, ond fe fu popeth yn iawn ar wahân i hynny. Ar gyfer modelau'r dyfodol, efallai y byddai'n syniad da newid y system dreif / brêc am system feiciau mwy confensiynol yn hytrach na'r un presennol o orfod gollwng gafael ar yr handlen i stopio'r tampyr oherwydd weithiau mae'n hawdd anghofio gwneud hynny."

Cyfranogwr 15 : "Ddiolchgar iawn o gael llogi'r tramper, bydd Mam methu mynd ar unrhyw ffordd arall."

# 3 – Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau)

## Tabl o'r Strategaeth Wirfoddoli

| Gweithred | Metrig | Sut byddwn ni'n mesur | Pwy fydd yn casglu'r data a sut bydd yn cael ei adrodd? | Canlyniad 2024 |
|---|---|---|---|---|
| Creu cyfleoedd a chefnogi mentrau sy'n galluogi pobl ifanc, anabl, sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol a phobl heb gynrychiolaeth ddigonol i wirfoddoli. | Nifer y gwirfoddolwyr (gan gynnwys ffigurau penodol ar gyfer grwpiau targed) | Adroddiad gan Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y gwirfoddolwyr<br><br>Pobl Ifanc (14-24) :25<br><br>25-50:88<br><br>50+: 138 |
| Penodi gwirfoddolwyr gyda rolau penodol a darparu hyfforddiant yn ogystal â digwyddiadau gwirfoddoli i bobl na allant ymrwymo i weithgareddau rheolaidd. | Nifer y gwirfoddolwyr ym mhob rôl | Adroddiad ar sifftiau gwirfoddoli o Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer Gwirfoddolwyr Caru Eryri: 123<br><br>Nifer Wardeniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 47<br><br>Nifer Wardeniaid Gwirfoddol De Eryri: 7 |
| Sefydlu rolau gwirfoddoli newydd mewn ardaloedd eraill o fewn y PC ar wahân i ardal Yr Wyddfa ee Wardeniaid Gwirfoddol y De. Dechreuodd y broses recriwtio yn 2021. | Nifer y diwrnodau gwirfoddolwyr a gwirfoddolwyr yn ôl lleoliad daearyddol eang | Adrodd ar oriau gwirfoddolwyr o Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles a Warden Pen De Eryri | Targed a Gyflawnwyd Cadwyd rhai o Wardeiniaid Gwirfoddol De Eryri ac ymunodd rhai aelodau newydd â'r tîm.<br><br>Cystadlodd 7 Warden Gwirfoddoli De Eryri gyfanswm o 296 awr o wirfoddoli |
| Datblygu mwy o grwpiau gwirfoddol mewnol ar gyfer: Bioamrywiaeth, Awyr Dywyll, Prosiectau Cadwraeth (LIFE, Carneddau) a phrosiectau eraill yn y dyfodol | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli fesul adran/ prosiect | System Better Impact ac adroddiadau ar y prosiectau | Swyddog Gwirfoddoli a Lles a staff prosiect | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli Bioamrywiaeth a Rheoli Coetiroedd: 30<br><br>Nifer y diwrnodau gwirfoddoli Cynnal a Chadw Llwybrau Troed: 12<br><br>Nifer diwrnodau gwirfoddoli Prosiect y Carneddau: 12 |
| Bydd prosiectau fel Yr Ysgwrn yn dyblu nifer y gwirfoddolwyr o 15 i 30 drwy gynnal ffeiriau gwirfoddolwyr a boreau coffi ar y safle i ledaenu'r gair, a thrwy hysbysebu rolau'n ehangach. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli fesul adran/ prosiect | Adroddiad gan staff Yr Ysgwrn | Swyddog Gwirfoddoli a Lles a Rheolwr Treftadaeth Ddiwylliannol | Nifer o wirfoddolwyr Yr Ysgwrn: 8 |
| Parhau i gynnig y Cynllun Ceidwaid Ifanc i bobl ifanc 14-16 oed a darparu cefnogaeth a chyngor ar draws y sefydliad i alluogi swyddogion i drefnu a rheoli cyfleoedd gwirfoddoli. | Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddolwyr ar gyfer grwpiau targed penodol | Adroddiad gan y Swyddog Pobl Ifanc | Swyddog Gwirfoddoli a Lles, Warden Ardal, Swyddog Pobl Ifanc | Nifer y Ceidwaid Ifanc: 11<br><br>Nifer diwrnodau Ceidwad Ifanc: 7 |

| Gweithred | Metrig | Sut byddwn ni'n mesur | Pwy fydd yn casglu'r data a sut bydd yn cael ei adrodd? | Canlyniad 2024 |
|---|---|---|---|---|
| Er mwyn hyrwyddo gwirfoddoli gan staff ac aelodau byddwn yn trefnu dau ddiwrnod gwirfoddoli ar gyfer staff ac aelodau bob blwyddyn. Bydd gan bob aelod o staff yr hawl i wirfoddoli hyd at 15 awr y flwyddyn i adrannau eraill o fewn yr Awdurdod. | Nifer y diwrnodau gwirfoddolwyr staff | Adroddiad o nifer y diwrnodau gwirfoddolwyr staff | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Anogir staff ac aelodau i greu cyfrif My Impact i ddefnyddio eu lwfans gwirfoddoli trwy gymryd rhan yn ein rhaglen wirfoddoli. |
| Datblygu ac annog gweithio gyda grwpiau a noddir yn gorfforaethol ar brosiectau sydd o fudd i'r ddwy ochr. Mae gwirfoddoli corfforaethol yn faes sydd â photensial ar gyfer twf sylweddol ar gyfer gwirfoddoli a chynhyrchu incwm. Bydd yr arian yn ein galluogi i ail-fuddsoddi mewn gwirfoddoli gan y byddwn mewn sefyllfa well i gyflenwi Offer Diogelu Personol (ODP) a gwisg ar gyfer gwirfoddolwyr. | Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn diwrnodau gwirfoddoli corfforaethol | Adroddiad o nifer y diwrnodau gwirfoddoli corfforaethol | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli corfforaethol: 4<br><br>Nifer y gwirfoddolwyr corfforaethol: 44 |
| Sicrhau o leiaf dau ddiwrnod gwaith gwirfoddol gyda Chymdeithas Eryri bob mis. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli | Adroddiad gan Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli (heb gynnwys Caru Eryri): 54 |
| Byddwn yn cydweithio'n strategol gyda sefydliadau eraill sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn eu gwaith er mwyn rhannu arfer da, hyfforddiant ac ati. | Nifer y diwrnodau gwirfoddoli | Adroddiad gan Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Cyfanswm nifer y diwrnodau gwirfoddoli: 113 |
| Chwilio am gyfleoedd gyda phartneriaid ar gyfer diwrnodau hyfforddi achrededig i uwch sgilio gwirfoddolwyr. | Nifer y digwyddiadau hyfforddi a'r nifer a hyfforddwyd | Adroddiad gan Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y diwrnodau hyfforddi gwirfoddolwyr: 3<br><br>Nifer y gwirfoddolwyr a hyfforddwyd: 18 |
| Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws ardal y Parc Cenedlaethol – rhai am un diwrnod yn unig, eraill yn gofyn am ymrwymiad dros sawl awr y mis gan wirfoddolwyr. | Nifer y gwirfoddolwyr ac oriau gwirfoddolwyr | Adroddiad gan Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y Gwirfoddolwyr: 177<br><br>Nifer diwrnodau Gwirfoddolwyr: 211 |
| Cefnogi'r gwasanaeth Warden yn eu defnydd o wirfoddolwyr. | Nifer oriau gwirfoddolwyr fesul ardal | Adroddiad gan Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer oriau Warden Gwirfoddol Yr Wyddfa: 4349<br><br>Nifer oriau Warden Gwirfoddol De Eryri: 296 |

| Gweithred | Metrig | Sut byddwn ni'n mesur | Pwy fydd yn casglu'r data a sut bydd yn cael ei adrodd? | Canlyniad 2024 |
|---|---|---|---|---|
| Wardeiniaid Gwirfoddol yn ymgymryd â mwy nag un rôl, o bosibl yn cynorthwyo gyda gweithgareddau ymgysylltu megis arwain neu ôl-farcio teithiau cerdded tywysedig PC pan fydd rhaglenni newydd yn eu lle. | Naratif | Adroddiad gan y Warden Ardal | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Mae Wardeiniaid Gwirfoddol yn cymryd rhan mewn mwy o amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli gan gynnwys plannu coed a gwrychoedd, plannu blodau gwyllt a chynorthwyo mewn prosiectau bioamrywiaeth eraill gyda'r Wardeniaid Ardal. |
| Cynorthwyo gwirfoddolwyr gwasanaeth hir yn eu datblygiad personol er mwyn cyflawni elfennau ar gyfer Cymwysterau Safonau Cenedlaethol. | Nifer y digwyddiadau hyfforddi a'r nifer a hyfforddwyd | Adroddiad gan Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y Gwirfoddolwyr a gwblhaodd gwrs Cymorth Cyntaf REC: 8<br><br>Nifer y Gwirfoddolwyr a Gwblhawyd Cwrs Llysgenhadon Eryri:<br><br>Efydd: 67<br><br>Arian: 3<br><br>Aur: 81 |
| Defnyddio dulliau recriwtio effeithiol i sicrhau ein bod yn cyrraedd ystod eang o bobl. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Mantell Gwynedd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Conwy a grwpiau diddordeb arbennig eraill. | Nifer y gwirfoddolwyr | Adroddiad gan Better Impact | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Nifer y Gwirfoddolwyr a gofrestrwyd ar Better Impact: 893 |
| Marchnata ein cyfleoedd gwirfoddoli drwy ddefnyddio'r dulliau canlynol; rhestru'r cyfleoedd sydd ar gael ar wefan Volunteering / Gwirfoddoli Cymru ac mewn Canolfannau Gwirfoddoli lleol; manteisio ar ddigwyddiadau cyhoeddus er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at y cyfleoedd gwirfoddoli; sefydlu tudalen 'cysylltu â ni' ar wefan newydd yr Awdurdod, yn rhoi gwybodaeth am wirfoddoli gyda'r Awdurdod; rhannu delweddau o weithgareddau gwirfoddoli trwy gyfryngau cymdeithasol ynghyd â gwybodaeth am sut i gymryd rhan. | Nifer yr ymholiadau gwirfoddoli | Adroddiad gan Dîm Cyfathrebu APCE | Swyddog Gwirfoddoli a Lles a'r Tîm Cyfathrebu | Nifer yr ymholiadau gwirfoddoli a dderbyniwyd trwy'r wefan: 112<br><br>Mae tîm Cyfathrebu APCE yn rhannu cyflawniadau gwirfoddolwyr yn rheolaidd ar ein cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan, yn ogystal â ffurfiau cyfryngau eraill. |
| Parhau i gynnwys diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth am wirfoddoli mewn atodiadau / erthyglau mewn cyhoeddiadau ac adroddiadau, datganiadau i'r wasg, erthyglau dathlu a diolch i wirfoddolwyr, hysbysebion, a deunydd printiedig yn y Canolfannau Croeso ac ati. | Naratif | Adroddiad gan Dîm Cyfathrebu APCE | Swyddog Gwirfoddoli a Lles | Parhau i ddathlu ein gwirfoddolwyr anhygoel a'r gwaith maen nhw'n ei wneud i warchod Eryri. |

# 4. Targedau 2025

- Creu rôl wirfoddoli newydd (gwirfoddolwyr Croeso i Ymwelwyr) yn Llyn Tegid i ehangu presenoldeb gwirfoddolwyr sy'n cefnogi'r gwasanaeth Wardeniaid yn Ne Eryri.
- Parhau i ddatblygu'r bartneriaeth gyda Justice ar y cynllun talu'n ôl i'r gymuned i gyflwyno mwy o amrywiaeth o waith cadwraeth.
- Sefydlu partneriaeth gorfforaethol newydd gyda Hochtief (UK) Construction Ltd. / gweithwyr y Grid Cenedlaethol ym Mhenrhyndeudraeth.
- Diweddaru amcanion llesiant i wella ein cynnig o wasanaethau i gynnwys mwy o sesiynau cysylltu â byd natur trwy gynlluniau rhagnodi cymdeithasol.
- Cynyddu'r cynnig o sesiynau Ysgol Goedwig yn Yr Ysgwrn.



**EITEM RHIF 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU** |
| **DYDDIAD** | 19 Mawrth 2025 |
| **TEITL** | **RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2024-25** |
| **ADRODDIAD GAN** | Dirprwy Brif Weithredwr (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol) |
| **PWRPAS** | Adroddiad cynnydd Chwarter Tri (Hydref – Rhagfyr, 2024) a Chwarter 4 Ionawr – Mawrth, 2025) os ar gael |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ynghlwm adroddiad ar y Rhaglen Waith Corfforaethol sy’n cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y trydydd a pedwerydd chwarter yn 2024 - 25 i gyflawni'r wahanol brosiectau a’r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod.

1.2 Bydd Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth bellach os bydd angen.

## 2. ARGYMHELLIAD

**2.1 Archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol ynghlwm.**

## 3. PAPURAU CEFNDIROL

3.1 Rhaglen Waith Corfforaethol 2024-25: Adroddiad Cynnydd Chwarter 3 a 4 (os ar gael).

JO/PaA/RWC/Adroddiad

# AMCANION LLESIANT 2024-25 : RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL

**Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau Llwyddiant**

**Diweddariad Chwarter 3. Hydref - Rhagfyr 2024**

**(a Chwarter 4. Ionawr – Mawrth 2025 (os ar gael)**

**Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â thargedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru - wedi'u dynodi (Atodiad 1 : Targedau'r Llythyr Cylch Gwaith)**

## AMGYLCHEDDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 1 | GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGYDDOL HAMDDEN |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 1.1 | (gwyrdd) **Wedi ei Gwblhau** | **Gweithredu Ymgyrch Cyfathrebu Economi Ymweld Gynaliadau Gwynedd ac Eryri** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu |
| | Ch. 1-2 | Ymgyrch yn cael ei weithredu ar yr economi ymweld ar gyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod. Sesiynau hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol wedi eu cynnal yn y Pencadlys i fusnesau a fentrau cymunedol Gwynedd & Eryri. | | |
| | **Ch. 3** | **Ymgyrch tymor ymwelwyr ar y cyd efo Cyngor Gwynedd (Cwmniau cyfathrebu Alaw & Equinox wedi eu comisiynu) wedi dod i ben yn Ch.3** | | |

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.2** | | **Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn Pen y Pass trwy uwchraddio'r cyfleusterau a dehongli i ymwelwyr:**<br>➢ Cwblhau a gosod gwelliannau i gyfleusterau dehongli Pen y Pass | Mawrth 2025 | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. Gwas. Wardeinio a Mynediad (WaM)<br>Swyddog Cyfathrebu |
| | Ch. 1-2 | Gwaith cynllunio a phrisio wedi dechrau. | | |
| | **Ch. 3** | **Gwaith gwelliannau dehongli yn parhau i Ch.4. Gwaith dylunio wedi gorffen. Gwaith argraffu a gosod i fynd ymlaen i Ch.4.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 1.3** | **Wedi ei Gwblhau** | **Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol. Cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar ddata 2023** | Parhaus. Adroddiad nesaf erbyn Meh./Gorff. 2024 | Pen. Partneriaethau |
| | **Ch. 1-2** | **Adroddiad wedi ei chynhyrchu a'i chyflwyno i Aelodau yn ystod Gweithgor mis Mehefin 2024. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan PC Eryri.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.4** | **Ch. 1- 4** | **Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl ac adolygu'n flynyddol**<br><br>**Gwaith amrywiol yn parhau ar draws y Parc yng nghyd a phrosiectau mawr fel – Mynydd Moel (Cadair Idris) a Llwybr y Mwynwyr (Yr Wyddfa).** | Parhaus | Pen. Gwas. WaM |
| **AC 1.5** | Ch. 1-2<br>**Ch. 3** | **Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri**<br><br>Draft wedi ei gynhyrchu. Rhagwelir cyflwyno'r drafft i Aelodau yn yr Hydref.<br>**Gwaith wedi llithro, rhagwelir cyflwyno'r drafft i Aelodau yn yr Haf, 2025.** | Hydref 2024 | Pen. Gwas. WaM |
| **AC 1.6** | Ch. 1- 2<br>**Ch. 3**<br>Ch. 4 | **Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri**<br><br>Drafft cyntaf wedi ei greu.<br>**Gwaith wedi llithro, rhagwelir bydd y canllawiau yn cael eu cwblhau erbyn yr Haf, 2025** | Hydref. 2024 | Pen. Gwas. WaM |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.7** | **Ch. 1 – 4** | **Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen a darparu adroddiad blynyddol i'r Tim Rheoli ar hyn**<br>**Y gwaith yma'n parhau. Mi fydd y system rheoli rhwydwaith newydd yn ein galluogi i gynhyrchu adroddiadau mwy manwl.** | Parhaus | Pen. Gwas. WaM |
| **AC 1.8** | **Ch. 1 - 4** | **Wardeiniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol**<br>**Gwaith yma'n parhau ac yn cael eu cynllunio yng nghynlluniau ardal Wardeniaid** | Parhaus | Pen. WaM |
| **AC 1.9** | **Ch. 1- 4** | **Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal Wardeiniaid**<br>**Mae pob warden efo cynllun ardal sy'n cael ei arolygu gyda'r Uwch Wardeniaid yn rheolaidd. Mae'r Wardeniaid yn cael eu hannog i gydweithio gydag adrannau eraill ar brosiectau. Enghraifft o gydweithio yw'r gwaith prosiectau natur arian grant Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy (SLSP) gyda Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth. Mae'r gwaith hyn yn barhaus.** | Parhaus | Pen. WaM |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 1.10 | Wedi ei Gwblhau<br>Ch. 1 – 2 | **Cefnogi gwaith Swyddog Prosiect Yr Wyddfa Di-blastig**<br>➢ Mewn partneriaeth â Cadw Cymru'n Daclus, trefnu a chynnal COPA1, yr uwchgynhadledd Ieuenctid gyntaf sy'n cael ei gynnal fel rhan o brosiect ymateb i lygredd plastig untro<br>**COPA1 wedi cael ei drefnu ac yn llwyddiant mawr - pawb yn gytûn bod angen etifeddiaeth a dechrau cynllunio COPA2 at 2026.**<br>**Bydd y gwaith prosiect yn dod i ben diwedd mis Hydref 2024. Bydd y Swyddog yn cyflwyno i'r Aelodau yn ystod Gweithgor mis Hydref. Bydd adroddiad terfynol yn cael ei chynhyrchu a chynllunio am etifeddiaeth y prosiect yn digwydd yn ystod mis Hydref a Thachwedd 2024.** | Medi 2024 | Pen. Partneriaethau<br><br>Swyddog Prosiect Yr Wyddfa di-blastig |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 2 | YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| AC 2.1<br><br>Adroddiad Blynyddol | | **Sicrhau gweithrediad y polisïau CDLl cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd**<br>**Roedd lliniaru newid yn yr hinsawdd yn ystyriaeth wrth baratoi llawer o'r CDLl presennol, gan gynnwys strategaeth aneddiadau (lle mae tai'n cael eu datblygu), lliniaru llifogydd, a chynhyrchu ynni drwy adnewyddadwy. Cyflwynir Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) o gynnydd holl bolisiau'r CDLl i'r Aelodau ac yna i Lywodraeth Cymru bob Hydref, ac mae hyn wedi dod i'r casgliad y cydymffurfiwyd yn fras â'r polisiau hyn. Mae'r maes polisi hwn wedi esblygu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, a bydd hyn yn codi nifer o faterion pwysig yn yr adolygiad o'r CDLl yn 2025.** | **Adroddiad blynyddol** | *Pen. RhDaCh<br>Pen. Polisi Cynllunio |

* Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth (Pen. RhDaC)

- (Gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen — Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25
- (Melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025
- (Coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.2** | | **Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (i'w fabwysiadu o Rhagfyr 2024) ymochrol gyda Ffyniant i Bawb – Targedau Ystâd Gyhoeddus Carbon Isel**<br>➢ Cynnal adolygiad o'r Portffolio Asedau gyda'r Is-Grŵp Asedau gydag argymhellion i'w hystyried gan yr Awdurdod llawn ac unrhyw asedau dros ben i'w hystyried ar gyfer eu gwaredu/trosglwyddo perchnogaeth | Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau newydd o Rhagfyr 2024+ ymlaen | Pen. Eiddo |
| | Ch. 1- 2 | Mae gwaith dadgarboneiddio pellach ar y gweill drwy arian grant Llywodraeth Cymru, Tirweddau Cynaladwy Llefydd Cynaladwy. Mae gwaith addasu a diweddaru y Cynllun Rheoli Asedau blaenorol ar waith ond cynnydd wedi llithro yn sgîl gwaith ychwanegol yn deillio o farchnata Plas Tan y Bwlch a chyfarfodydd cymunedau. Anelu i ymgynnull cyfarfod o'r Is-Grwp Asedau yn Ionawr 2025 a'r Cynllun Rheoli Asedau i'w gyflwyno yng nghyfarfod Pwyllgor PacA, Mawrth 2025. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Y gwaith addasu a diweddaru heb gael ei gwbwlhau oherwydd llwyth gwaith a chwbwlhau bidiau am grantiau cyfalaf pellach er mwyn ymateb i broblemau sydd wedi codi yn sgîl prysurdeb safleoedd penodol yn ogystal a chyfran sylweddol o amser yn delio gyda ymweliadau a thrafodaethau Plas Tan y Bwlch. Awgrymir bod y weithred yma yn cael ei ail raglennu ar gyfer 2025-26 ac ymgynnul Is-Grwp Asedau ym Mis Mai 2025 a'r Cynllun Rheoli Asedau i'w fabwysiadu erbyn Gorffennaf 2025.** | | |
| **AC 2.3** | | **Datblygu Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar argymhellion yr Astudiaeth Carbon ac ystyried pa adnoddau staff sydd eu hangen i roi unrhyw gamau y cytunwyd arnynt a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar waith** | 2024 | Cyf. Gwas. Corfforaethol<br><br>Pen. Eiddo |
| | Ch. 1- 2 | Mae capasiti staff, yr angen i weithio yn draws adrannol a chefnogi pwrcasu Carbon isel ledled yr Awdurdod wedi ei adnabod a swydd newydd 'Swyddog Carbon' wedi ei greu, ei hysbysebu a recriwtio. Bydd y Swyddog newydd yn dechrau yn y rôl Tachwedd 2024. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Swyddog Carbon Isel wedi dechrau yn ei swydd a chyfarfodydd rheolaidd wedi eu cynnal a rhaglennu i drafod yr Astudiaeth Carbon wrth i'r swyddog asesu blaenoriaethau dadgarboneiddio y gall yr Awdurdod reoli neu ddylanwadu yn uniongyrchol. Bydd y Swyddog Carbon Isel yn adolygu'r cynllun gweithredu a'i** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| | | |
|---|---|---|
| | | **ail gyflwyno i'r Aelodau erbyn Mehefin 2025.** |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.4** | | **Datblygu Cynllun Gweithredu Carbon Isel ar gyfer Eryri, gan sicrhau bod hwn yn cynnwys ymrwymiad i**<br>➢ Amcanion carbon isel yn y CDLl a Chynllun Eryri<br>➢ Cynhyrchu Strategaeth Coed a Choetiroedd<br>➢ Diweddaru Strategaeth Mawndiroedd | Parhaus | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir (CaRhT)<br><br>Pen. Coed Cadwraeth ac Amaeth (CCA) |
| | Ch. 1 - 2 | Mae gwaith ar y Strategaeth Goed a Choetiroedd yn symud ymlaen yn dda, bydd drafft terfynol yn mynd gerbron yr Aelodau yn Rhagfyr ac yna allan ar gyfer ymgynghoriad terfynnol dechrau 2025.<br>Rhan o waith y tim mawn yw adolygu'r strategaeth mawn ac mae'n cael ei wneud pan mae amserlen yn caniatau, mae gwaith diweddaru data wrthi'n cael ei wneud. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Y strategaeth goed yn dynesu at y cymal olaf o'i gyd greu, rhagwelir y bydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod llawn yn y gwanwyn.**<br>**Bydd y startegaeth fawn yn cael ei diweddaru wrth i adnodd staff ganiatau yn y gwanwyn/haf wrth i rhaglen waith (sydd yn dymhorol) ysgafnu rhywfaint.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.5** | 🟢 | **Sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i egwyddorion y "Ras i Sero" drwy fabwysiadu rôl arweinyddiaeth ac eiriolath gref yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd – gan gynnwys ymrwymo i'r 5 prif addewid sydd yn y "Ras i Sero". Gweithio gyda PC yDU/PyPC ar negeseuon strategol newid hinsawdd** | Parhaus | Cyf. CaRhT |
| | Ch. 1-2 | Mae capasiti staff, yr angen i weithio yn draws adrannol a chefnogi pwrcasu Carbon isel ledled yr Awdurdod wedi ei adnabod a swydd newydd 'Swyddog Carbon' wedi ei greu, ei hysbysebu a recriwtio. Bydd y Swyddog newydd yn dechrau yn y rôl Tachwedd 2024. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Yn dilyn penodiad Swyddog Carbon Isel, mae'r swyddog wedi bod yn mynychu cyfarfodydd Sero Net rhanbarthol perthnasol a chyfarfodydd Ynni a Hinsawdd NPUK, yn ogystal â mapio'r strategaethau, adroddiadau a pholisïau perthnasol (mewnol ac allanol) i'r Awdurdod gyflawni ei ymrwymiadau datgarboneiddio. Mae meysydd targed allweddol fel Teithio Busnes a Fflyd Busnes (fel y nodwyd gan Small World Consulting) yn cael sylw drwy'r ffurfiad o bwyllgor mewnol.** | | |

🟢 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

🟡 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

🔴 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.6** | | **Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a cynnal swydd arweinydd strategol** | Parhaus | PW Arweinydd Strategol |
| | Ch. 1- 2 | Mae ffocws yr arweinydd strategol wedi bod yn fframio canfyddiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf yn allbynnau ysgrifenedig y rôl. Mae teitlau gweithredol "strategaeth alluogi" a "Llyfr Bach o Opsiynau" wedi'u disodli gan "Tirweddau Dynodedig: Canllawiau Swyddogion er Budd Natur" a "Ffermio Budd-dal Deuol". Mae'r cyntaf wedi'i rhannu'n bedair adran i ymdrin â therminoleg newydd, templed o gynllun gweithredu adfer natur ar gyfer y tirweddau dynodedig, meysydd ffocws, ac argymhellion pellach. Nod y gwaith hwn yw bod gan staff yr Awdurdod ""lyfryn bwrdd" defnyddiol i'w helpu i gyflawni eu rolau ac i ffermwyr/rheolwyr tir gael cyfeiriad defnyddiol i'w helpu drwy gyfnod o newid dwys a rhywbeth y dylai cyd-fynd yn dda ag unrhyw gynlluniau ar sail ffermio sy'n gysylltiedig â'r tirweddau dynodedig. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae ffocws y ddau chwarter olaf wedi bod ar drosglwyddo syniadau ar bapur i gynhyrchu'r dogfennau a enwir bellach: "Tirweddau Dynodedig Cymru: Canllaw Swyddogion er Budd Natur" a "Ffermio Ymaddasol". Nod y gwaith yw bod gan staff yr Awdurdod lyfryn defnyddiol i'w helpu i gyflawni eu rolau ac i ffermwyr/rheolwyr tir gael cyfeiriad defnyddion i'w helpu trwy gyfnod o newid dwys. Mae'r dogfennau wedi'u cadw'n gymharol fyr drwy ganolbwyntio ar y wybodaeth a'r negeseuon allweddol mwyaf perthnasol. Mae'r llyfryn swyddogion yn cynnwys rhai ffyrdd a awgrymir o gynllunio senarios yn well mewn ymateb i bwysau naturiol ac economaidd-gymdeithasol. Bydd y llyfryn yn cael ei gyhoeddi yn Chwarter 4 a bydd swydd arweinydd strategol ar ei wedd gyfredol yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2025.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 3 | GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.1** | Coch | **Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE** | Haf 2024 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol (TDd) |
| | Ch. 1-2 | Ymchwil desg a chasglu gwybodaeth wedi'i gwblhau. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Gwaith drafftio ar y gweill. Bwriedir cyflwyno drafft  i'r Gweithgor Aelodau erbyn Haf 2025.** | | |
| **AC 3.2** | Gwyrdd | **Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2024/25 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2025.**<br>➢ **Paratoi adroddiad yn diweddaru i'r Aelodau** | Parhaus - 2025<br><br>Rhag. 2024 | Pen. TDd<br><br>Rheolwr Prosiect y Carneddau |
| | Ch. 1+2 | Mae rhaglen waith y Cynllun yn rhedeg yn brydlon, yn unol a'r amserlen. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Aelodau yn fuan yn 2025. | | |
| | **Ch. 3** | **Mae'r cynllun yn rhedeg yn brydlon a rhagwelir cwblhau fis Mawrth 2026. Bydd adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i Aelodau yn y Gwanwyn.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 3.3** | Gwyrdd | **Cyflwynwyd Datganiad o Ddiddordeb a sicrhawyd arian Loteri: Symud ymlaen a chyflawni prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy** | Parhaus hyd at Hyd. 2025 | Pen TDd<br>Swyddog Prosiect TDd |
| | Ch. 1-2 | Penderfynwyd cyflawni'r prosiect o fewn sgôp grant Llywodraeth Cymru, Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy.  Mae'r gwaith bellach yn mynd rhagddo. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae sawl agwedd o'r prosiect yn weithredol: gwaith arolygu a chloddio archaeolegol gyda Phrifysgol Sheffield, gwaith maes gydag ysgolion cynradd lleol, llyfr dehongli cymuned Harlech a bydd arolwg Lidar yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2025.** | | |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.4** | Wedi ei Gwblhau<br>**Ch. 1- 2**<br><br>**Ch. 3- 4** | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd (STB) Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru**<br><br>➢ **Cwblhau a gosod dehongliad o safle Ynydypandy**<br><br>**Dehongli safle Ynysypandy wedi'i gwblhau.**<br><br>**Cynhaliwyd gweithdy ar y cyd a Chyngor Gwynedd yng nghymuned Dolbenmaen, i ymgysylltu gyda'r gymuned a chasglu enwau tirweddol yr ardal. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn a bwriedig cynnal digwyddiadau o'r fath mewn cymunedau eraill yn Safle Treftadaeth y Byd yn ystod 2025.** | Parhaus Hydref 2024 | Pen. TDd. |
| **AC 3.5** | **Ch. 1- 4** | **Wardeiniaid i arwain teithiau cerdded misol gydag arbenigwr gwadd i hyrwyddo natur, diwylliant a threftadaeth**<br><br>**Mae teithiau misol yn parhau gyda nifer o fynychwyr yn amrywio, byddwn yn ymestyn y gwaith hyrwyddo ar gyfer 2025-26.** | Parhaus 2024/25 | Pen. Gwas. WaM |
| **AC 3.6** | Ch. 1-2<br><br>**Ch. 3 - 4** | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol**<br>Mae swyddogion yn cyfrannu at waith y grŵp drwy fynychu cyfarfodydd chwarterol, gweithdai a chyflawni rhaglen waith y grwp.<br><br>**Mae'r gwaith yn parhau fel yr uchod.** | Parhaus | Pen. TDd. |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.7** | | **Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau** | Rhag. 2024 | Pen. TDd. |
| | Ch. 1-2 | Cyflwynwyd adroddiad blynyddol i'r Awdurdod fis Mehefin 2024. Agorwyd arddangosfa o waith celf, 'Yr Ysgwrn yn Ysbrydoli' dros yr Haf. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae'r Ysgwrn ar gau dros y gaeaf. Cynhaliwyd tri digwyddiad tymhorol cyn y Nadolig, gan gynnwys gwasanaeth Plygain hynod lwyddiannus. Bwriedir ymestyn y digwyddiad hwn i gymuned Trawsfynydd yn 2025.** | | |
| **AC 3.8** | | **Yn dilyn cwblhau Gwerthusiadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli cyflwyno rhaglen barhaus o hyfforddiant sgiliau traddodiadol a fydd hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd** | Rhan 1. Hydref 2024 | Pen. TDd. |
| | Ch. 1-2 | Cynhaliwyd 5 sesiwn sgiliau traddodiadol hyd yma a phob un yn orlawn. Bydd sesiynau pellach yn cael eu cynnal yn 2025. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae swyddogion yn gweithio tuag at sicrhau achrediad LANTRA i'r Awdurdod ac i un contractwr er mwyn ei uwchsgilio i gynnal hyfforddiant walio a phlygu gwrych drwy'r Gymraeg. Mae rhaglen sgiliau'r gwanwyn yn cael ei drefnu ar hyn o bryd.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 4 | **MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD SENARIOS RHEOLI TIR AR ÔL BREXIT** |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 4.1** | | **Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol** | Parhaus | *Pen. CCA, PW Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir |
| | Ch. 1-2 | Trafodaethau SFS wedi bod yn ddwys ac yn symud ymlaen i gyflwyno'r haen "cynhwysol/universal" yn y gaeaf. Rhan o drafodaethau startegol ar gynllun Tirweddau Cymru | | |
| | **Ch. 3** | **Swyddogion wedi cael rol flaenllaw iawn yn natblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn ogystal â datblygu cynllun Ffermio Bro ar gyfer y Tirweddau Dynodedig. Wedi datblygu 2x cais NNF4, ac 2x cais INRS.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 4.2** | | **Yn dilyn ymgynghoriad LIC, cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus effaith cynigion Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru ar rinweddau arbennig Eryri** | Parhaus | Pen. CCA |
| | Ch. 1- 2 | Fel yr uchod, yn rhan o drafodaethau strategol. | | |
| | **Ch. 3** | **Swyddogion wedi cael rol flaenllaw iawn yn natblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn ogystal â ddatblygu cynllun Ffermio Bro ar gyfer y Tirweddau Dynodedig. Wedi datblygu 2x cais NNF4, ac 2x cais INRS. Bydd yr ymgysylltu'n dwyshau gyda datblygiadau yn yr INRS a Ffermio Bro.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

*Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA)

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 5 | MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.1** | | **Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth a chynnwys e.e. SoNaRR (adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol), Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol ayyb. i hysbysu'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn Eryri** | Mawrth 2025 | Pen. CCA |
| | Ch. 1-2 | Gwaith yn mynd rhagddo yn dda bydd y ddogfen ymgynghorol yn cael ei chyflwyno gaeaf 2024-25 | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Y gwaith yn symud ymlaen. Anelir i gyflwyno'r fersiwn terfynnol i'r Awdurdod yn gynnar yn y gwanwyn.** | | |
| **AC 5.2** | | **Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru** | Adroddiad Blynyddol | Pen. RhDaCh |
| **Adroddiad blynyddol** | | | | |
| **AC 5.3** | | **Unwaith bydd canllawiau LlC wedi'u cyhoeddi, sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu** | Mawrth 2025 | Pen. Polisi Cynllunio |
| | **Ch.1- 3** | **Parhau i aros am ganllawiau LlC.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.4** | | **Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Safle Eryri (e.e. HLF Carneddau, LIFE (Coedwig Law Geltaidd, Cyforgorsydd, Corsydd Crynedig, prosiect y Gylfinir) SMS Dinas Mawddwy, Rhaglen Genedlaethol Mawn, ENRAW, prosiectau Awyr Dywyll) a datblygu rhaglenni pellach** | Adroddiad diweddaru 2 waith y flwyddyn | Pen CCA<br><br>Rheolwyr Prosiectau |
| | Ch. 1-2 | SMS Dinas Mawddwy bellach wedi ei gwblhau, mae amser sylweddol wedi bod yn cael ei roi i mewn i ddatblygu cynllun Ffermio Cynaladwy gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae cais ar gyfer Nature Networks Fund 4 wedi ei roi ymlaen (gyda ffocws ar goed), ac un mewn partneriaeth hefo AHNE y Gogledd ar gyfer Awyr Dywyll. Mae dau gais wedi ei wneud ir INRS, (un ar gyfer ffermio atgynhyrchiol, ac un ar gyfer rheoli coedtir ar ffermydd yn well).<br><br>Mae gwaith sylweddol hefyd wedi ei roi mewn i ddatblygu'r syniad rhaglen Ffermio Bro gyda Llywodraeth Cymru, bydd mwy o fanylion maes o law. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | ➢ **Yn disgwyl ateb ar y 2x gais NNF4 ddiwedd Chwefror.**<br>➢ **2x INRS wedi mynd heibio'r cyfnod cystadleuol ac yn cael ei ddatblygu yn llawn erbyn diwedd Mawrth, 2025.**<br>➢ **Datblygiad cynllun Ffermio Bro yn mynd yn dda gyda rol blaenllaw iawn gan Eryri yn y datblygiad**<br>➢ **NPAP yn symud i gynllun ariannu tair mlynedd.**<br>➢ **Trafodaethau cynnar am gynllun ôl LIFE wedi dechrau.** | | |
| **AC 5.5** | | **Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS)** | Mawrth 2025 | Pen CCA |
| | Ch. 1-2 | Y rhaglen waith yma yn mynd ymlaen yn wych ac yn ein galluogi i ddatblygu nifer o raglenni gwaith cyfalaf a darpar brosiectau newydd yn ei sgil. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Gwaith yn rhedeg yn hwylus iawn a gofyn cynyddol am y rhaglen.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

## CANLYNIADAU:

**AMGYLCHEDDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni’r amcan llesiant pan:**

**AC1:** Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***

**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***

**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)***

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)**

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. **(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3).**

# CYMUNEDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 1 | CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 1.1 | (gwyrdd) | **Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. Gwas. Wardeinio + |
| | Ch. 1-2 | Mae'r gwaith yn parhau mewn cydweithrediad rhwng y gwasanaethau cyfathrebu a wardeinio.<br>Mae llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo i gyd ar ein gwefan a'r wybodaeth wedi ei gysoni. Yn edrych am ffyrdd ychwanegol i hyrwyddo a chyfleu teithiau gan ddefnyddio adnoddau megis "drone" i greu clipiau ffilm. | | |
| | **Ch 3** | **Mwy o waith hyrwyddo digidol ar deithiau misol y Wardeiniaid a sesiynau Meddylgarwch wedi golygu cynnydd niferoedd yn mynychu digwyddiadau.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.2** | Wedi ei Gwblhau | **Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol**<br>➢ Cefnogi a chymryd rhan yng nghynllun gwirfoddoli Caru Eryri 2024 gyda phartneriaid gan gynnwys Cymdeithas Eryri<br>➢ Ystyried ac adolygu digwyddiadau gwirfoddoli a Llesiant 2023, diweddaru DPA a gosod targedau ac argymhellion newydd ar gyfer 2024<br>➢ Sefydlu rhaglen wirfoddoli ar gyfer y flwyddyn i ddod<br>➢ Cynnal cyfres o ddigwyddiadau lles<br>➢ Hyrwyddo cyfloeoedd gwirfoddoli ymhellach y tu allan i ranbarth Yr Wyddfa gyda chymorth swyddogion cyfathrebu | Parhaus | Pen. Partneriaethau<br><br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles<br><br>Pen. a/neu Swyddog Cyfathrebu |
| | **Ch. 1-2** | **Swyddog Gwirfoddoli a Lles wedi cwblhau'r uchod, ac wedi cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Aelodau (ym mis Gorffenaf).** | | |
| **CC 1.3** | | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig** | Parhaus | Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | Ch. 1-2 | Mae'r gwaith yn parhau ac yn gwella'n flynyddol (gweler adroddiadau blynyddol Gwirfoddolwyr a Llesiant). Datblygir cyfleoedd newydd a diddorol i dargedu grwpiau penodol. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ymhellach dros gyfnod y gaeaf 2024 i'w cynnig yn 2025. | | |
| | **Ch. 3** | **Gwaith dal yn parhau ac yn datblygu fesul blwyddyn. Bydd Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2024 yn barod i gyflwyno i'r Tim Rheoli mis Mawrth 2025 ac i bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 19/03/25.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.4** | ● (gwyrdd) | **Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLl** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh |
| **Adroddiad blynyddol** | | | | |
| **CC 1.5** | ● (gwyrdd) | **Yn dilyn penderfyniad gan yr Awdurdod i ohirio cynhyrchu Adolygiad CDLl Eryri tan 2025 er mwyn canolbwyntio ar gyflawni Cyfarwyddyd Erthygl 4: Symud ymlaen â bwriad yr Awdurdod i weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir i newid cartref preswyl parhaol i llety gwyliau neu ail gartref, gyda cherrig milltir allweddol yn cynnwys:**<br>➢ Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol cyn Haf 2024<br>➢ Adrodd yn ôl ar y canfyddiadau a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol mewn dull gweithredu yn ystod Hydref 2024<br>➢ Paratoi CCA erbyn Mawrth 2025 a fydd yn rhoi arweiniad manylach ar weithredu<br>➢ Anelu i gael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod ym mis Mehefin 2025 | ➢ Cyn Haf 2024<br>➢ Hydref 2025<br>➢ Mawrth 2025<br>➢ Mehefin 2025 | Cyf. CaRhT<br>Pen. Polisi Cynllunio |
| | Ch. 1- 2 | Ym Mhwyllgor Cynllunio a Mynediad ar 6ed o Fawrth 2024, cymeradwyodd yr Aelodau i swyddogion ymgysylltu ar y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio PC Eryri. Cyflwynwyd hysbysiad ynghylch y Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar 12 o Ebrill, 2024. Y gofyniad statudol oedd cynnal cyfnod ymgysylltu o 21 diwrnod o leiaf. Er mwyn sicrhau digon o gyfle i'r rhai yr effeithir arnynt ymateb i'r hysbysiad ac i hwyluso'r broses o gyflwyno sylwadau, cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd o 6 wythnos o Ebrill 12 hyd at Mai 24ain, 2024. Mae swyddogion yn y broses o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu ac yn paratoi Adroddiad Ymgynghori i'w gyflwyno i'r Gweithgor Aelodau i'w ystyried cyn i'r Awdurdod wneud ei benderfyniad terfynol ar gadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 ai peidio. Mae CCA amlinellol yn cael ei ddrafftio. | | |
| | **Ch. 3** | **Adroddiad Ymgynghori wedi cael ei baratoi ac wedi cael ei ystyried gan aelodau yr Awdurdod yng Ngweithgor Aelodau yr Awdurdod ar Ragfyr 4ydd. Amlinelliad o Ganllaw Cynllunio Atodol hefyd wedi cael ei ystyried gan aelodau yng Ngweithgor aelodau Rhagfyr 4ydd. Bydd yr holl ddogfenau cefndirol ynghylch cadarnhau y Cyfarwddyd Erthygl 4 a'i peidio yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Cynllunio a** | | |

● (gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

● (melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

● (coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ch. 4 | **Mynediad yr Awdurdod ym mis Ionawr 2025.** | | |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.6** | (gwyrdd) | **Parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol drwy Cronfa Cymunedol Eryri (CCE), yn enwedig lle mae'r rhain yn cael eu harwain gan gymunedau eu hunain, mewn seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol megis rheoli sbwriel a gwastraff, datblygu cymunedol a'r Iaith Gymraeg.**<br>**Bydd ffenstr ariannu newydd ar gyfer 2024-25 yn agor ac yn cael ei hyrwyddo o 18 Mawrth 2024** | Mawrth 2025 | Pennaeth Partneriaethau<br><br>Swyddog Prosiect CCE |
| | Ch. 1-2 | Dyfarnwyd cyllid i 10 prosiect (rhestrir isod), cyfanswm o £102,688.13. Mae 7 prosiect ar y gweill, 3 heb ddechrau eto. Mae pob prosiect yn parhau ar y trywydd iawn i orffen ar amser.<br>❖ Clwb rygbi y Bala – System PV Solar;<br>❖ Cyng Cymuned Beddgelert – Offer newydd ar gyfer y maes chwarae;<br>❖ Canolfan Prysor, Trawsfynydd – Cysawd Solar PV;<br>❖ Clwb Hoci Y Bala – Ail wynebu'r astro turf yn Ysgol Godre'r Berwyn;<br>❖ Cyngor Cymuned Bro Garmon – gwelliannau i faes parcio cymunedol Nebo;<br>❖ Cyngor Cymuned Ysbyty Ifan – Uwchraddio neuadd y pentref, gwydr dwbl a drystau tân newydd;<br>❖ Neuadd Gymuned Llanfairfechan – Cysawd Solar PV:<br>❖ Menter Gymunedol Llanuwchllyn Cyf – Cysawd Solar PV<br>❖ Neuadd Ogwen – Cegin fasnachol<br>❖ Cyngor Cymuned Dolwyddelan – Amryw o brosiectau cyfalaf o'r cynllun cymunedol. | | |
| | **Ch. 3** | **Mae'r prosiectau uchod yn cael ei gweithredu tuag at eu cwblhau erbyn Mawrth 2025. Mae un prosiect yn rhedeg ar ôl yr amserlen ac un yn risg o beidio gael ei weithredu. Mae Swyddog Ymgysylltu Cymunedol yn gweithio'n agos gyda'r cymunedau i ddatrys unrhyw broblemau.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 2 | CEFNOGI POBL IFANC |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 2.1 | | **Aelodau i gysidro Maniffesto Ieuenctid drafft** | Mai 2024 | Pen. Gwas. WaM Swyddog Pobl Ifanc |
| | Ch. 1+2 | Cyflwynwyd y Maniffesto i Weithgor Aelodau Mai 22ain a derbyniwyd sylwadau arno gan Aelodau. Bydd swyddogion yn addasu'r Maniffesto ar gyfer ei gyflwyno i'r Awdurdod mis Medi. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Yn dilyn ymadawiad Swyddog Pobol Ifanc, hysbysebwyd y swydd ac apwyntwyd swyddog newydd i'r swydd. Penderfynwyd ail leoli'r swyddog yn yr Adran Partneriaethau a bydd yn dechrau yn y swydd mis Ebrill 2025 i weithredu ar y Maniffesto.** | | |
| CC 2.2 | | **Datblygu'r cynllun Ceidwad Ifanc er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun** | Chwefror 2025 | Pen. Gwas. WaM |
| | Ch. 1+2 | Mae'r gwaith wedi parhau gyda creu cyfleuon i'r Ceidwaid ifanc ar draws y Parc. Y cyfleuon wedi amrywio ac wedi cydweithio gyda adrannau eraill. Gwaith wedi cychwyn gyda'r Loteri er mwyn ceisio am gyllid. | | |
| | **Ch. 3 – 4** | **Yn dilyn ymadawiad Swyddog Pobol Ifanc, hysbysebwyd y swydd ac apwyntwyd swyddog newydd i'r swydd. Penderfynwyd ail leoli'r swyddog yn yr Adran Partneriaethau a bydd yn dechrau yn y swydd mis Ebrill 2025 i weithredu a datblygu cynllun Ceidwad Ifanc.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC3 | HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.1** | | **Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Unwaith y bydd y cynllun strategol wedi'i lansio, dechrau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig. Mae cyfarfod cyntaf y Bartneriaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2024:**<br>➢ **Cwblhau Cynllun Gweithredu a gweithredu targedau a dangosyddion cysylltiedig** | Rhagfyr 2024 | Pen. Partneriaethau<br><br>Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| | Ch. 1-2 | Cynllun Gweithredu cyntaf wedi ei gynhyrchu a'i dderbyn gan y Partneriaid. Bydd pawb yn bwydo fewn i hyn erbyn Mawrth 2025 pryd bydd adolygiad a cynllun gweithredu newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2025-26. Mae'r grŵp tasg Data yn cael ei ail sefydlu i weithio a datblygu dangosyddion hir dymor i'r Cynllun. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae'r gynhadledd blynyddol cyntaf wedi ei gynnal ar 14/02/25 gyda 130 o fynychwyr – ac yn llwyddiannus iawn. Mae swyddogion yn dechrau gweithio ar Cynllun Gweithredu 2025-6 dros y misoedd nesaf.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.2** | | **Datblygu cyfleoedd i annog trafnidiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol:** | Parhaus hyd at Ebrill 2025 | Pen. Partneriaethau Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| | | ➢ Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cynllun trafnidiaeth a pharcio Gogledd Eryri<br>➢ Parhau i weithio gyda partneriaid i ymateb i'r broblem parcio a materion trafnidiaeth yn ardal Nantgwynant.<br>➢ Parhau i hwyluso trafodaethau rhwng partneriaid er mwyn ymateb materion parcio a thrafnidiaeth yn ardal Ogwen | | |
| | Ch. 1-2 | Mae cyfarfodydd cyson yn parhau i'w cynnal. Wedi gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru o mis Mehefin – Tachwedd 2024 trwy secondiad er mwyn gwella cysylltiad rhwng Cynghorau Lleol a Llywodraeth Cymru/NMWTRA a'r Heddlu. Mae'r gwaith yn ateb problemau tymor byr – bydd angen arweniad strategol rhanbarthol i gytuno ymatebion hir dymor. | | |
| | **Ch. 3** | **Fel yr uchod – Parhau i wthio am arweniad strategol gan Llywodraeth Cymru, NMWTRA, Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy drwy ein perthynas gyda Trafnidiaeth Cymru a Heddlu Gogledd Cymru.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CC 3.3** | | **Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri.**<br>➢ Cyflwyno dau modiwl newydd yn 2024 ar Coed Glaw Celtaidd a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau | Parhaus<br><br>2024 | Pen. Partneriaethau Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa |
| | Ch. 1- 2 | Mae cynllun Llysgenhadon Eryri yn parhau i ddatblygu a thyfu mewn poblogrwydd.<br>Mae'r swyddogion/adrannau perthnasol yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer modiwlau newydd.<br>Mae'r Cynllun yn mynd o nerth i nerth ac mae dros 1200 bobl wedi cymhwyso fel Llysgenhadon Eryri erbyn hyn. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Gwaith parhaus – mae gwaith wedi ei gwblhau ar gyfer modiwl ail gymwhyso ar gyfer 2025 ac wedi'i lansio. Bydd modiwl ar Cynllun y Carneddau yn mynd yn fyw yn gynnar yn 2025 a modiwl pendodol ar negeseuon diogelwch a Mentrau'n Gall yn cael ei lansio yn 2025.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.4** | | **Sicrhau bod y CDLl presennol yn rhoi ei bolisïau ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| **Adroddiad blynyddol** | | **Polisiau CDLl Eryri yn ymwneud a twristiaeth gynaliadwy yn cael eu gweithredu yn effeithiol** | | |
| **CC 3.5** | | **Gweithio gyda Trafnidiaeth Cyrmu i ddatblygu Cynllun Cyflawni trwy Grŵp Cyflawni Gogledd Eryri a sefydlwyd y llynedd i alluogi gwell gwaith partneriaeth a blaenoriaethu a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth cynaliadwy yn llwyddiannus. Sicrhau bod adborth cymunedol wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r cynllun. Sicrhau ein bod yn cydweithio â thîm y CDLl fel rhan o'r broses CDLl mewn perthynas â pholisïau sy'n ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth.**<br>➢ Cynorthwyo'r Grŵp Cyflawni i gwblhau a gweithredu Cynllun Cyflawni | Mawrth 2025 | Pen. Partneriaethau |
| | Ch. 1-2 | Mae swyddogion APCE yn neud pob dim o fewn eu gallu i symud y gwaith yma yn ei flaen – mae angen ymrwymiad y partneriaid eraill i alluogi'r cyflawni symud ymlaen. | | |
| | **Ch. 3** | **Parhau fel yr uchod.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC4 | HYRWYDDO A CHEFNOGI'R GYMRAEG YN WEITHREDOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 4.1 | | **Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Ch. 1+2 | Rhaglen o weithgareddau Haf wedi'i chynllunio a'i chwblhau. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Cwblhawyd rhaglen weithgareddau'r Hydref yn llwyddiannus, gan gynnwys Gŵyl Amgueddfeydd Cymru. Cynhaliwyd rhaglen weithgareddau'r Nadolig yn llwyddiannus a bwriedir ehangu ar yr arlwy yma yn 2025 drwy brosiectau yng nghymuned Trawsfynydd.** | | |
| CC 4.2 | | **Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy gwblhau'r cam nesaf o safoni enwau lleoedd Eryri** | Mawrth 2025 | Pen. Treftadaeth Diwylliannol |
| | Ch. 1+ 2 | Mae gwaith ar y rhestr o enwau copaon, rhaeadrau a bylchau ar y gweill. Digwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn yr Hydref. | | |
| | **Ch. 3** | **Mae'r rhestr uchod bellach wedi'i drosglwyddo i swyddogion yr Awdurdod ar gyfer eu mewnbwn.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| CC 4.3 | | **Darparu cyfleoedd ac ennyn diddordeb pobl yn yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth gan gynnwys:**<br>➢ **Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli.** | Parhaus | Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | **Ch. 1 - 4** | **Mae gwirfoddolwyr sy'n dysgu Cymraeg yn cael eu partneru gyda rhai sy'n rhugl ac mae holl wybodaeth a deunydd ar gyfer gwirfoddolwr ar gael yn y ddwy iaith.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o’r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i’r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.4** | | **Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli** | Parhaus hyd at Rhag. 2025 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Ch. 1- 2<br>**Ch. 3 - 4** | Cynhaliwyd dwy sesiwn cofnodi enwau lleoedd yn ardal y Carneddau.<br>**Mae sesiynau Penmachno a Chapel Curig wedi’u rhaglennu ar gyfer dechrau 2025. Bydd enwau gweddill ardal y Carneddau yn cael eu casglu yng Ngwanwyn/Haf 2025.** | | |
| **CC 4.5** | | **Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh |
| **Adroddiad blynyddol** | | **Mae’r Adroddiad Monitro blynyddol a gyflwynir i’r Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref, wedi dod i’r casgliad bod y polisi uchod yn cael ei weithredu’n effeithiol.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC5 | DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 5.1** | ● | **Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisïau cyfredol y CDLl i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br><br>Pen. PC |
| **Adroddiad Blynyddol** | | **Daeth Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLl a gyflwynir i Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref i'r casgliad bod y polisiau uchod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd yr adolygiad o'r CDLl yn 2025 yn rhoi cyfle i adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth bresennol i ganfod a oes angen newid unrhyw bolisi neu ddulliau a fabwysiadwyd ar hyn o bryd.** | | |
| **CC 5.2** | ● | **Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLl cyfredol** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br><br>Pen. PC |
| **Adroddiad Blynyddol** | | **Mae hyn wedi ei wneud gan swyddogion a phenderfynwyd i'r adolygiad gychwyn yn 2025 (penderfynwyd ei ohirio am flwyddyn er mwyn caniatau amser i swyddogion weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4).** | | |
| **CC 5.3** ⬢ | ● | **Hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig Eryri yn gynaliadwy** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu |
| | Ch. 1- 2 | Mae Swyddog Cynnwys Digidol newydd wedi dechrau. Mae'r adran wedi addasu y sianeli digidol sydd bellach yn boblogaidd iawn ac yn cyrraedd mwy o gynulleidfa. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Presenoldeb digidol yn parhau i ffynnu. Mae cynnwys wedi eu teilwra ar wahanol gyfryngau boed hynny yn ddigidol neu beidio yn golygu bod mwy o bobl yn gallu dysgu a mwynhau cyfleoedd yn Eryri.** | | |

● Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

● Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

● Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

## CANLYNIADAU:

**CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2***)

**CC4:** Mi fyddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3***)

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1***)

# 3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 1 | DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.1** | Gwyrdd | **Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:**<br>➢ **Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis**<br>➢ **Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis** | Parhaus Mawrth 2025 | Pen. Adnoddau Dynol (AD) |
| | Ch. 1- 2 | Cefnogaeth wedi ei dderbyn gan y cyfarwyddwyr i annog rheolwyr llinell i gwblhau gwerthusiadau yn brydlon sydd wedi cynyddu nifer y gwerthusiadau a gynhaliwyd hyd yma eleni. Mae'r fformat gwerthuso yn asesu lefelau perfformiad staff ac yn nodi gofynion hyfforddi i unai wella perfformiad gwaith neu hyfforddiant a fyddai'n paratoi staff ar gyfer dilyniant gyrfa o fewn yr Awdurdod ac yn sgil hyn mae nifer o sesiynau hyfforddi staff wedi cynyddu 54%. | | |
| | **Ch. 3** | **Anogir pob rheolwr llinell i gynllunio eu gwerthusiadau staff mewn da bryd, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd a chyfnodau tawelach. Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau effeithlonrwydd mwyaf wrth werthuso holl aelodau'r tím yn effeithiol.**<br>**Y chwarter hwn, rydym wedi gweld cynnydd parhaus mewn sesiynau hyfforddi staff, gan gynnwys sesiynau ffurfiol dan arweiniad tiwtoriaid a modiwlau hyfforddi ar-lein ELMS. Gan edrych ymlaen, mae'r adran AD yn gweithio i ehangu'r hyfforddiant ELMS gorfodol ar gyfer yr holl staff, gyda ffocws ar Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae cyfieithu'r modiwlau hyn i'r Gymraeg ar y gweill ar hyn o bryd i sicrhau hygyrchedd i bawb.** | | |

Tud. 29

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu ei gwblhau am 2024/25

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ch. 4 | Mae swyddog Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod wedi cychwyn adolygiad manwl o hyfforddiant penodol ar gyfer swyddi o fewn yr Awdurdod. Mae'r broses hyd yma wedi amlygu anghenion hyfforddi allweddol i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ragori yn eu rolau. Wrth i'r adolygiad barhau, gallwn ddisgwyl gweld mwy o argymhellion ar gyfer hyfforddiant penodol i swyddi, gan helpu i gefnogi datblygiad proffesiynol ymhellach ac atgyfnerthu ein gweithlu. | | |
| **Rhif** | **Statws a Cynnydd Chwarter** | **Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)** | **Amserlen** | **Swyddog(ion) cyfrifol** |
| CW 1.2 | Gwyrdd | **Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau** | Parhaus Mawrth 2024 | Pen. AD<br>Pen. Gwasanaeth |
| | Ch. 1 - 4 | Mae aelodau staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i fynychu grwpiau cymheiriaid. Mae llawer mwy o gyrsiau wedi ei hychwanegu i ELMS, ein system hyfforddi ar-lein sy'n darparu nifer o gyrsiau hyfforddi dwyieithog i gynorthwyo staff a'u hysbrydoli i symud ymlaen a dysgu disgyblaethau newydd. | | |
| CW 1.3 | Gwyrdd | **Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol** | Parhaus Mawrth 2025 | Pen. AD<br>Pen. Gwas. |
| | Ch. 1 - 4 | Mae cyfleoedd secondiad yn cael eu hystyried a'u cynnig lle bo hynny'n ymarferol. Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu eu cymwysterau o fewn eu meysydd arbenigedd priodol a/neu ennill profiad a gwybodaeth trwy ymgymryd â phrosiectau a/neu gyfrifoldebau ychwanegol. Rhwng y cyrsiau hyfforddi allanol sydd wedi ei trefnu a'r nifer sydd ar gael dros ELMS (portal dysgu arlein) mae llawer mwy o gyfleon hyfforddiant ar gael i staff. Mae polisi dysgu a datblygu wedi'i greu sy'n amlinellu cefnogaeth yr Awdurdod i staff i wella eu gallu ac yn darparu rhwydweithiau cymorth i'w cynorthwyo. | | |



Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu ei gwblhau am 2024/25

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 2 | DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 2.1 | Ch. 1- 4 | **Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid TCLIC gyda chyrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystâd gyhoeddus ehangach**<br><br>**Mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Mae Pennaeth Eiddo yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd Grŵp Swyddogion Datgarboneiddio Gogledd Cymru ac Ystadau Cymru a bydd y Swyddog Carbon newydd a benodwyd yn ymuno pan fydd yn dechrau yn y rôl er mwyn adnabod cyfleoedd i rannu gwybodaeth a chydweithio gyda partneriaid.** | Mawrth 2025 | Pen. Eiddo |
| CW 2.2 | Ch. 1-2 | **Gwella Ymgysylltiad Staff a Mentrau Lles. Fel rhan o'n hymrwymiad i feithrin amgylchedd gweithle cefnogol a ffyniannus, rydym yn bwriadu rhoi sawl strategaeth ar waith i sicrhau llesiant ein gweithwyr a hyrwyddo diwylliant o gysylltedd a lles:**<br>➢ <u>Ymchwilio a Gweithredu Arferion Gorau:</u> byddwn yn ymchwilio ac yn mabwysiadu arferion gorau o barciau ac awdurdodau eraill mewn perthynas â chynnal gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd i staff er mwyn blaenoriaethau eu hiechyd a diogelwch<br>➢ <u>Dadansoddiad o Absenoldebau Salwch:</u> Deall y ffactorau sy'n cyfrannu at absenoldeb salwch i nodi tueddiadau a gweithredu ymyriadau wedi'u targedu i hyrwyddo lles cyffredinol a lleihau absenoldeb<br>➢ <u>Mwy o Rwydweithio ymhlith Staff:</u> Meithrin ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch ymhlith ein gweithwyr trwy drefnu diwrnodau cyfarfod staff amlach, gan gynnwys cinio a digwyddiadau awyr agored, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymlacio, cymdeithasu ac adnewyddu<br>Mae asesiadau iechyd staff wedi cychwyn gyda'r grŵp cyntaf wedi cael profion pwysedd gwaed, golwg, clyw, ysgyfaint a diabetes. Rydym wedi cychwyn adrodd yn chwarterol wrth y tîm rheoli ar y nifer o absenoldebau drwy salwch fesul adran er mwyn creu ffocws ar y lefelau a'r rhesymau dros yr absenoldebau. Bydd polisi Presenoldeb newydd yn cael ei greu er mwyn gosod trefn gadarn ar gyfer cefnogi aelodau staff sydd yn absennol o'r gwaith drwy | Mawrth 2025 | Pen. AD |



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu ei gwblhau am 2024/25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| | | |
|---|---|---|
| | | gynnig nifer gwahanol fathau o gefnogaeth. Mae asesiadau risg straen a Chynlluniau Gweithredu Lles yn cael ei greu gydag aelodau staff sy'n dioddef o absenoldebau sy'n gysylltiedig â straen neu'n dychwelyd yn ddiweddar ar ol cyfnod o absenoldeb yn ymwneud â straen.<br>Mae'r fforwm staff sydd ar ei newydd wedd yn fformat da ar gyfer rhannu syniadau a chreu cyfleoedd i'r holl staff gael cipolwg ar wahanol agweddau o waith a phrosiectau'r Parc drwy drefnu diwrnodau cysgodi ac ymweliadau â gwahanol adrannau. Mae syniadau yn cael eu cynnig ar gyfer dyddiau allan yn y maes, diwrnodau holl staff a ffyrdd i gadw'n heini drwy ymarferon wrth gyfrifiadur. |
| | **Ch. 3** | **Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i lesiant staff mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer Diwrnod Holl Staff ym mis Ionawr, gan roi cyfle i'r Prif Weithredwr newydd siarad yn uniongyrchol a'r staff a bydd y digwyddiad yn cynnwys sesiwn benodol ar lesiant staff, straen yn y gweithle, a iechyd meddwl. Mae hyn yn faes blaenoriaeth i'r Awdurdod, a bydd y diwrnod yn darparu gwybodaeth, adnoddau, a chefnogaeth werthfawr i'n gweithlu.** |
| | **Ch. 4** | **<u>Cefnogaeth Iechyd Meddwl a Llesiant:</u> Mae'r Awdurdod wedi penodi ac wedi hyfforddi Cynorthwyydd Cymorth Iechyd Meddwl a Hyrwyddwr Llesiant o fewn ein gweithlu presennol. Bydd yr unigolion hyn yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi staff, hyrwyddo mentrau llesiant, ac annog agwedd gadarnhaol tuag at iechyd a llesiant ar draws y sefydliad.**<br>**<u>Offer Dangosydd Straen HSE:</u> Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno offer dangosydd straen (HSE - Health and Safety Executive). Bydd hyn yn ein galluogi i asesu lefelau straen ar draws y gweithlu ac i nodi meysydd allweddol lle gallai fod angen cymorth neu adnoddau ychwanegol. Bydd yr adborth yn amhrisiadwy wrth ein helpu i ddeall ac ymdrin ag unrhyw heriau mae staff yn eu hwynebu.**<br>**<u>Grwp Cerdded Amser Cinio:</u> Er mwyn annog staff i gymryd egwyl iach yn ystod y dydd, mae grwp cerdded amser cinio wedi ei lansio. Mae'r fenter hon yn rhoi cyfle i fynd allan o'r swyddfa neu gartref, mwynhau manteision natur, ac ymgysylltu a chydweithwyr mewn sefyllfa anffurfiol. Mae croeso i bawb ymuno, a gobeithiwn y bydd yn meithrin ymdeimlad gwell o lesiant a chymuned.**<br>**<u>Yoga Desg Dwyieithog:</u> Rydym wedi datblygu fideo yoga byr dwyieithog sydd ar gael i staff. Mae'r fideo'n cynnig ymarferion ymestyn byr y gellir eu gwneud wrth eich desg i helpu gyda hyblygrwydd.**<br>**<u>Fideo Gwella Cwsg:</u> Mae fideo gwella cwsg yn cael ei greu ar y cyd gan yr adran AD a Chyfathrebu er mwyn ei rannu i'r holl staff ar syniadau sut i wella ei cwsg.** |



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.
Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu ei gwblhau am 2024/25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

.

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 3 | GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.1** | **Wedi Cwblhau** Ch. 1 + 2 | **Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ac adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf wedi ei chyflwyno i'r Awdurdod.**<br>➢ **Cyflwyno'r drydedd adroddiad cynnydd i'r Awdurdod**<br><br>**Cyflwynwyd y drydedd adroddiad cynnydd i'r Aelodau yn ystod y Gwanwyn ac mae copi ar gael ar wefan yr Awdurdod. Bydd Cynllun Eryri yn cael ei adolygu yn 2025 ac mae gwaith paratoadol wedi dechrau. Anelir i gyhoeddi Adroddiad Cyflwr y Parc ym mis Mawrth 2025 a dechrau'r broses adolygu Cynllun Eryri weddill y flwyddyn.** | Mehefin 2024 | Pen. Partneriaethau |
| **CW 3.2** | Ch. 1- 4 | **Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru**<br><br>**Mae ymarfer da a gwybodaeth am gyrchu grantiau yn cael eu rhannu rhwng aelodau'r Bartneriaeth. Rhoddir ystyriaeth i anghenion sgiliau ar draws yr 8 tirwedd. Cynhaliwyd seminar y Bartneriaeth mis Mai. Cafwyd trafodaethau diddorol ac addysgiadol ymhlith y nifer dda oedd yn bresennol.** | Parhaus | PW |
| **CW 3.3** | Ch. 1- 4 | **Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol (PPC), Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill**<br><br>**Bydd y PW yn mynychu'r holl gyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae cyfleoedd cydweithredol yn cael eu datblygu gan wahanol wasanaethau'r Awdurdod wrth i gyfleoedd godi.** | Parhaus | PW |

Tud. 33

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu ei gwblhau am 2024/25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.4** | Ch. 1- 4 | **Cyfrannu at ffurfio a datblygu swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**<br><br>**Mae'r PW a'r Cadeirydd yn parhau i fynychu'r cyfarfodydd. Mae swyddog o BC Eryri wedi ei (ch)gyf-ethol i eistedd ar Is-Bwyllgor Strategol Trafnidiaeth Gogledd Cymru** | Parhaus | Cyf. CaRhT |
**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)***

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)**

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. **(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3).**

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

## LLYTHYR CYLCH GWAITH, LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cefnogi ymrwymiad Llywdoraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio | **AC 2.1. AC 2.2 AC 2.3 AC 2.4 AC 2.5** |
| Caefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040 | **CC 3.3**<br>**CW 2.3** |
| Rhoi help rhagweithiol i ddal a storio carbon gan gynnwys drwy helpu i greu coetiroedd lle bo hynny'n briodol a chefnogi'n not o gryfhau'r mesurau i ddiogelu coetiroedd hynafol, a chynyddu'r cysylltiad â rhaglen y Goedwig Genedlaethol | **AC 5.5 (PAWS)** |
| Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30 | **AC 5.1 - AC 5.5** |
| Cefnogi'r rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd (NPAP) i adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth, myned i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Dylech weithhio gyda CNC i daclo themâu'r NPAP, gan gynnwys y camau blaenoriaeth a'r themâu trawsbynciol | **AC 2.4 AC 5.1 AC 5.4** |
| Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfranu at ddatblygu polisi ar garbon glas | **AC 5.1** |
| Cronfa gyfalaf tirweddau cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau nature a datgarboneiddio | **CW 2.1 CW 3.2 CC 1.6** |
| Cymryd rhan weithredol mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteisio i'ch cymunedau | |
| Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir | **AC 2.3 AC 2.4 AC 2.5** |

# 2. CYMUNEDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 1 | CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| CC 1.1<br>**Datblygu adnoddau digidol sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. WaM<br>Swyddog Cynnwys Digidol |
| CC 1.2<br>**Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol** | Parhaus | Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| CC 1.3<br>**Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig** | Parhaus | Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| CC 1.4<br>**Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLl** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Disgrifiad o’r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i’r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy’n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CC 1.5**<br>**Yn dilyn penderfyniad gan yr Awdurdod i gadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau yn Ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri::**<br>➢ Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnwys CCA yn ystod Gwanwyn 2025ac ystyried y sylwadau a dderbyniwyd.<br>➢ Mabwysiadu CCA fel ystyriaeth gynllunio i reoli defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau - Haf 2025<br>➢ Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dod i rym 1af o Fehefin 2025<br>Gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn effeithiol yn y broses rheoli datblygu | ➢ Gwanwn 2025<br>➢ Haf 2025<br>➢ 1af o Fehefin 2025 ymlaen | Cyf. CaP<br>Pennaeth PC |
| **CC 1.6**<br>**Yn amodol ar dderbyn arian grant cynllun Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy LlC ar gyfer 2025-27, parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol drwy Cronfa Cymunedau Eryri (CCE) gan ffocysu ar ddatcarboneiddio. Bydd ffenstr ariannu newydd ar gyfer 2025-26 yn agor ac yn cael ei hyrwyddo cyn gynted ag y bydd cadarnhad wedi’i dderbyn.** | Parhaus<br>Ebrill 2025 - Mawrth 2027 | Pennaeth Partneriaethau<br>Swyddog Ymgysylltu Cymunedol |

| Cyflawni’r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 2 | CEFNOGI POBL IFANC |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **CC 2.1**<br>**Gweithredu’r Maniffesto Ieuenctid** | Parhaus<br>Mawrth 2026 | Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Pobl Ifanc |
| **CC 2.2**<br>**Datblygu’r cynllun Ceidwaid Ifanc er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun** | Parhaus<br>Mawrth 2026 | Pen. Partneriaethau<br>Pen. WaM<br>Swyddog Pobl Ifanc |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 3 | HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL |
|---|---|---|

| **Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.)** | **Amserlen i gwblhau** | **Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol** |
|---|---|---|
| **CC 3.1**<br>**Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Parhau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig.** | Parhaus | Pen. Partneiriaethau Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| **CC 3.2**<br>**Datblygu ac adolygu cyfleoedd i annog trafnidiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol:**<br>➢ Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cynllun trafnidiaeth a pharcio Gogledd Eryri<br>➢ Parhau i weithio gyda partneriaid i ymateb i'r broblem parcio a materion trafnidiaeth yn ardal Nantgwynant.<br>➢ Parhau i hwyluso trafodaethau rhwng partneriaid er mwyn ymateb materion parcio a thrafnidiaeth yn ardal Ogwen | Parhaus tan Ebrill 2026 | Pen. Partneriaethau |
| **CC 3.3**<br>**Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu Cynllun Cyflawni trwy Grŵp Cyflawni Gogledd Eryri a sefydlwyd y llynedd i alluogi gwell gwaith partneriaeth a blaenoriaethu a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth cynaliadwy yn llwyddiannus. Sicrhau bod adborth cymunedol wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r cynllun. Sicrhau ein bod yn cydweithio â thîm y CDLl fel rhan o'r broses CDLl mewn perthynas â pholisïau sy'n ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth.**<br>➢ Cynorthwyo'r Grŵp Cyflawni i gwblhau a gweithredu Cynllun Cyflawni | Parhaus | Pen. Partneriaethau |
| **CC 3.4**<br>**Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri.** | Parhaus | Rheolwr Partneriaethau |
| **CC 3.5**<br>**Sicrhau bod y CDLl presennol yn rhoi ei bolisïau ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol. Yn ogystal, sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy gyda budd gymunedol yn cael ystyriaeth lawn wrth fynd ati i ddiwygio CDLl Eryri** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 4 | HYRWYDDO A CHEFNOGI'R CYMRAEG YN WEITHREDOL |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol<br>(Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CC 4.1**<br>**Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg**<br>➢ Cyflwyno cais adnewyddu statws achrediad Yr Ysgwrn i Lywodraeth Cymru<br>➢ Creu arddangosfa dros dro newydd, Cadeiriau Eugene Van Fleteren | Parhaus<br>➢ Hydref 2025<br>➢ Haf 2026 | Pen. TDd |
| **CC 4.2**<br>**Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy gwblhau'r cam nesaf o safoni enwau lleoedd Eryri** | Parhaus | Pen. TDd |
| **CC 4.3**<br>**Darparu cyfleoedd ac ennyn diddordeb pobl yn yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth gan gynnwys:**<br>➢ Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli. | Parhaus | Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| **CC 4.4**<br>**Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli** | Parhaus hyd at Rhagfyr 2025 | Pennaeth TDd |
| **CC 4.5**<br>**Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 5 | DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **CC 5.1**<br>**Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisïau cyfredol y CDLl i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh |
| **CC 5.2**<br>**Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLl cyfredol** | Adroddiad blynyddol | Pen. PC |
| **CC 5.3**<br>**Hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig Eryri yn gynaliadwy** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

**CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwydo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2***)

**CC4:** Fyddwn ni wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3***)

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol **(*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1*)**

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE | Prosiect/Gwaith APCE |
|---|---|
| Cyfrannu at gyd-lunio'r Cynllun Ffermio cynaliadwy ac at ei roi ar waith | **AC 4.2** |
| Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol | **-** |
| Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg | **CC 1.4** |
| Gweithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Trhafnidiaeth Cymru i gael hyd i ffyrdd i leihau pwysau ymwelwyr ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyrfifol. Rhaid cofio yr un pryd am bwysigwrydd twristiaeth i'n heconomi, a'ch rôl allweddol o ran diwallu anghenion ymwelwyr. Dylech gael eich arwain gan argymhellion a chanfyddiadau'r gwaith diweddar gan Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy | **AC 1.3 1.4 1.9**<br>**CC 3.1 – 3.5** |
| Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio systemau Draenio Cynaliadwy | **-** |
| Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol | **-** |
| Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru* i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol | **AC 3.1 – AC 3.8** |
| Datblygu polisiau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ffynnu, gan gyflawni *Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* | **CC 4.1 – CC 4.5** |
| Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli | **CC 1.2 1.3** |
| Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | **CC 1.2 1.3**<br>**CC 2.1 2.2** |

# 3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 1 | DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 1.1**<br>**Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:**<br>➢ **Anelu bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis**<br>➢ **Anelu cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis** | Parhaus<br>Mawrth 2026 | Pennaeth Adnoddau Dynol (AD) |
| **CW 1.2**<br>**Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau** | Parhaus<br>Mawrth 2026 | Pen. AD<br>Penaethiaid Gwasanaeth |
| **CW 1.3**<br>**Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol** | Parhaus<br>Mawrth 2026 | Penaethiaid Gwas.<br>Pen. AD |
| **CW 1.4**<br>**Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Sustemau Gwybodaeth a Strategaeth Digidol i arwain yr Awdurdod i'r dyfodol gyda canllawiau a gweledigaeth o ran ei sustemau technegol** | Mawrth 2026 | Pen. Sustemau Gwybodaeth (SG)<br>Pen. Cyfathrebu |
| **CW 1.5**<br>**Datblygu llawlyfr cyfathrebu mewnol newydd ar gyfer holl staff** | Rhagfyr 2025 | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. SG<br>Pen. GC a Gweinyddol |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 2 | DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 2.1**<br>**Datblygu prosiectau a rhannu cyflawniadau gwaith Datgarboneiddio yr Ystad/Adeiladau trwy gyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy gyda chyrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystad gyhoeddus ehangach** | Mawrth 2026 | Pen. Eiddo |
| **CW 2.2**<br>**Gwella Ymgysylltiad Staff a Mentrau Lles. Fel rhan o'n hymrwymiad i feithrin amgylchedd gweithle cefnogol a ffyniannus, rydym yn bwriadu rhoi sawl strategaeth ar waith i sicrhau llesiant ein gweithwyr a hyrwyddo diwylliant o gysylltedd a lles:**<br>➢ Ymchwilio a Gweithredu Arferion Gorau: byddwn yn ymchwilio ac yn mabwysiadu arferion gorau o barciau ac awdurdodau eraill mewn perthynas â chynnal gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd i staff er mwyn blaenoriaethau eu hiechyd a diogelwch<br>➢ Dadansoddiad o Absenoldebau Salwch: Deall y ffactorau sy'n cyfrannu at absenoldeb salwch i nodi tueddiadau a gweithredu ymyriadau wedi'u targedu i hyrwyddo lles cyffredinol a lleihau absenoldeb<br>➢ Mwy o Rwydweithio ymhlith Staff: Meithrin ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch ymhlith ein gweithwyr trwy drefnu diwrnodau cyfarfod staff amlach, gan gynnwys cinio a digwyddiadau awyr agored, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymlacio, cymdeithasu ac adnewyddu | Mawrth 2026 | Pen. AD |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 3 | GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 3.1**<br>**Adolygu Cynllun Eryri i adlewyrchu blaenoraethu'r Adroddiad Cyflwr y Parc** | Parhaus - Mehefin 2026 | Pennaeth Partneriaethau |
| **CW 3.2**<br>**Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru** | Parhaus | Prif Weithredwr |
| **CW 3.3**<br>**Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill** | Parhaus | Prif Weithredwr |
| **CW 3.4**<br>**Cyfrannu at ffurffio a datblygu swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru** | Parhaus | Cyfarwyddwr CaP |
| **CW 3.5**<br>**Cyhoeddi a chyfathrebu'r data wedi'i gasglu o dan Adroddiad Cyflwr y Parc.** | Gwanwyn 2025 | Pen. Partneriaethau |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 4 | MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **CW 4.1**<br>**Monitro presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod** | Mawrth 2026 | Swyddog Gwas. Democrataidd |
| **CW 4.2**<br>**Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy hyfforddiant a datblygu**<br>➢ Parhau i gefnogi LlC i fireinio egwyddorion arfer llywodraethu da ac atebolrwydd i Aelodau'r Awdurdod | Parhaus | Cyf. Gwas. Corfforaethol |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 5 | CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol<br>(Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 5.1**<br>**Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.** | Parhaus | Pen. TDd<br>Rheolwr Profiadau Ymwelwyr (pan wedi'i apwyntio) |
| **CW 5.2**<br>**Adolygu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu drwy'r adroddiad blynyddol ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu |
| **CW 5.3**<br>**Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned** | Parhaus | Pen. Polisi<br>Pen. Partneri.<br>Pen GC a Gwein.<br>Swyddog Ymg. Cymunedol |
| **CW 5.4**<br>**Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri** | Parhaus | Rheolwr Mynediad |
| **CW 5.5**<br>**Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol** | Cyfarfod blynyddol | Pen. Cadwraeth Coed ac Amaeth |
| **CW 5.6**<br>**Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri a'r CDLl, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.**<br>➢ Datblygu Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Awdurdod | Parhaus<br><br>Gwanwyn 2025 | Pen. Partneriaethau<br>Pen. PC<br>Swyddog Ymg. Cymunedol |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 6 | CYDBWYSO ADNODDAU AC YMDRECHION YR AWDURDOD |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 6.1**<br>**Adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig er mwyn ymateb i'r sefyllfa ariannol**<br>Adrodd i :<br>Mabwysiadu gan: | Weithgor 06.25.<br>APCE Medi | PW<br>Pennaeth Cyllid |
| **CW 6.2**<br>**Yn amodol ar benderfyniad(au) terfynol yr Awdurdod 30.04.25. ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch, adrodd ar gynnydd unrhyw benderfyniad(au)** | Mawrth 2026 | PW<br>Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| **CW 6.3**<br>**Casglu data yn ystod tymor 2025 ar gyfer hysbysu adolygiad ffioedd meysydd parcio yr Awdurdod ac, os yn berthnasol, symud ymlaen â'r gwaith paratoi ar gyfer addasu tariff ac adolygu ffioedd yn unol â darparwyr meysydd parcio eraill yn yr ardal** | Mawrth 2026 | Pen. Eiddo |
| **CW 6.4**<br>**Symud ymlaen i adolygu potensial mashnachol Canolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod, gan gynnwys:**<br>➢ Mabwysiadu cynllun ar gyfer ail ddatblygiad Canolfan Betws y Coed.<br>➢ Cyflwyno cais am gefnogaeth ariannol i Croeso Cymru.<br>➢ Trwy fuddsoddi yn y siop, casglu data yn ystod tymor 2025 ar gyfer adolygu defnydd Canolfan Pen y Pass. | Mawrth 2026 | Pen. TDd<br>Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

## FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: **Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau'r presennol a'r dyfodol.

**CW2, 3:** Pan fo Cynllun Eryri yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

**CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

**CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdanynt, a sut y gallant helpu i ofalu amdanynt wedi cael eu nodi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A5.1)***

**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A5.2***)

**CW5:** Fyddwn yn cynyddu cyfleoedd i ddeialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C4.1)***

**CW6 *:** Fyddwn yn cyflawni o fewn y gyllideb a neilltuwyd a defnyddir cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod mewn modd cynaliadwy.

*Amcan Llesiant Newydd wedi'i Fabwysiadu Mawrth 2024

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYNLLUNIO

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE | Prosiect/Gwaith APCE |
|---|---|
| Cymryd rhan weithredol mewn rhaglen wella chefnogi gan CLlLC o dan arweiniad y sector | - |
| Cyfrannu at lunio pecyn hyfforddi newydd ar gyfer aelodau APCau a datblygu dull cydgysylltiedig o hyfforddi APCau i rannu arfer gorau | **CW 4** |
| Hyrwyddo protocol newydd awdurdodau Lleol ar gyfer penodi aelodau APCau, cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau lleol, gan bwysleisio profiad a diddordeb uwchlaw ystyriaeth gwleidyddol cyn belled ag y bo modd o fewn y ddeddfwriaeth bresennol | **CW 4** |
| Croesawu'n llawn system flynyddol gryfach ar gyfer adrodd ar berfformiad yr aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac ymchwilio sut i'w hestyn i benodiadau'r Awdurdodau Lleol | **CW 4** |
| Ymderchu i sicrhau rhagoriaeth mewn llywodraethu gan gynnwys rhannu arfer gorau rhwn APCau, gwneud y gorau o'r arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu newydd | **CW 4** |
| Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd Bwyllgor Corfforedig (CJC) a thrwy gydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol i roi polisiau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd) | **CW 3.4** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: CYDWEITHIO

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE (a Tirweddau Dynodedig Cymru (TDC)) | Prosiect/ Gwaith APCE |
|---|---|
| Cefnogi Tirweddau Cymru (y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol) i ddatblygu ei huchelgais, sicrhau bod cydweithio'n digwydd ar bob lefel o fewn APCau ac AHNE a helpu i greu gweledigaeth strategol ar gyfer gweithredu ar gyfer 2022-24 | **CW 3.2** |
| Rhoi cytundeb teiran trawsnewidiol rhwng yr APCau ar waith i gynnal tîm o Gydgysylltwyr Tirweddau Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar draws ein Parciau a'n AHNE, a sicrhau bod amcnaion ac allbynnau'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys o fewn trefniadau monitro ehangach yr APCau a TDC:<br>i. **Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal a Storio Carbon,** i ymdrin â'r holl goetiroedd a chynefinoedd heb eu gwella a'u bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon<br>ii. **Arweinydd Strategol Adfer, Nature a Rheoli Maetholion**, i ymdrin â rheoli pridd cynhyrchu, problemau i afonydd a'r môr oherwydd gwaith ar y tir, ewtroffigedd yn llynnoedd yr ucheldir, bioddiogelu dŵr rhag dŵr ffo amaethyddol, a chefnogi datblygiad byrddau Rheoli Maetholion.<br>Bydd y ddwy swydd yn helpu i:<br>• Ddatblygu cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau nature a hinsawdd;<br>• Cefnogi datblygu ffyrdd i Dirweddau Dynodedig allu addasu i'r Cynllun Ffermio Cynalidwy newydd;<br>• Nodi sut y gall Tirweddau Dynodedig ddatblygu partneriaethau newydd a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a nodi ffrydiau airannu arloesol.<br>iii. **Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu** i weithio ar draws yr holl APCau, gyda'i, swyddfa yn un ohonynt. Agwedd allweddol ar eiwaith fydd cymryd camau beiddgar i wella amrywiaeth a chydraddoldeb – ar Fyrddau, yn eich proffil staffio a'ch ymwelwyr a chefnogi APCau i fodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynyddu'u cyfraniad at daclo tlodi plant a gwledig. | **AC 2.6** |
| Rhannu profiad ac arfer gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo | - |